------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Awst 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu na all y cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:30 - 10:00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:05 (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(5)-24-20 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**2.1 SL(5)593 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**2.2 SL(5)597 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

(Tudalennau 3 - 14)

**CLA(5)-24-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**CLA(5)-24-20 – Papur 4** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 14 Awst 2020

**CLA(5)-24-20 – Papur 5** – Datganiad ysgrifenedig

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:05-10:15

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)589 – Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 15 - 37)

**CLA(5)-24-20 – Papur 6** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 7** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 8** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 9 –** Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 27 Gorffennaf 2020

**3.2 SL(5)590 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

(Tudalennau 38 - 54)

**CLA(5)-24-20 – Papur 10** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 11** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 12** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 13** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 30 Gorffennaf 2020

**CLA(5)-24-20 – Papur 14 –** Datganiad ysgrifenedig

**3.3 SL(5)594 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

(Tudalennau 55 - 69)

**CLA(5)-24-20 – Papur 15** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 16** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 17** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 18** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 6 Awst 2020

**CLA(5)-24-20 – Papur 19** – Datganiad ysgrifenedig

**3.4 SL(5)598 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) (2020)**

(Tudalennau 70 – 84)

**CLA(5)-24-20 – Papur 20** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 21** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 22** – Memorandum Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 23** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 14 Awst 2020

**CLA(5)-24-20 – Papur 24** – Datganiad ysgrifenedig

**3.5 SL(5)592 – Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020**

(Tudalennau 85 – 116)

**CLA(5)-24-20 – Papur 25** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 26** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 27** – Memorandwm Esboniadol

**3.6 SL(5)596 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 117 – 126)

**CLA(5)-24-20 – Papur 28** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 29** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 30** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.7 SL(5)591 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

(Tudalennau 127 – 143)

**CLA(5)-24-20 – Papur 31** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 32** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 33** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 34** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 31 Gorffennaf 2020

**CLA(4)-24-20 – Papur 35** – Datganiad ysgrifenedig

3.8 **SL(5)595 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

(Tudalennau 144 - 170)

**CLA(5)-24-20 – Papur 36** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 37** – Rheoliadau

**CLA(5)-24-20 – Papur 38** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-24-20 – Papur 39** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 7 Awst 2020

**CLA(5)-24-20 – Papur 40** – Datganiad ysgrifenedig

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

10:15-10:20

4.1 **SL(5)573 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020**

(Tudalennau 171 - 178)

**CLA(5)-24-20 – Papur 41** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 42** – Ymateb Llywodraeth Cymru

4.2 **SL(5)579 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 179 - 191)

**CLA(5)-24-20 – Papur 43** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 44** – Ymateb Llywodraeth Cymru

4.3 **SL(5)584 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

(Tudalennau 192 - 194)

**CLA(5)-24-20 – Papur 45** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 46** – Ymateb Llywodraeth Cymru

4.4 **SL(5)585 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 195 – 199)

**CLA(5)-24-20 – Papur 47** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 48** – Ymateb Llywodraeth Cymru

4.5 **SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

(Tudalennau 200 – 202)

**CLA(5)-24-20 – Papur 49** – Adroddiad

**CLA(5)-24-20 – Papur 50** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Adroddiad Llywodraeth Cymru: Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws

10:20-10:25 (Tudalennau 203 – 224)

**CLA(5)-24-20 – Papur 51** – Adroddiad Llywodraeth Cymru

**CLA(5)-24-20 – Papur 52** – Datganiad ysgrifenedig, 19 Awst 2020

## 6 Papurau i'w nodi

10:25-10:30

6.1 **Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun y Taliad Sylfaenol a fframwaith deddfwriaethol cymorth gwledig o 2021 ymlaen**

(Tudalennau 225 – 226)

**CLA(5)-24-20 – Papur 53** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 6 Awst 2020

6.2 **Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheoliadau Cerbydau Cludiant Ffyrdd Glanach (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalen 227)

**CLA(5)-24-20 – Papur 54** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 11 Awst 2020

6.3 **Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Farchnad Fewnol y DU**

(Tudalennau 228 – 238)

**CLA(5)-24-20 – Papur 55** – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 14 Awst 2020

**6.4 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach**

(Tudalennau 239 - 240)

**CLA(5)-24-20 – Papur 56** – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 14 Awst 2020

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10:30

## 8 Ystyried materion sy'n codi

10:30-10:45

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 14 Medi 2020

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 24 Awst 2020

Eitem 2

## SL(5)593 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 fel y Rheoliadau sydd, yng Nghymru, yn llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae Rheoliadau 2020 yn cyflwyno'r gofyniad i fyrddau iechyd gynnal asesiadau o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, maent hefyd yn newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan yr unigolion hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Mae asesiad o anghenion fferyllol yn ddatganiad o'r asesiad y mae'n rhaid i fwrdd iechyd ei wneud, bob 5 mlynedd o leiaf, o'r anghenion yn ei ardal am wasanaethau fferyllol a ddarperir fel rhan o'r GIG yng Nghymru. Yr effaith y bwriedir i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol ei chael yw gwella'r drefn o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhoi ystyriaeth gadarn i anghenion fferyllol eu poblogaethau, a sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd yn fwy agos â'r anghenion hynny.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:** 06 Awst 2020
**Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)**

# SL(5)597 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau pellach i'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn pennu bod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bobl at ddiben rhoi gwybod i’r rhai a all fod wedi dod i gysylltiad â’r coronafeirws yn “mesur rhesymol” y gall bod yn ofynnol ei gymryd gan weithdai, mangreoedd busnes, mannau addoli ac ati i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws;
- yn egluro mai dirwy (ac nid cyfnod yn y carchar) yw uchafswm y gosb am dorri’r gofyniad i gau mangre ar ôl i hysbysiad cau mangre gael ei ddyroddi.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
**Fe’u gwnaed ar:** 14 Awst 2020
**Fe’u gosodwyd ar:** 14 Awst 2020
**Yn dod i rym ar:** 17 Awst 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing



*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2020 Rhif 867 (Cy. 189)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn pennu bod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bobl at ddiben rhoi gwybod i'r rhai a all fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn "mesur rhesymol" y gall bod yn ofynnol ei gymryd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn egluro mai dirwy (ac nid cyfnod yn y carchar) yw uchafswm y gosb am dorri'r gofyniad i gau mangre ar ôl i hysbysiad cau mangre gael ei ddyroddi o dan baragraff 3(1) o Atodlen 5 i'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2020 Rhif 867 (Cy. 189)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 2.50 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 5.50 p.m ar 14 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *17 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a deuant i rym ar 17 Awst 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12—

(a) yn y geiriau ar ddechrau paragraff (2), ar ôl "fangre," mewnosoder "neu o ledaenu'r coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod yn y fangre";

(b) ar ddiwedd paragraff (2A), mewnosoder—

"(c) casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre neu, mewn perthynas â phersonau o'r un aelwyd, oddi wrth un ohonynt, a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i Weinidogion Cymru neu i swyddog iechyd cyhoeddus ar gais y naill neu'r llall.";

(c) ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

"(5) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "gwybodaeth gyswllt", mewn perthynas â pherson yn y fangre, yw enw'r person a gwybodaeth sy'n ddigonol i allu dod o hyd i'r person, i roi gwybod i'r person y gall fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre (yn cynnwys rhif ffôn a'r dyddiad a'r amser yr oedd y person yn y fangre);

---

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/843 (Cy. 186)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) mae i "swyddog iechyd cyhoeddus" yr un ystyr ag a roddir i "public health officer" ym mharagraff 3(2)(c) o Atodlen 21 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).".

(3) Yn rheoliad 20—

(a) hepgorer paragraff (3A);

(b) ym mharagraff (4), yn lle "unrhyw drosedd arall" rhodder "trosedd".

(4) Yn Atodlen 5, ym mharagraff 5(6), yn lle "ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre" rhodder "dalu digollediad".

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 2.50 p.m. ar 14 Awst 2020

(**1**) 2020 p. 7.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

14 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, maent o'r farn y dylid llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12 o'r prif Reoliadau i bennu bod casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth unrhyw berson mewn mangre y mae'r rheoliad yn ymwneud â hi yn "fesur rhesymol" y gellir ei gwneud yn ofynnol ei gymryd. Mae gwybodaeth gyswllt yn golygu digon o wybodaeth i allu cysylltu â'r person os gallai fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre. Caiff canllawiau eu cyhoeddi o dan reoliad 13 i ategu hyn ac i nodi'r mangreoedd risg uchel hynny lle mae'r Llywodraeth yn ystyried bod rhaid cael gwybodaeth gyswllt a'i chadw.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ehangu'r diben ar gyfer cymryd camau rhesymol, i gynnwys lleihau lledaeniad y coronafeirws gan y rhai sydd wedi bod mewn mangre. Law yn llaw â chanllawiau, bydd y mesur rhesymol a'r diben newydd yn creu sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data gan y rhai sy'n gyfrifol am fangreoedd.

Mae adran 45F(5)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn ei gwneud yn glir na chaiff rheoliadau diogelu iechyd – megis y prif Reoliadau – greu trosedd y gellir ei chosbi drwy ddedfryd o garchar. Roedd y diwygiadau i'r prif Reoliadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020[1], yn anfwriadol, yn cynnwys dedfrydau o garchar, yn ogystal â dirwyon, o ganlyniad i fynd yn groes i'r gofynion a osodwyd gan baragraff 3(1) o Atodlen 5 newydd i'r prif Reoliadau. Mae'r rheoliadau sy'n cael eu gwneud heddiw yn unioni hyn.

Daw'r Rheoliadau i rym ddechrau dydd Llun, 17 Awst 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio ac addasu'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

---

[1] Gwnaed gan Weinidogion Cymru ar 7 Awst 2020.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â’r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau Hysbyswyd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Swyddfa Farnwrol am y gwall, y mae’r Rheoliadau hyn yn ei gywiro, ar 10 Awst 2020 (y diwrnod y daeth y darpariaethau newydd i rym).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth ynglŷn â’r cynigion drafft ar gyfer casglu data yn unol ag Erthygl 36 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a chafodd eu sylwadau eu hystyried wrth ddrafftio rheoliad 2 o'r Rheoliadau.  Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â'r GDPR.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i’r wasg ar 31 Gorffennaf, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy’r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai’r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 7 Awst.

**6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o’r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyhoeddi a bydd ar gael yn: https://llyw.cymru/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Awst 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Awst 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 26 Awst.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad interim o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **14 Awst 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau a symudiadau gan bobl, ac ar weithredoedd busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 o ddiwrnodau. Cynhaliwyd yr adolygiad llawn diwethaf, sef y chweched adolygiad, ar 30 Gorffennaf. Nodwyd ynddo ddull gweithredu graddol ar gyfer y cylch tair wythnos nesaf.

Mae'r cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos, ar y cyfan, bod y lefelau o drosglwyddo'r coronafeirws yn isel yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yng ngweddill y DU, ac yn arbennig mewn rhannau o Loegr a thu hwnt yn llai calonogol.

Wrth inni symud i gam gwyrdd ein system golau traffig, gyda mwyfwy o safleoedd, gweithleoedd a lleoliadau yn awr ar agor, rhaid inni sicrhau bod pobl a busnesau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn dilyn y canllawiau ar weithredu'n ddiogel yn y ffyrdd yr ydym wedi cytuno arnynt. Un elfen bwysig o'r canllawiau ar gyfer busnesau lletygarwch a safleoedd eraill sy'n uwch o ran risg yw casglu manylion cyswllt cwsmeriaid ac ymwelwyr. Mae hyn yn bwysig i helpu swyddogion olrhain cysylltiadau i gael gafael ar bobl sydd wedi bod yn yr un lleoliad â rhywun sydd wedi dal COVID-19 a lleihau'r risg o ledaenu'r haint.

Mae llawer o fusnesau a safleoedd yn casglu'r wybodaeth hon ac rydym yn diolch iddynt am eu hymdrechion i ddiogelu Cymru, Yn anffodus, nid yw rhai busnesau a safleoedd eraill yn ymddwyn yr un mor gyfrifol. Nid yw unigolion bob amser yn deall

pwysigrwydd darparu'r wybodaeth honno chwaith. Felly, yr wythnos hon byddwn yn gliriach yn y rheoliadau bod casglu manylion cyswllt at ddibenion olrhain cysylltiadau yn fesur rhesymol rydym yn disgwyl i'r safleoedd hyn sy'n uwch o ran risg eu cymryd. Bydd swyddogion gorfodi mewn awdurdodau lleol yn delio ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gan ddefnyddio'r mesurau gorfodi cryfach a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf.

Rwyf hefyd wedi ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf o ran gorchuddion wyneb. Pan fo'n angenrheidiol, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn mwy o leoliadau fel rhan o ymateb sydd wedi ei gynllunio i achosion lluosog neu frigiad o achosion. Bydd y newid hwn yn rhan o becyn o fesurau y byddwn o bosib yn ei gyflwyno mewn ardal. Bydd hyn yn cael ei godi pan fydd y sefyllfa yn gwella a phan nad yw bellach yn gymesur ar sail iechyd y cyhoedd. Nid yw'r sefyllfa o ran archfarchnadoedd wedi newid ac rydym yn argymell yn fawr y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn lleoliadau sy'n llawn pobl pan fo cadw pellter cymdeithasol yn anodd.

Yr wythnos hon rydym wedi ystyried a allwn ni wneud newidiadau i'r rheolau ynghylch pobl yn cyfarfod o dan do. O ystyried y cynnydd mewn achosion ledled y DU sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch hwn, a'r don newydd o'r feirws yn rhyngwladol nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn weithredu arno yr wythnos hon.

Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi'r pwysau a'r anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu ac o 22 Awst, ar yr amod bod y sefyllfa yn parhau'n ffafriol, byddwn yn gwneud rhai newidiadau gofalus. Rydym yn bwriadu caniatáu i aelwydydd estynedig gynnwys hyd at bedair aelwyd fel rhan o un aelwyd estynedig benodedig. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r dewisiadau anodd y bu'n rhaid i rai teuluoedd eu gwneud, megis dim ond cael un set o neiniau a theidiau mewn aelwyd estynedig. Rydym hefyd yn bwriadu caniatáu prydau bwyd o dan do ar gyfer hyd at 30 o bobl ar ôl priodas, partneriaeth sifil neu angladd. Byddai'r llacio hwn yn galluogi hyd at 30 o bobl i ddod ynghyd i nodi'r digwyddiadau pwysig hyn mewn bywyd.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae pob un ohonom yn rhannu dyletswydd barhaus i ddiogelu Cymru.

# SL(5)589 - Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorchmynion traffig penodol a wnaed a hysbysiadau a roddwyd yng Nghymru, o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi eu bod yn cael eu cyflwyno fel mesur brys mewn ymateb i effeithiau'r coronafeirws.

Maent yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig a rhoi hysbysiadau drwy ddarparu dull amgen o roi cyhoeddusrwydd i orchmynion o dan amgylchiadau pan na fo'n rhesymol ymarferol i ddilyn y gofynion cyhoeddusrwydd presennol o ganlyniad i'r coronafeirws. Maent hefyd yn symleiddio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig dros dro a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio-—

– Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992.

– Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

– Rheoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:-

**Rheol Sefydlog 21.2 (v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol; a**

**Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992 ("Rheoliadau 1992") sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig dros dro a rhoi hysbysiadau. Mae'n mewnosod Rhan 7 newydd yn Rheoliadau 1992 (mewnosod rheoliadau 22 i 27 newydd). Mae'r rheoliad 23 newydd yn ymwneud â'r gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer gorchmynion a hysbysiadau rheoleiddio traffig. Mae'n galluogi defnyddio trefniadau amgen er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad sy'n ymwneud â gorchymyn traffig, pan na fo'n rhesymol ymarferol am resymau sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r coronafeirws, gan gynnwys cyfyngiadau symud.

Mae rheoliadau 23 (3) (b) a 26 (1) (c) newydd yn cyfeirio at ofynion sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 13(4) o Reoliadau 1992 (Gweithdrefn ar gyfer cyhoeddi hysbysiad dros dro gan gonsensiynydd) ac yn honni eu bod yn cymhwyso'r trefniadau amgen i hysbysiadau dros dro a gyhoeddir gan gonsesiynwyr.

Fodd bynnag, nid yw rheoliad 2 o'r rheoliadau hyn yn cymwyso Rhan 7 newydd i reoliad 13 o Reoliadau 1992.

Nid yw'n ymddangos mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cymhwyso Rhan 7 newydd i hysbysiadau a gyhoeddir o dan reoliad 13 o reoliadau 1992, gan fod rheoliad 23 newydd yn cyfeirio at "awdurdod traffig" yn unig yn hytrach nag "awdurdod traffig neu gonsensiynydd".

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 27 Gorffennaf 2020, a oedd yn nodi:

> Gan fod adeiladau cyhoeddus wedi'u cau, a rhai papurau newydd wedi symud i gyhoeddi ar-lein yn unig, a fu'n angenrheidiol i arafu lledaeniad COVID-19, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i fodloni'r gofynion deddfwriaethol i ddod â gorchymyn rheoleiddio traffig ffyrdd i rym. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig a rhoi hysbysiadau drwy ddarparu dulliau amgen o roi cyhoeddusrwydd i orchmynion mewn amgylchiadau lle nad yw'n rhesymol ymarferol dilyn y gofynion cyhoeddusrwydd cyfredol o ganlyniad i COVID-19.
>
> Bydd peidio â dod â'r rheoliadau i rym ar unwaith yn achosi ôl-groniad cynyddol o orchmynion traffig yn aros i gael eu gwneud, a fyddai'n effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd ar draws y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru. Byddai hefyd yn oedi'r defnydd o weithdrefnau brys newydd ar gyfer gorchmynion traffig dros dro sy'n angenrheidiol at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Ystyrir nad yw'n angenrheidiol ac yn gyfiawn cadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn.

O ystyried bod rhai cyfyngiadau Covid-19 wedi cael eu llacio, ynghyd â'r ffaith bod llawer o adeiladau cyhoeddus wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2020, nid yw'n glir pam y bu cymaint o frys i'r Rheoliadau ddod i rym fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Pwynt Craffu Technegol : Nodir bod rheoliadau newydd 23(3)(b) a 26(1)(c) yn cyfeirio at ofynion yn rheoliad 13(4) o Reoliadau 1992 (Gweithdrefn ar gyfer cyhoeddi hysbysiad dros dro gan gonsesiynydd) ac ymddengys eu bod yn cymhwyso'r trefniadau amgen i hysbysiadau dros dro a gyhoeddir gan gonsesiynwyr. Fodd bynnag, derbynnir nad yw rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn cymhwyso'r Rhan 7 newydd i reoliad 13 o Reoliadau 1992.

Cadarnheir nad bwriad Llywodraeth Cymru oedd cymhwyso'r Rhan 7 newydd i hysbysiadau a gyhoeddir o dan reoliad 13 o Reoliadau 1992.

Yn amgylchiadau penodol yr offeryn hwn, nid bwriad Llywodraeth Cymru yw gwneud rheoliadau diwygio. Yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad oes gan y cyfeiriadau at reoliad 13(4) o Reoliadau 1992 unrhyw effaith gyfreithiol nac ymarferol ac nad oes bellach unrhyw gonsesiynwyr yng Nghymru. Felly, credir na fyddai Llywodraeth Cymru yn achosi niwed drwy beidio â chywiro'r darpariaethau o dan sylw. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai rheoliadau dros dro yw Rheoliadau 2020 ac y gellir cymryd y cyfle i wneud y diwygiadau angenrheidiol os estynnir y rheoliadau dros dro cyfredol gan reoliadau pellach yn 2021.

Pwynt Craffu ar Rinweddau : Mae'r rhesymeg dros beidio â glynu wrth y confensiwn 21-diwrnod wedi ei nodi yn y llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf 2020 y cyfeirir ato yn adroddiad y Pwyllgor. Cydnabyddir bod rhai cyfyngiadau COVID-19 wedi eu llacio erbyn yr adeg y gwnaed y Rheoliadau a bod llawer o adeiladau cyhoeddus wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2020. Er hynny, roedd yr anawsterau ymarferol wrth gydymffurfio â Rheoliadau 1992 yn parhau i fod yn amlwg er bod rhai o'r cyfyngiadau wedi eu llacio. Roedd cymhlethdod y diwygiadau a'r angen am ymgynghoriad yn golygu nad oedd modd gwneud y Rheoliadau mor gyflym ag y byddai Llywodraeth Cymru wedi dymuno. Erbyn yr adeg yr oedd Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud y rheoliadau, roedd llwyth mawr a chynyddol o orchmynion traffig yn aros i gael eu gwneud gan awdurdodau traffig yng Nghymru. Penderfynwyd felly ei bod yn angenrheidiol peidio â glynu wrth y confensiwn 21-diwrnod yn yr achos hwn, a bod modd cyfiawnhau hynny.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**06 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 802 (Cy. 175)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorchmynion traffig penodol a wnaed a hysbysiadau a roddwyd yng Nghymru, o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Cânt eu cyflwyno fel mesur brys mewn ymateb i effeithiau'r coronafeirws.

Maent yn diwygio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig a rhoi hysbysiadau drwy ddarparu dull amgen o roi cyhoeddusrwydd i orchmynion o dan amgylchiadau pan na fo'n rhesymol ymarferol i ddilyn y gofynion cyhoeddusrwydd presennol o ganlyniad i'r coronafeirws. Maent hefyd yn symleiddio'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion traffig dros dro a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992 ("Rheoliadau 1992");

(b) Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 ("Rheoliadau 1996"); ac

(c) Rheoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990 ("Rheoliadau 1990").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 1992, sy'n nodi gweithdrefnau mewn cysylltiad â'r broses o wneud gorchmynion traffig dros dro a rhoi hysbysiadau drwy fewnosod Rhan 7 newydd yn y Rheoliadau hynny (mewnosod rheoliadau 22 i 27 newydd). Mae'r rheoliad 23 newydd yn ymwneud â'r gofynion cyhoeddusrwydd ar gyfer gorchmynion a hysbysiadau rheoleiddio traffig. Mae'r diwygiadau yn rhoi'r dewis i awdurdod traffig i ddefnyddio trefniadau amgen ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad sy'n

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ymwneud â gorchymyn traffig, pan na fo'n rhesymol ymarferol i gyhoeddi mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal, neu i arddangos hysbysiadau ar safle, am resymau sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r coronafeirws, gan gynnwys cyfyngiadau symud.

Mae'r rheoliad 24 newydd yn ymwneud â gorchmynion traffig dros dro a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Mae gweithdrefn symlach yn gymwys i'r broses o wneud gorchmynion sy'n dod o fewn y diben hwn.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 1996, sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchmynion traffig parhaol ac arbrofol, drwy fewnosod Rhan 7 newydd yn y Rheoliadau hynny (gan fewnosod rheoliadau 30 i 33 newydd). Mae'r diwygiadau yn rhoi'r dewis i awdurdod sy'n gwneud gorchymyn i ddefnyddio trefniadau amgen ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad sy'n ymwneud â gorchymyn traffig, pan na fo'n rhesymol ymarferol i gyhoeddi mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal am resymau sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r coronafeirws, gan gynnwys cyfyngiadau symud. Maent hefyd yn caniatáu i awdurdod traffig ddefnyddio dull amgen o wneud dogfennau ar gael i'r cyhoedd, pan na fo'n rhesymol ymarferol i wneud dogfennau ar gael i'w harchwilio mewn cyfeiriad penodol, am resymau sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r coronafeirws.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 1990, sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer gorchmynion traffig penodol a wneir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â chefnffyrdd a ffyrdd gwledig, a gorchmynion o dan bwerau wrth gefn Gweinidogion Cymru yn Atodlen 9 i Ddeddf 1984. Mae'r diwygiadau hyn yn cael yr un effaith â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau 1996.

Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 31 Gorffennaf 2021. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer darpariaethau trosiannol er mwyn cynnal parhad ar ôl i'r diwygiadau ddod i ben.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan fod angen rhoi'r Rheoliadau mewn grym yn gyflym er mwyn delio ag argyfwng sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r coronafeirws.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 802 (Cy. 175)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Gorffennaf 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *27 Gorffennaf 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 16(2) a (2A), 35C(3), (4) a (4A), 46A(3), (4) a (4A), a 124(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a Rhan III o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw sefydliadau cynrychioladol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(10) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefn Gorchmynion Traffig (Diwygio) (Cymru)

(**1**) 1984 p. 27. Amnewidiwyd adran 16(2) a (2A) gan adran 1(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26); mewnosodwyd adrannau 35C a 46A gan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40); mewnosodwyd adran 134(10) gan adran 69(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) a pharagraffau 43(1) a (3) o Ran 3 o Atodlen 6 iddi. Yn Atodlen 9, diwygiwyd paragraff 21 gan baragraff 80 o Atodlen 8 ac Atodlen 9 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22); a diwygiwyd paragraff 25 gan baragraff 80 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru. Mae'r cyfeiriadau at "national authority" yn adran 16(2) a (2A), ac yn Rhan III o Atodlen 9 wedi eu mewnosod gan Ddeddf yr Alban 2016 (p. 11) ac mae ystyr "national authority" yn adran 142(1) wedi ei ddiwygio gan adran 26(8) o Ran 2 o Ddeddf Cymru 2017 fel mai ystyr "national authority" o ran Cymru yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Coronafeirws) 2020 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru yn unig.

**Diwygiadau i Reoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gweithdrefn Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1992(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn dros dro), ym mharagraff (1) ar ôl "this Part" mewnosoder "and Part 7".

(3) Yn rheoliad 4 (llwybrau troed etc.), ym mharagraff (3) ar ôl "shall" mewnosoder ", subject to Part 7,".

(4) Yn rheoliad 8 (gorchmynion dirymu), ym mharagraff (3) ar ôl "shall" mewnosoder ", subject to Part 7,".

(5) Yn rheoliad 9 (parhau â'r gorchymyn yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol), ym mharagraff (2) ar ôl "shall" mewnosoder ", subject to Part 7,".

(6) Yn rheoliad 10 (gweithdrefn ar gyfer cyhoeddi hysbysiad dros dro gan awdurdod traffig), ym mharagraff (4) ar ôl "shall" mewnosoder ", subject to Part 7,".

(7) Yn rheoliad 11 (llwybrau troed etc.), ar ôl "shall" mewnosoder ", subject to Part 7,".

(8) Ar ôl Rhan VI mewnosoder—

## "PART 7

## TEMPORARY PROVISIONS APPLICABLE DURING THE CORONAVIRUS PANDEMIC (WALES)

**Interpretation**

**22.** In this Part "coronavirus" means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2).

**Alternative publication and inspection requirements**

**23.**—(1) Subject to regulation 24, paragraph (2) applies where—

(**1**) O.S. 1992/1215, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1177. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) a traffic authority is required to publish a notice in one or more newspapers in accordance with regulation 3(2) or (5), 8(3) or 9(2); and

(b) the traffic authority considers that it would not be reasonably practicable to do so for reasons connected to the effects of coronavirus, including restrictions on movement.

(2) Where this paragraph applies, a notice under those regulations must be published using such alternative arrangements as the traffic authority considers appropriate for the purpose of informing persons likely to be affected by its provisions.

(3) Paragraph (4) applies where, in relation to a notice—

(a) a traffic authority is required by regulation 3(7) or 4(3) to comply with the requirements of Part I of the Schedule (display of notice of order); or

(b) a traffic authority is required by regulation 10(4), 11 or 13(4) to comply with the requirements of Part II of the Schedule (display of notice issued under section 14(2) of the 1984 Act),

and the traffic authority considers that it is not reasonably practicable to do so for reasons connected to the effects of coronavirus, including restrictions on movement.

(4) Where this paragraph applies, the traffic authority must use such alternative publicity arrangements as it considers appropriate for the purpose of informing persons likely to be affected by the provisions of the notice.

(5) Without prejudice to the generality of paragraphs (2) and (4), such alternative publicity arrangements may include—

(a) online publication, including websites, online newspapers, email communication or social media;

(b) leaflet distribution;

(c) letter delivery, by post or otherwise.

**Procedure for temporary orders made for purposes connected to coronavirus**

**24.**—(1) Paragraph (2) applies where a traffic authority is satisfied in accordance with section 14(1) of the 1984 Act that an order under that section should be made for purposes connected to coronavirus.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Where this paragraph applies, regulation 3 has effect in relation to the order as if it read—

**"Procedure for making a temporary order**

**3.**—(1) Subject to the following provisions of this Part, this regulation makes provision for the procedure to be followed in connection with the making of an order under section 14 of the 1984 Act for purposes connected to coronavirus.

(2) Not less than 7 days before making an order, the traffic authority must publish notice of its intention to make the order using such arrangements as the traffic authority considers appropriate for the purpose of informing persons likely to be affected by its provisions.

(3) The notice mentioned in paragraph (2) must state—

(a) the reason or purpose mentioned in section 14(1) of the 1984 Act for making the order;

(b) the effect of the order and, where applicable, the alternative route or routes available for traffic;

(c) the date on which the order would come into force and its maximum duration; and

(d) that it is also necessary to make the order for purposes connected to coronavirus and what those additional purposes are.

(4) The traffic authority must, on or before the day on which the order is made, give notice of the order—

(a) to the chief officer of police of any police area in which any road to which the order relates is situated;

(b) to the chief officer of the fire authority for the area in which any road to which the order relates is situated; and

(c) where the order would be likely to have direct effect on traffic, or any class of traffic, on any road for the maintenance of which another traffic authority is responsible, to that other traffic authority.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) Subject to paragraph (8), within 14 days after making the order the traffic authority must publish a notice of the making of the order in one or more newspapers, whether in print or online, circulating in the area in which any road to which the order relates is situated.

(6) The notice mentioned in paragraph (5) must state—

(a) the reason or purpose mentioned in section 14(1) of the 1984 Act for the making of the order;

(b) the effect of the order and, where applicable the alternative route or routes available for traffic; and

(c) the date on which the order will come into force and its maximum duration.

(7) If and to the extent that—

(a) it appears to the traffic authority that it would be desirable in the interests of giving adequate publicity to the order; and

(b) it is reasonably practicable to do so,

# SL(5)594 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), sy'n gosod gofynion ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl iddynt fod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod a bennir yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sef 14 diwrnod ar hyn o bryd, yn dechrau gyda'r diwrnod yr oedd y person ddiwethaf mewn gwlad neu diriogaeth heb ei hesemptio. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae rhai categorïau o bobl wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bobl sy'n dod i mewn i Gymru ynysu ar ôl bod yn un neu fwy o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Brunei a Malaysia at y rhestr 3 o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.

Mae Rheoliad 4 yn tynnu Andorra, y Bahamas, a Gwlad Belg oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u hesemptio.

Mae Rheoliadau 3 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â newid statws y gwledydd hyn. Mae'r rheoliadau hyn yn mynd i'r afael ag amheuaeth bosibl o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithrediad y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym y diwrnod cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae hyn hefyd yn golygu bod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod basio rhwng y dyddiad gosod offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Rydym yn nodi'r esboniad a gafwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 6 Awst 2020, sef:

*"Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ychwanegu'r gwledydd a/neu diriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd sydd wedi'u heithrio:*

- *Gwlad Belg;*
- *y Bahamas;*
- *Andorra.*

*Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu'r gwledydd a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig:*

- *Brunei;*
- *Malaysia.*

*Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.*

*Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro, o ystyried bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronfeirws a'r angen am ymateb ar frys o ran iechyd y cyhoedd, nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn esbonio na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o ran hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd; mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn gyfiawn at y diben o atal lledaenu afiechydon heintus a/neu caniateir ymyrraeth ar y sail eu bod yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 840 (Cy. 185)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Brunei a Malaysia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 4 yn hepgor Andorra, y Bahamas, a Gwlad Belg o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r rheoliadau hyn yn ymdrin â meysydd a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r gofynion i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 840 (Cy. 185)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

*Gwnaed* *am 8.38 p.m. ar 6 Awst 2020*

*Yn dod i rym* *am 11.59 p.m. ar 6 Awst 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *7 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 11.59 p.m. ar 6 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177) ac O.S. 2020/817 (Cy. 179).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Brunei"

"Malaysia".

**Darpariaeth trosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 7 Awst 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi cyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 2, neu ar ôl bod mewn gwlad a restrir yn y rheoliad hwnnw, a

(b) fo diwrnod olaf ynysiad P ar 7 Awst 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 2 at Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru ar 7 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol mae'r cwestiwn o ran pa un a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 2, i'w bennu drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad yw'n esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Andorra"

"Y Bahamas"

"Gwlad Belg".

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru ar 7 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 7 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 8.38 p.m. ar 6 Awst 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

7 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – a hunanynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad i’r gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd, fel sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd fod y Rheoliadau wedi dod i rym am 11.59 p.m. ar 6 Awst 2020 (sef cyn iddynt cael eu gosod).

Mae Rheoliadau diwygio tebyg hefyd yn cael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull ar gyfer y DU gyfan o fynd ati i osgoi lledaenu haint neu halogiad COVID-19 drwy unrhyw heintiau a gludir i’r wlad gan deithwyr.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y’i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu’r cyhoedd rhag bygythiadau

sy’n deillio o glefydau heintus neu halogiad gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae’n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i’w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle na ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y’i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy’n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o’r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i’r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu’r personau neu’r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy’n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy’n achosi’r clefyd o’r enw COVID-19 neu “coronafeirws”.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar 10 Gorffennaf 2020 diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru o’r mannau hynny. Gwnaed newidiadau pellach i'r rhestr honno ar 11 Gorffennaf, 26 Gorffennaf a 31 Gorffennaf 2020.

Mae'r cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad coronafeirws yng Ngwlad Belg, y Bahamas ac Andorra wedi codi. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r tair gwlad hyn. Bydd y gofynion yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n dod i'r ardal deithio ar y comin o wlad Belg, y Bahamas neu Andorra ar neu ar ôl 7 Awst 2020.

At hynny, mae'r y Gydganolfan Bioddiogelwch wedi nodi bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder ac ymlediad coronafeirws yn Brunei a Malaysia wedi lleihau. Ar y sail hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid dileu'r gofynion ynysu mewn perthynas â phersonau sy'n cyrraedd o'r gwledydd hyn.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn fod y diwygiadau hyn, yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2574/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Awst 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol . Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ychwanegu'r gwledydd a/neu diriogaethau a ganlyn at y rhestr o wledydd sydd wedi'u heithrio:

- Gwlad Belg
- y Bahamas
- Andorra

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu'r gwledydd a ganlyn at y rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig:

- Brunei
- Malaysia

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi’r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) (2020)** |
| **DYDDIAD** | **6 Awst 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ddydd Llun 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio:

- ar 11 Gorffennaf, tynnwyd Serbia oddi ar y rhestr;
- ar 26 Gorffennaf, tynnwyd Sbaen a'i hynysoedd oddi ar y rhestr;
- ar 30 Gorffennaf, ychwanegwyd Latfia, Estonia, Slofacia, Slofenia a Saint Vincent a'r Grenadines at y rhestr.

Ddoe, mynychais gyfarfod o Weinidogion o bob un o bedair gwlad y DU i ystyried y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil y nifer cynyddol o achosion o COVID-19 yn Andorra, y Bahamas a Gwlad Belg.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r risg i iechyd y cyhoedd erbyn hyn wrth i deithwyr ddod i'r DU o'r lleoedd hyn, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach heddiw, yn tynnu Andorra, y Bahamas a Gwlad Belg oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'n mesurau iechyd ar y ffin.

Ar y cyd â Gweinidogion eraill y DU, rwyf hefyd wedi ystyried y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil lleihad yn nifer yr achosion o COVID-19 yn Brunei a Malaysia. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach heddiw, hefyd yn ychwanegu Brunei a Malaysia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'n mesurau iechyd ar y ffin.

Bydd diwygiadau brys yn cael eu cyflwyno i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym am hanner nos heno. Bydd y diwygiadau hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Andorra, y Bahamas a Gwlad Belg, neu sydd wedi bod yn unrhyw un o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny yn ystod y 14 diwrnod diwethaf, ynysu am 14 diwrnod, o yfory ymlaen. Ar y llaw arall, ni fydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Brunei neu Malaysia ynysu am 14 diwrnod, o yfory ymlaen.

Pan gaiff y Rheoliadau eu gosod bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ysgrifennu at y Llywydd, yn unol â gofynion Deddf Offerynnau Statudol 1946 a'n trefn arferol.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

# SL(5)598 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) (2020)

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod o 14 diwrnod. Mae'r gofynion yn ddarostyngedig i eithriadau, ac nid oes rhaid i bersonau ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel a ganlyn:

- Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Aruba, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Malta Monaco ac Ynysoedd Turks a Caicos o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.
- Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.
- Mae rheoliad 4 yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau eraill at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

*Torri'r rheol 21 diwrnod*

1. Mae'r rheol 21 diwrnod o dan y Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (a ymgorfforwyd yn Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn darparu y dylid gosod offerynnau 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Mae hyn yn galluogi Aelodau i geisio diddymu offerynnau o'r fath cyn iddynt gael effaith, am y gall achosi dryswch os diddymir deddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn ar 14 Awst 2020, a daethant i rym y diwrnod canlynol, sef 15 Awst 2020. Rydym yn nodi'r esboniad a ddarparwyd gan Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd ar 14 Ebrill 2020:

> *"Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r lleoliad hwn/y lleoliadau hynny. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon ychwanegol yn Atodlen 4.*
>
> *Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

*Dim ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol*

2. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronafeirws a'r angen am yr ymateb brys i iechyd y cyhoedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

*Hawliau Dynol*

3. Nid yw'r diwygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn yn newid ymgysylltiad hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellid eu cyfiawnhau at y diben o atal clefydau heintus rhag lledaenu a/neu bod yr ymyrraeth wedi'i chaniatáu ar y sail ei bod yn ceisio nod cyfreithlon, sef amddiffyn iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 868 (Cy. 190)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Aruba, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Malta Monaco ac Ynysoedd Turks a Caicos o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 yn ychwanegu digwyddiadau a gornestau eraill at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 868 (Cy. 190)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 3.05 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbon Senedd Cymru* | *am 5.50 p.m. ar 14 Awst 2020* |
| *Yn dod I rym* | *am 4.00 a.m ar 15 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020([2]).

([1]) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

([2]) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179) ac O.S. 2020/840 (Cy. 185).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Hepgor gwledydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.**—(1) Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Aruba"

"Ffrainc"

"Yr Iseldiroedd"

"Malta"

"Monaco".

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

"Ynysoedd Turks a Caicos".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 15 Awst 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn y wlad honno, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig**

**4.**—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—

"(m) Twrnamaint Golff Agored Iwerddon Dubai Duty Free (Cylchdaith Golff Ewrop);

(n) Twrnamaint Golff Agored Gogledd Iwerddon (Cylchdaith Her Ewrop a gefnogir gan yr R&A)."

(3) Yn lle paragraff 8 rhodder—

"**8.** Rygbi'r Gynghrair—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) Gornestau Super League Betfred;

(b) Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair."

(4) Ar y diwedd mewnosoder—

"**14.** Bocsio—

(a) Matchroom Fight Camp – Gornest Ryngwladol Pwysau Trwm;

(b) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Trwm y Byd Cyngor Bocsio'r Byd;

(b) Matchroom Fight Camp - Teitl Pwysau Ysgafn y Byd y Menywod Sefydliad Bocsio'r Byd."

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.05 p.m. ar 14 Awst 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

14 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo’n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, a hefyd er mwyn ychwanegu nifer o ddigwyddiadau chwaraeon at y rhestr yn Atodlen 4 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau’n dod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl cael eu gosod gerbron y Senedd.

Mae Rheoliadau diwygio tebyg hefyd yn cael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull ar gyfer y DU gyfan o fynd ati i osgoi lledaenu haint neu halogiad COVID-19 drwy unrhyw heintiau a gludir i’r wlad gan deithwyr.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus neu halogiad gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i'w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle na ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y'i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o'r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i'r Gweinidog priodol (a ddiffinnir yn adran 45T fel Ysgrifennydd Gwladol Lloegr, neu Weinidogion Cymru yng Nghymru) wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu'r personau neu'r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy'n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd o'r enw COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar 10 Gorffennaf 2020 diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny. Gwnaed newidiadau pellach i'r rhestr honno ar 11 Gorffennaf, 26 Gorffennaf, 31 Gorffennaf a 7 Awst 2020.

Mae'r cyngor a gafwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws yn Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ailgyflwyno gofynion ynysu yn awr ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Bydd y gofynion yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n dod i'r Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd a'r tiriogaethau hyn am 4.00 am ar 15 Awst 2020 neu wedi hynny.

Gwneir mân newidiadau hefyd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt yn cael eu heithrio rhag y gofynion ynysu.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn fod y diwygiadau hyn, yn gymesur â’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2667/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Awst 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ddileu'r wlad / gwledydd a ganlyn o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio:

- Aruba
- Ffrainc
- Malta
- Monaco
- yr Iseldiroedd
- Turks a Caicos.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r lleoliad hwn/y lleoliadau hynny. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon ychwanegol yn Atodlen 4.

Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) (2020)** |
| **DYDDIAD** | **14 Awst 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ddydd Llun 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. O ran y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'r gofynion cwarantin:

- ar 11 Gorffennaf, tynnwyd Serbia o'r rhestr;
- ar 26 Gorffennaf, tynnwyd Sbaen a'i hynysoedd o'r rhestr;
- ar 30 Gorffennaf, ychwanegwyd Latfia, Estonia, Slofacia, Slofenia a Saint Vincent a'r Grenadines;
- Ar 8 Awst, tynnwyd Andorra, y Bahamas a Gwlad Belg o'r rhestr ac ychwanegwyd Brunei a Malaysia.

Ddoe, mynychais gyfarfod o Weinidogion o bob un o bedair gwlad y DU i ystyried y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil y nifer cynyddol o achosion o COVID-19 yn Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r risg i iechyd y cyhoedd erbyn hyn wrth i deithwyr ddod i'r DU o'r lleoedd hyn, bydd Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach heddiw, yn

tynnu Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio o'n mesurau iechyd ar y ffin.

Bydd diwygiadau brys yn cael eu cyflwyno i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym am 04:00 o’r gloch ddydd Sadwrn 15 Awst. Bydd y diwygiadau hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyrraedd Cymru o Aruba, Ffrainc, Malta, Monaco, yr Iseldiroedd a Turks a Caicos, neu sydd wedi bod yn unrhyw un o’r gwledydd neu’r tiriogaethau hynny yn ystod y 14 diwrnod diwethaf, ynysu am 14 diwrnod, o 04:00 o’r gloch yfory.

Pan gaiff y Rheoliadau eu gosod bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ysgrifennu at y Llywydd, yn unol â gofynion Deddf Offerynnau Statudol 1946 a'n trefn arferol.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

# SL(5)592 – Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth marchnata domestig benodol er mwyn diweddaru a diwygio'r gofynion o ran plâu ar ddeunydd atgenhedlol planhigion at ddibenion marchnata. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y deunydd hwn yn rhydd i bob pwrpas rhag plâu a reoleiddir heb gwarantin gan yr Undeb yn y man cynhyrchu, ac nad yw presenoldeb plâu o'r fath yn uwch na throthwyon penodol. Mae'r gofynion hyn yn ategu'r rhai sydd yn neddfwriaeth bresennol iechyd planhigion, wnaeth gyflwyno'r categori newydd hwn o blâu, ac yn ychwanegol atynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (UE) 2020/177, sy'n diwygio cyfarwyddebau marchnata penodol ar gyfer hadau a deunyddiau lluosogi eraill o ran plâu planhigion ar hadau a deunyddiau atgenhedlu planhigion eraill mewn perthynas â phlâu a reoleiddir heb gwarantin ("Cyfarwyddeb 2020"). At hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau er mwyn sicrhau bod Cyfarwyddebau'r Cyngor 2008/72/EC a 2008/90/EC yn cael eu rhoi ar waith yn gywir, ac yn cywiro gwallau fformatio yn y tablau yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 3 i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Mae'r ddau bwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.2(v): bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

1. Cywiro'r fformatio

   Mae'r rhaglith i'r Rheoliadau hyn, a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy, yn egluro bod y tablau yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 3 i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016") yn cael eu diwygio i gywiro materion ynghylch fformatio. Er y gellir cysylltu'r newidiadau yn y tabl yn gyffredinol â'r angen i gywiro'r fformatio a chynyddu eglurder, mae dwy set o newidiadau y gellir eu dehongli fel bod yn rhai mwy sylweddol. Nodir bod y goddefiannau grŵp cyfunol (colofn 4) ar gyfer "Grŵp VI" yn y tabl a gynhwysir yn Rhan 2 a "Grŵp V" yn y tabl a gynhwysir yn Rhan 3 wedi cael eu diwygio o "-" i ")", sy'n ymddangos fel ei fod yn newid y goddefiant o ddim i 6%. Mae'r un mater yn codi o ran y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn.

**Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**.

2. Defnyddio'r Saesneg yn y fersiwn Gymraeg

   Yn y testun Cymraeg, yn y tabl cyntaf a fewnosodwyd gan reoliad 5(4)(c), ar gyfer Grŵp VI, mae'r testun yn yr ail golofn, 'Nil', yn destun Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r tri phwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

3. Dewis o weithdrefn

Gwneir y Rheoliadau hyn wrth arfer pwerau o dan adrannau 16(1), (1A), (3), (4) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 ("Deddf 1964") ac adran 2(2) o Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972"). Mae Deddf 1964 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y weithdrefn negyddol, ac mae Deddf 1972 yn rhoi disgresiwn o ran a ddylai'r weithdrefn negyddol neu'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*"The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of these Regulations because they are giving effect to EU provisions. Further, these Regulations amend Regulations that were subject to the negative procedure."*

Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod dewis y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried y rhesymau hyn.

4. Amserlen ar gyfer trosi

Mae Erthygl 11 (Trosi) Cyfarwyddeb 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau drosi Cyfarwyddeb 2020 i'w cyfraith erbyn 31 Mai 2020. Er y bu oedi cyn trosi Cyfarwyddeb 2020, cydnabyddir nad yw'r Deyrnas Unedig bellach yn Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd a bod amgylchiadau eithriadol yn sgil pandemig y Coronafeirws.

5. Diwygiadau newidiadwy

Mae rheoliadau 5(2) a 6(3(3) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod diwygiadau sy'n ceisio diweddaru'r diffiniad o "Cyfarwyddeb 2014/98/EU". Esbonnir y rheswm dros y diwygiad hwn yn y troednodiadau priodol i'r rheoliadau hynny (troednodyn (2) ar dudalen 10 a throednodyn (1) ar dudalen 18) trwy gyfeirio at adran 26 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"). Mewnosodir y troednodiadau sy'n cynnwys cyfeiriad at adran 26 o Ddeddf 2019 ochr yn ochr â'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn.

Nodir bod y "Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth Cymru – Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019" yn datgan fel a ganlyn:

*"Gall fod angen hefyd i ddeddfwriaeth Cymru ddiwygio deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (megis un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, neu unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig a ddeddfwyd cyn 2020). Yn yr achos hwnnw:*

- *Rhan 2 o Ddeddf 2019 fydd yn gymwys i ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth ddiwygio, ond*
- *Deddf 1978 [Deddf Dehongli 1978] fydd yn gymwys i unrhyw ddeunydd a fewnosodir yn y ddeddfwriaeth arall."*

O ganlyniad, mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad at adran 26 o Ddeddf 2019 gyfeirio yn hytrach at adran 20A o Ddeddf Dehongli 1978, sy'n gymwys i is-ddeddfwriaeth yn rhinwedd adran 23 o Ddeddf Dehongli 1978.

6. Croesgyfeiriadau mewn testun Cymraeg

Yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau hyn, ymddengys nad yw'r croesgyfeiriadau yn rheoliadau 5(5)(b)(i) a (ii) – sy'n diwygio Rheoliadau 2016 – yn cyfeirio at y paragraffau cywir yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau 2016 hynny, fel y'u cyhoeddir ar wefan legislation.gov.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau hyn gynorthwyo'r DU i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Ymadael i drosi cyfraith yr UE yn ddeddfwriaeth ddomestig, tan ddiwedd y cyfnod gweithredu (31 Rhagfyr 2020). Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar ôl y cyfnod gweithredu.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Phwyntiau Technegol (1 a 2) yn ogystal â Phwyntiau Rhinweddau 5 a 6.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2020 Rhif 833 (Cy. 182)**

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2020/177 sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 68/193/EEC, 2002/55/EC, 2002/56/EC a 2002/57/EC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 93/49/EEC a 93/61/EEC a Chyfarwyddebau Gweithredu 2014/21/EU a 2014/98/EU o ran plâu planhigion ar hadau a deunyddiau lluosogi planhigion arall (OJ Rhif L 41, 13.2.2020, t. 1).

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio'r Rheoliadau a ganlyn ("y Rheoliadau Marchnata")—

— Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 (O.S. 1995/2652) ("Rheoliadau 1995"),

— Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999 (O.S. 1999/1801) ("Rheoliadau 1999"),

— Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (O.S. 2012/245) (Cy. 39) ("Rheoliadau 2012"),

— Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 (O.S. 2016/106) (Cy. 52) ("Rheoliadau 2016"), a

— Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 (O.S. 2017/691) (Cy. 163) ("Rheoliadau 2017").

Mae Rheoliadau 1995 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau (OJ Rhif L 205,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

1.8.2008, t. 28) ("Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC") a Chyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n dangos yr amodau sydd i'w bodloni gan ddeunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau, yn unol â Chyfarwyddeb 92/33/EEC (OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19).

Mae Rheoliadau 1999 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 98/56/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion addurniadol (OJ Rhif L 226, 13.8.1998, t. 16) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 93/49/EEC sy'n nodi'r atodlen sy'n dangos yr amodau sydd i'w bodloni gan ddeunyddiau lluosogi planhigion addurniadol a phlanhigion addurniadol yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 91/682/EEC (OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 9).

Mae Rheoliadau 2012 yn gweithredu gwahanol offerynnau'r UE, yn enwedig Cyfarwyddeb y Cyngor 66/401/EEC ar farchnata hadau planhigion porthiant (OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2298), Cyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC ar farchnata hadau ŷd (OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2309), Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau (OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 33) a Chyfarwyddeb y Cyngor 2002/57/EC ar farchnata hadau planhigion olew a ffeibr (OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 74).

Mae Rheoliadau 2016 yn gweithredu gwahanol offerynnau'r UE, yn enwedig Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd (OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60) a Chyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/21/EU sy'n pennu amodau gofynnol a graddau'r Undeb ar gyfer tatws hadyd cyn-sylfaenol (OJ Rhif L 38, 7.2.2014, t. 39).

Mae Rheoliadau 2017 yn gweithredu gwahanol offerynnau'r UE, yn enwedig Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau (OJ Rhif L 267, 8.10.2008, t. 8) ("Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC") a Chyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran gofynion penodol mewn perthynas â genws a rhywogaeth planhigion ffrwythau y cyfeirir atynt yn Atodiad I iddi, gofynion penodol sydd i'w bodloni gan gyflenwyr a rheolau manwl sy'n ymwneud ag arolygiadau swyddogol (OJ Rhif L 298, 16.10.2014, t. 22).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio darpariaethau yn y Rheoliadau Marchnata i'w gwneud yn ofynnol i hadau, planhigion a deunyddiau lluosogi planhigion ("deunyddiau planhigion") a fwriedir ar gyfer eu marchnata yng Nghymru fod yn rhydd i bob pwrpas rhag plâu a reoleiddir heb gwarantin yn y man cynhyrchu a sicrhau nad yw presenoldeb y plâu hynny

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ar ddeunyddiau planhigion yn uwch na throthwyon penodedig.

Mae rheoliad 2(4) hefyd yn diwygio Rheoliadau 1995 i sicrhau y caiff Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ei gweithredu'n briodol.

Mae rheoliad 5(4) hefyd yn diwygio Rheoliadau 2016 i gywiro gwallau fformadu yn y tablau yn Rhannau 2 a 3 o Atodlen 3 i Reoliadau 2016.

Mae rheoliad 6(4) hefyd yn diwygio Rheoliadau 2017 i sicrhau y caiff Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ei gweithredu'n briodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 833 (Cy. 182)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *6 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *29 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**2**).

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gydag effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2010/2690, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1), (1A), (3), (4) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny sy'n ymddangos iddynt hwy yn berthnasol yn unol ag adran 16(1) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2020, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 29 Awst 2020.

**Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), ar ôl y diffiniad o "Directive 2008/72/EC" mewnosoder—

> ""EU Plant Health Regulation" means Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council on protective measures against pests of plants(**3**);".

(3) Yn rheoliad 5—

(a) mae'r testun presennol yn dod yn baragraff (1);

(b) ym mharagraff (1), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

> "(a) at the place of production it was found, at least on visual inspection, to be practically free from all pests listed in

(**1**) 1964 p. 14. Mewnosodwyd adran 16(1A) gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 5 o Atodlen 4 iddi. *Gweler* adran 38(1) am ddiffiniad o "the Minister". Yn unol ag erthygl 2(1) o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 1995/2652, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2190 (Cy. 174), 2014/519 (Cy. 61), 2018/1216 (Cy. 249), 2020/206 (Cy. 48); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**3**) OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

relation to that plant material in the Annex to Directive 93/61/EEC;

(ab) the quantity of any RNQP present on the plant material does not, at least on visual inspection, exceed the threshold set out in respect of that RNQP in the Annex to Directive 93/61/EEC;

(ac) it is found, at least on visual inspection, to be practically free from any pests which reduce its usefulness and quality as plant material, other than those pests listed in the Annex to Directive 93/61/EEC in relation to that plant material;

(ad) it complies with the requirements concerning Union quarantine pests, protected zone quarantine pests and RNQPs set out in the EU Plant Health Regulation and in the implementing acts adopted pursuant to that Regulation, including measures adopted pursuant to Article 30(1) of that Regulation;";

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) In this regulation—

"protected zone quarantine pest" means a pest within the meaning given by Article 32(1) of the EU Plant Health Regulation;

"RNQP" means a Union regulated non-quarantine pest within the meaning given by Article 36 of the EU Plant Health Regulation;

"Union quarantine pest" means a pest within the meaning given by Article 4 of the EU Plant Health Regulation."

(4) Yn lle rheoliad 6 rhodder—

"**6.**—(1) A producer must—

(a) report to an inspector any plant material that fails to comply with the requirements of regulation 5(1)(a) or (ab);

(b) immediately report to an inspector any plant material that shows the presence of a plant pest of a description specified in Annex 2 or 3 to the Phytosanitary Conditions Regulation and carry out any measures laid down by the inspector; and

(c) keep plant material in lots of homogenous composition and origin during growing and lifting or removal from parent material.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) In this regulation—

"the Phytosanitary Conditions Regulation" means Commission Implementing Regulation (EU) 2019/2072 establishing uniform conditions for the implementation of Regulation (EU) 2016/2031 of the European Parliament and of the Council, as regards protective measures against pests of plants(**1**)."

(5) Hepgorer rheoliadau 7 ac 8(5).

(6) Yn rheoliad 9(4)(c), yn lle "harmful organisms referred to in regulation 5(a)" rhodder "pests referred to in regulations 5(1)(a), (ab) and 6(1)(b)".

(7) Yn rheoliad 11(4), yn lle "5(a)" rhodder "5(1)(a) to (ac)".

**Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), cyn y diffiniad o "Directive 98/56/EC" mewnosoder—

""Directive 93/49/EEC" means Commission Directive 93/49/EEC setting out the schedule indicating the conditions to be met by ornamental plant propagating material and ornamental plants pursuant to Council Directive 91/682/EEC(**3**);".

(3) Yn rheoliad 4—

(a) mae'r testun presennol yn dod yn baragraff (1);

(b) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(ab) have been found at the place of production to be practically free, at least on visual inspection, from all pests listed in the Annex to Directive 93/49/EEC in relation to that propagating material;

(ac) be free, at least on visual inspection, from any RNQP in a quantity exceeding the thresholds set out in the Annex to Directive 93/49/EEC for the presence of that RNQP;

(**1**) OJ Rhif L 319, 10.12.2019, t. 1.

(**2**) O.S. 1999/1801, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/974, 2018/1216 (Cy. 249), 2020/206 (Cy. 48). Mae O.S. 1999/1801 wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/131.

(**3**) OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 9, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2020/177 (OJ Rhif L 41, 13.2.2020, t. 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ad) be, at least on visual inspection, practically free from, and from any signs or symptoms of, any pests which reduce its usefulness or quality as propagating material, other than the pests listed in the Annex to Directive 93/49/EEC with regard to the respective propagating material;

(ae) comply with the requirements concerning Union quarantine pests, protected zone quarantine pests and RNQPs set out in the implementing acts adopted pursuant to the EU Plant Health Regulation, and measures adopted pursuant to Article 30(1) of that Regulation;";

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) In this regulation—

"protected zone quarantine pest" means a pest within the meaning given by Article 32(1) of the EU Plant Health Regulation;

"RNQP" means a Union regulated non-quarantine pest within the meaning given by Article 36 of the EU Plant Health Regulation;

"Union quarantine pest" means a pest within the meaning given by Article 4 of the EU Plant Health Regulation."

(4) Hepgorer rheoliad 6A.

**Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

(a) cyn Rhan 1 mewnosoder—

## "Rhan A1

## Rhagymadrodd

**Dehongli**

**A1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "pla cwarantin parth gwarchodedig" ("*protected zone quarantine pest*") yw pla o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 32(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

(**1**) O.S. 2012/245 (Cy. 39). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Mae O.S. 2012/245 (Cy. 39) wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/368 (Cy. 90).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "pla cwarantin yr Undeb" ("*Union quarantine pest*") yw pla o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 4 o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

ystyr "PRHG" ("*RNQP*") yw pla a reoleiddir gan yr Undeb heb gwarantin o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 36 o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE;

ystyr "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE" ("*EU Plant Health Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion.";

(b) yn lle paragraff 15(4) rhodder—

"(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(5) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw.";

(c) ym mharagraffau 28 a 42, yn lle is-baragraff (3) ym mhob achos rhodder—

"(3) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw.";

(d) yn lle paragraff 50(4) rhodder—

"(4) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd fod yn rhydd i bob pwrpas rhag unrhyw blâu sy'n lleihau defnyddioldeb ac ansawdd yr hadau.

(4A) Rhaid i'r cnwd a'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â phlâu cwarantin yr Undeb, plâu cwarantin parth gwarchodedig a PRHGau a nodir mewn actau gweithredu a fabwysiedir yn unol â Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE, a mesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o'r Rheoliad hwnnw."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3, yn lle'r diffiniad o "Cyfarwyddeb 2014/21/EU" rhodder—

"ystyr "Cyfarwyddeb 2014/21/EU" ("*Directive 2014/21/EU*") yw Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/21/EU sy'n pennu amodau gofynnol a Graddau'r Undeb ar gyfer tatws hadyd cyn-sylfaenol(**2**);".

(3) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3(c), yn lle paragraffau (vi) a (vii) rhodder—

"(vi) Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say));

(vii) Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* (Thorne));

(viii) *Candidatus* Liberibacter *solanacearum* Liefting et al.; a

(ix) *Candidatus* Phytoplasma *solani* Quaglino et al;";

(b) ym mharagraff 8, yn y geiriau ar ôl is-baragraff (b)(iii), hepgorer "sy'n gyffredin yn Ewrop";

(c) ym mharagraff 10, yn y geiriau ar ôl is-baragraff (b)(ii), hepgorer "sy'n gyffredin yn Ewrop".

(4) Yn Atodlen 3—

(a) yn y tabl yn Rhan 1, yng ngholofn 1—

(i) o dan y pennawd "Grŵp II", yn lle'r geiriau o "Pydredd Du'r Coesyn" hyd at "et al neu'r ddau" rhodder "Pydredd Du'r Coesyn (*Dickeya* Samson et al. spp. neu *Pectobacterium* Waldee emend. Hauben et al. spp. neu'r ddau)";

(ii) o dan y pennawd "Grŵp IV", yn lle "Y Cen Du (*Rhizoctonia solani* Kuhn)" rhodder "Y cen du fel y'i hachosir gan *Thanatephorus cucumeris* (A.B. Frank) Donk";

---

(**1**) O.S. 2016/106 (Cy. 52), yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2018/1216 (Cy. 249), 2020/206 (Cy. 48). Mae O.S. 2016/106 (Cy. 52) wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/738 (Cy. 141).

(**2**) Diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2020/177 sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 68/193/EEC, 2002/55/EC, 2002/56/EC a 2002/57/EC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 93/49/EEC a 93/61/EEC a Chyfarwyddebau Gweithredu 2014/21/EU a 2014/98/EU o ran plâu planhigion ar hadau a deunyddiau lluosogi planhigion eraill (OJ Rhif L 41, 13.2.2020, t. 1). Gweler adran 26 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn y tabl yn Rhan 1, o dan y pennawd "Grŵp 1", ar ôl y cofnod "Chwilen Golorado" mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "*Candidatus* Liberibacter *solanacearum* Liefting et al | Dim |
| *Candidatus* Phytoplasma *solani* Quaglino et al | Dim"; |

(c) yn lle Rhannau 2 a 3 rhodder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## "RHAN 2

Tatws hadyd cyn-sylfaenol o radd PB yr Undeb a gynhyrchir yng Nghymru

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddefiannau unigol* | *Goddefiannau grŵp* | *Goddefiannau grŵp cyfunol* |
| **Grŵp I** | | | |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schlib) Perc) | Dim | - | - |
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* Thorne) | Dim | - | - |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | - | - |
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al spp *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | - | - |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | - | - |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim | - | - |
| Chwilen Golorado (*Lepinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim | - | - |
| *Candidatus* Liberibacter *solanacearum* Liefting et al | Dim | - | - |
| *Candidatus* Phytoplasma *solani* Quaglino et al | Dim | - | - |
| **Grŵp II** | | | |
| Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans* (Mont) de Bary) | 0.2% | ) | ) |
| Pydredd Du'r Coesyn (*Dickeya* Samson et al. spp. neu *Pectobacterium* Waldee emend. Hauben et al. spp. neu'r ddau) | 0.2% | ) | ) |
| Pydreddau Meddal gan gynnwys: Pydredd yr Archoll Diferol (*Pythium ultimum Trow*) | 0.2% | ) | ) |
| Y Pydredd Pinc (*Phytophthora erythroseptica Pethybridge*) a Phydredd y Manbant | 0.2% | ) 0.2% | ) |
| Y Pydredd Sych (rhywogaeth *Fusarium*) | 0.2% | ) | ) |
| Y Madredd (rhywogaeth *Phoma*) | 0.2% | ) | ) |
| Cloron a ddifrodwyd gan rew | 0.2% | ) | ) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Grŵp III**<br>Brychni'r croen (*Polyscytalum pustulans* (Owen & Wake-field)) M B Ellis | 0.2% | ) | ) 6.0% |
| **Grŵp IV**<br>Y cen du fel y'i hachosir gan *Thanatephorus cucumeris* (A.B. Frank) Donk<br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 1.0% | ) 5.0% | ) |
| Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)<br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o dair o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 5.0% | ) | ) |
| **Grŵp V**<br>Y crach llychlyd (*Spongospora subterranea* (Wallr) Legerh)<br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 1.0% | ) | ) |
| **Grŵp VI**<br>Brychau allanol gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron wedi eu heintio â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r amrywogaeth | 3.0% | ) | ) |
| Madredd arwynebol a achosir gan firws tatws Y | Nil | ) 3.0% | ) |
| Cloron wedi crebachu oherwydd dadhydradu gormodol neu ddadhydradu a achosir gan gen arian (*Helminthosporium solani*) | 0.5% | ) | ) |
| **Grŵp VII**<br>Baw neu sylwedd estronol arall | 1.0% | - | - |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Tatws hadyd sylfaenol a thatws hadyd ardystiedig a gynhyrchir yng Nghymru

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddefiannau unigol* | *Goddefiannau grŵp* | *Goddefiannau grŵp cyfunol* |
| **Grŵp I** | | | |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schlib) Perc) | Dim | - | - |
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* Thorne) | Dim | - | - |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | - | - |
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al spp *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | - | - |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | - | - |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim | - | - |
| Chwilen Golorado (*Lepinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim | - | - |
| *Candidatus* Liberibacter *solanacearum* Liefting et al | Dim | - | - |
| *Candidatus* Phytoplasma *solani* Quaglino et al | Dim | - | - |
| **Grŵp II** | | | |
| Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans* (Mont) de Bary) | 0.5% | ) | ) |
| Pydredd Du'r Coesyn (*Dickeya* Samson et al. spp. neu *Pectobacterium* Waldee emend. Hauben et al. spp. neu'r ddau) | 0.5% | ) | ) |
| Pydreddau Meddal gan gynnwys Pydredd yr Archoll Diferol (*Pythium ultimum Trow*) | 0.5% | ) | ) |
| Y Pydredd Pinc (*Phytophthora erythroseptica Pethybridge*) a Phydredd y Manbant | 0.5% | ) 0.5% | ) |
| Y Pydredd Sych (rhywogaeth *Fusarium*) | 0.5% | ) | ) |
| Y Madredd (rhywogaeth *Phoma*) | 0.5% | ) | ) |
| Cloron a ddifrodwyd gan rew | 0.5% | ) | ) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unrhyw un o’r diffygion Grŵp II sy’n ymddangos fel symptom pydredd gwlyb | 0.2% | ) | )6.0% ar gyfer tatws hadyd sylfaenol ac 8.0% ar gyfer tatws hadyd ardystiedig |
| **Grŵp III**<br>Brychni’r croen (*Polyscytalum pustulans* (Owen & Wakefield) M B Ellis) | 0.5% ac eithrio gradd E yr Undeb, gradd A yr Undeb a gradd B yr Undeb; 2.0% ar gyfer gradd E yr Undeb, gradd A yr Undeb a gradd B yr Undeb yn unig | ) | ) |
| Y crach llychlyd (*Spongospora subterranea* (Wallr) Legerh) Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy’n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o’u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd (ac eithrio pan fo’r crach llychlyd yn ei ffurf ganseraidd) | 3.0% | ) 5.0% | ) |
| **Grŵp IV**<br>Y cen du fel y’i hachosir gan *Thanatephorus cucumeris* (A.B. Frank) Donk Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy’n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o’u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 5.0% | ) | ) |
| Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*) Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy’n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o dair o’u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 5.0% | ) | ) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Grŵp V** | | | |
| Brychau allanol gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron afiach â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r amrywogaeth | 3.0% | ) | ) |
| Cloron wedi crebachu oherwydd dadhydradu gormodol neu ddadhydradu a achosir gan gen arian (*Helminthosporium solani*) | 1.0% | ) 3.0% | ) |
| Madredd arwynebol a achosir gan fathau o firws tatws Y | 0.1% | ) | ) |
| **Grŵp VI** | | | |
| Baw neu sylwedd estronol arall | 1.0% | - | -"; |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) yn y tabl yn Rhan 4, ar ôl y cofnod ar gyfer “Chwilen Golorado” mewnosoder—

| | | |
|---|---|---|
| “*Candidatus* Liberibacter *solanacearum* Liefting et al | Dim | - |
| *Candidatus* Phytoplasma *solani* Quaglino et al | Dim | -”. |

(5) Yn Rhan 1 o Atodlen 4, yn nhabl 1—

(a) yn y cofnod ar gyfer gradd yr Undeb “PBTC”, yn yr ail golofn—

(i) ym mharagraff (1)(a)(i), ar ôl “*Dickeya* spp.,” mewnosoder “*Candidatus* Liberibacter *solanacearum, Candidatus* Phytoplasma *solani,* Firoid y gloronen bigfain,”;

(ii) ym mharagraff (1)(b)(i), ar y dechrau mewnosoder “*Candidatus* Liberibacter *solanacearum, Candidatus* Phytoplasma *solani,* Firoid y gloronen bigfain,”;

(b) yn y cofnod ar gyfer gradd yr Undeb “PB”, yn yr ail golofn—

(i) ym mharagraff (1)(a)(ii), ar ôl “*Dickeya* spp.,” mewnosoder “*Candidatus* Liberibacter *solanacearum, Candidatus* Phytoplasma *solani,* Firoid y gloronen bigfain,”;

(ii) ym mharagraff (2)(i), ar y dechrau mewnosoder “*Candidatus* Liberibacter *solanacearum, Candidatus* Phytoplasma *solani,* Firoid y gloronen bigfain,”.

(6) Yn Atodlen 5, ym mharagraff 3(f)(ii), hepgorer “sy’n gyffredin yn Ewrop”.

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “PRHG” (“*RNQP*”) yw pla a reoleiddir gan yr Undeb heb gwarantin o fewn yr ystyr a roddir gan Erthygl 36 o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a’r

(**1**) O.S. 2017/691 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/206 (Cy. 48); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol. Mae O.S. 2017/691 (Cy. 163) wedi ei ddiwygio’n rhagolygol gan O.S. 2019/368 (Cy. 90).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion;".

(3) Yn rheoliad 3(1), yn lle'r diffiniad o "Cyfarwyddeb 2014/98/EU" rhodder—

"ystyr "Cyfarwyddeb 2014/98/EU" ("*Directive 2014/98/EU*") yw Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC o ran gofynion penodol ar gyfer genws a rhywogaethau planhigion ffrwythau y cyfeirir atynt yn Atodiad I iddi, gofynion penodol sydd i'w bodloni gan gyflenwyr a rheolau manwl sy'n ymwneud ag arolygiadau swyddogol(**1**)."

(4) Ar ôl rheoliad 14 mewnosoder—

**"Cyflenwyr: gofynion hysbysu**

**14A.**—(1) Rhaid i gyflenwr adrodd ar unwaith i arolygydd ynghylch—

(a) deunyddiau planhigion sy'n dangos presenoldeb unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

(b) presenoldeb yn y pridd unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU;

(c) presenoldeb unrhyw PRHG yn y safle cynhyrchu ar lefel uwch na'r goddefiant a bennwyd ar gyfer yr organeb honno yn Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU; neu

(d) deunyddiau planhigion sy'n dangos presenoldeb unrhyw bla a restrir yn Atodiad 2 neu 3 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mesurau diogelu rhag plâu planhigion.

(2) Pan fo cyflenwr wedi adrodd i arolygydd ynghylch deunyddiau planhigion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(d), rhaid i'r cyflenwr

(**1**) Diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2020//177 sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 68/193/EEC, 2002/55/EC, 2002/56/EC a 2002/57/EC, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 93/49/EEC a 93/61/EEC a Chyfarwyddebau Gweithredu 2014/21/EU a 2014/98/EU o ran plâu planhigion ar hadau a deunyddiau lluosogi planhigion eraill (OJ Rhif L 41, 13.2.2020, t. 1). Gweler adran 26 o Ddeddf Deddfwriaeth Cymru (Cymru) 2019 (dccc 4).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gyflawni unrhyw fesurau a osodir gan yr arolygydd."

(5) Yn rheoliad 15(1)(g)—

(a) ym mharagraff (i), hepgorer "Rhan A o";

(b) hepgorer paragraff (ii) a'r "a" sy'n ei ddilyn;

(c) ym mharagraff (iii), yn lle "Atodiad 2, 3 neu 4" rhodder "Atodiad 2 neu 3";

(d) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

"(iv) unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 3 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, pan fo'n bresennol yn y pridd; a

(v) unrhyw PRHG ar lefel uwch na'r goddefiant a bennir ar gyfer y PRHG hwnnw yn Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU."

(6) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1(2), yn lle paragraffau (c) a (d) rhodder—

"(c) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4;

(d) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5; ac

(e) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch y safle cynhyrchu ym mharagraff 6.";

(b) ym mharagraff 2(2), yn lle paragraffau (b) ac (c) rhodder—

"(b) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 4;

(c) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch diffygion ym mharagraff 5; a

(d) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch y safle cynhyrchu ym mharagraff 6.";

(c) ym mharagraff 4, yn lle is-baragraffau (1) i (5) rhodder—

"(1) Rhaid canfod bod deunyddiau CAC, drwy arolygiad gweledol gan y cyflenwr yn ystod y cam cynhyrchu, yn rhydd i bob pwrpas rhag y PRHGau a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, oni nodir fel arall yn Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno.

(2) Rhaid i'r cyflenwr samplu a phrofi'r ffynhonnell ddeunyddiau adnabyddedig neu'r deunyddiau CAC—

(a) mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, am y plâu hynny;

(b) am y PRHGau a restrir yn Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.

(3) Ar ôl ei gynhyrchu, rhaid canfod bod deunyddiau CAC, drwy arolygiad gweledol gan y cyflenwr, yn rhydd rhag arwyddion neu symptomau unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU.

(4) Rhaid cynnal arolygiadau gweledol a gwaith samplu a phrofi yn unol â'r gofynion a bennir yn Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.

(5) Ond nid yw is-baragraffau (1) i (3) yn gymwys i ddeunyddiau CAC yn ystod rhewgadw.";

(d) ar ôl paragraff 5 mewnosoder—

**"Gofynion ynghylch y safle cynhyrchu**

**6.** Rhaid cynhyrchu deunyddiau CAC yn unol â'r gofynion ar gyfer y safle cynhyrchu, y man cynhyrchu neu'r ardal a nodir yn Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ac a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw."

(7) Yn Atodlen 5—

(a) ym mharagraffau 3(2) a 4(2), ar ôl paragraff (f) ym mhob achos, mewnosoder—

"(g) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch y safle cynhyrchu ym mharagraff 12A. ";

(b) ym mharagraffau 5(1)(a) a 6, yn lle "12" rhodder "12A";

(c) ym mharagraff 10—

(i) yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder—

"(1) Rhaid canfod bod planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol neu ddeunyddiau cyn-sylfaenol yn rhydd rhag unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.

(2) Rhaid i arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr wneud gwaith samplu a phrofi ar y planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol neu'r deunyddiau cyn-sylfaenol—

(a) mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb unrhyw PRHG a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, am y plâu hynny;

(b) am y PRHGau a restrir yn Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.";

(ii) yn lle is-baragraff (4) rhodder—

"(4) Caiff cydymffurfedd ag is-baragraff (1) ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol gan arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr.";

(d) ar ôl paragraff 12 mewnosoder—

**"Gofynion ynghylch y safle cynhyrchu**

**12A.** Rhaid cynhyrchu planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunyddiau cyn-sylfaenol yn unol â'r gofynion ar gyfer y safle cynhyrchu, y man cynhyrchu neu'r ardal a nodir yn Atodiad 4 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ac a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw.";

(e) ym mharagraffau 14(2) a 15(2), yn lle paragraffau (g) ac (h) rhodder—

"(g) wedi eu cynnal yn unol â pharagraff 18;

(h) pan fo'n briodol, wedi eu lluosi yn unol â pharagraff 19; ac

(i) wedi eu cynhyrchu yn unol â'r gofynion ynghylch y safle cynhyrchu ym mharagraff 12A.";

(f) ym mharagraff 14(3), yn lle "(h)" rhodder "(i)";

(g) ym mharagraff 16—

(i) yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder—

"(1) Rhaid canfod bod planhigyn tarddiol sylfaenol neu ddeunyddiau sylfaenol yn rhydd rhag unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.

(2) Rhaid i arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr wneud gwaith samplu a phrofi ar y planhigyn tarddiol sylfaenol neu'r deunyddiau sylfaenol—

(a) mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, am y plâu hynny;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) am y PRHGau a restrir yn Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.";

(ii) yn lle is-baragraff (4) rhodder—

"(4) Caiff cydymffurfedd ag is-baragraff (1) ei gadarnhau drwy arolygiad gweledol gan arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr.";

(h) ym mharagraff 20—

(i) yn is-baragraff (2), yn lle paragraffau (e) ac (f) rhodder—

"(e) yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd ym mharagraff 22;

(f) yn cael eu tyfu mewn pridd y canfyddir, drwy waith samplu a phrofi, ei fod yn cydymffurfio â pharagraff 23; ac

(g) yn cydymffurfio â'r gofynion ynghylch y safle cynhyrchu ym mharagraff 12A.";

(ii) yn is-baragraff (4), yn y geiriau cyn paragraff (a), yn lle "(f)" rhodder "(g)";

(i) ym mharagraff 22—

(i) yn lle is-baragraffau (1) a (2) rhodder—

"(1) Rhaid canfod bod planhigyn tarddiol ardystiedig neu ddeunyddiau ardystiedig yn rhydd rhag unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 neu 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.

(2) Rhaid i arolygydd a, phan fo'n briodol, y cyflenwr wneud gwaith samplu a phrofi ar y planhigyn tarddiol ardystiedig neu'r deunyddiau ardystiedig—

(a) mewn achosion pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb unrhyw PRHG a restrir yn Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, am y plâu hynny;

(b) am y PRHGau a restrir yn Atodiad 2 i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad 4 i'r Gyfarwyddeb honno a bennir mewn perthynas â'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, a'r categori.";

(ii) yn is-baragraff (4), yn lle'r geiriau o "is-baragraffau (1)" hyd at y diwedd rhodder

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"is-baragraff (1) drwy arolygiad gweledol";

(j) ym mharagraff 23(4)(a), ar y dechrau mewnosoder "oni nodir fel arall,".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
4 Awst 2020

**Explanatory Memorandum to The Marketing of Seed, Plant and Propagating Material (Wales) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Plant Health and Environment Protection Branch within the Economy, Skills and Natural Resources Department and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Marketing of Seed, Plant and Propagating Material (Wales) Regulations 2020

Lesley Griffiths
Minister for Environment, Energy and Rural Affair
6 August 2020

**PART 1**

## 1. Description

These Regulations amend certain domestic marketing legislation to update and amend the pest requirements on plant reproductive material intending for marketing. This is to ensure that this material is practically free from Union regulated non-quarantine pests ("RNQPs") at the place of production and that the presence of such pests does not exceed specified thresholds. These requirements complement and are in addition to those in existing plant health legislation, which introduced this new category of pests

These Regulations are required to assist the UK to meet its obligations under the Withdrawal Agreement to transpose EU law into domestic legislation until the end of the Implementation Period (31 December 2020). These Regulations transpose Commission Implementing Directive (EU) 2020/177 which makes amendments to certain marketing directives for seed and other propagating material as regards pests of plants on seeds and other plant reproductive material (OJ No L. 41, 13.2.2020, p. 1) ("the 2020 Directive") in relation to RNQPs.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

Section 2(2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of these Regulations because they are giving effect to EU provisions. Further, these Regulations amend Regulations that were subject to the negative procedure.

## 3. Legislative background

These Regulations amend:

- the Marketing of Vegetable Plant Material Regulations 1995 (SI 1995/2652) ("the 1995 Regulations");
- the Marketing of Ornamental Plant Propagating Material Regulations 1999 (SI 1999/1801) ("the 1999 Regulations");
- the Seed Marketing (Wales) Regulations 2012 (SI 2012/245) (W. 39) ("the 2012 Regulations");
- the Seed Potatoes (Wales) Regulations 2016 (SI 2016/106) (W. 52) ("the 2016 Regulations); and
- the Marketing of Fruit Plant and Propagating Material (Wales) Regulations 2017 (SI 2017/691) (W. 163) ("the 2017 Regulations").

Commission Implementing Regulation (EU) 2019/2072 establishing uniform conditions as regards protective measures against pests of plants (OJ No L.

319, 10.12.2019, p. 1) ("the Phytosanitary Conditions Regulation") implements Regulation (EU) 2016/2031 as regards protective measures against pests of plants (OJ No L. 317, 23.11.2016, p. 4) ("the Plant Health Regulation"). The Plant Health Regulation and the Phytosanitary Conditions Regulation have applied to the UK since December 2019 and introduce a revised plant health import and movement regime including a new category of pests known as RNQPs. They are part of the wider EU Smarter Rules for Safer Food package of regulations which modernises the existing health and safety standards of the agri-food chain.

The 2020 Directive amends the pest and disease requirements and standards found in the EU marketing directives (listed below) to provide requirements concerned with RNQPs that complement and are in addition to those in the Phytosanitary Conditions Regulation.

The EU marketing directives ("the Marketing Directives") have been transposed into domestic legislation as follows:

- The 1995 Regulations implement:
    - Council Directive 2008/72/EC on the marketing of vegetable propagating and planting material, other than seed (OJ No. L 205, 1.8.2008, p. 28); and
    - Commission Directive 93/61/EEC setting out the schedules indicating the conditions to be met by vegetable propagating and planting material, other than seed pursuant to Council Directive 2008/72/EC (OJ No. L 250, 7.10.1993, p. 19).
- The 1999 Regulations implement:
    - Council Directive 98/56/EC on the marketing of propagating material of ornamental plants (OJ No. L 226, 13.8.1998, p. 16); and
    - Commission Directive 93/49/EEC setting out the schedule indicating the conditions to be met by ornamental plant propagating material and ornamental plants pursuant to Council Directive 93/682/EEC (OJ No. L 250, 7.10.1993, p. 9).
- The 2012 Regulations implement:
    - Council Directive 66/401/EEC on the marketing of fodder plant seed (OJ No. L 125, 11.7.1966, p. 2298);
    - Council Directive 66/402/EEC on the marketing of cereal seed (OJ No. L 125, 11.7.1966, p. 2309);
    - Council Directive 2002/55/EC on the marketing of vegetable seed (OJ No. L 193, 20.7.2002, p. 33); and
    - Council Directive 2002/57/EC on the marketing of seed of oil and fibre (OJ No. L 193, 20.7.2002, p. 74).
- The 2016 Regulations implement:
    - Council Directive 2002/56/EC on the marketing of seed potatoes (OJ No. L 193, 20.7.2002, p. 60); and
    - Commission Implementing Directive 2014/21/EU determining minimum conditions and Union grades for pre-basic seed potatoes (OJ No. L 38, 7.2.2014, p. 39).
- The 2017 Regulations implement:

- Council Directive 2008/90/EC on the marketing of fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production (OJ No. L 267, 8.10.2008, p. 8); and
- Commission Implementing Directive 2014/98/EC implementing Council Directive 2008/90/EC as regards specific requirements for the genus and species of fruit plants referred to in Annex I thereto, specific requirements to be met by suppliers and detailed rules concerning official inspections (OJ No. L 298, 16.10.2014, p. 22).

The 1995 and 1999 Regulations apply to Great Britain, similar legislation operates in Northern Ireland. The 2012, 2016 and 2017 Regulations apply to Wales only, similar legislation operates in Scotland, England and Northern Ireland.

Council Directive 68/193/EEC on the marketing of material for the vegetative propagation of the vine (OJ No. L 93, 17.4.1968, p. 15) is also amended by the 2020 Directive, however the UK is derogated from the requirement to transpose and implement legislation concerned with vine propagating material.

These Regulations amend the domestic legislation listed above to transpose amendments made by the 2020 Directive to the Marketing Directives. In addition, amendment is made to the 1995 and 2017 Regulations to transpose notification requirements in Council Directives 2008/72/EC and 2008/90/EC for a producer or supplier of vegetable propagating material or fruit plant propagating material to report to an inspector the presence of a regulated pest of plants, including RNQPs.

The marketing of the following types of plant reproductive material is regulated at EU level by the Marketing Directives:

- fodder seed;
- cereal seed;
- propagating material of ornamental plants;
- vegetable seed;
- vegetable propagating and planting material;
- seed potatoes;
- seed of oil and fibre; and
- fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production.

The Marketing Directives establish a regime to ensure that purchasers throughout the European Union receive seeds, plants and other plant propagating material ("plant material") which is healthy and of good quality. They set quality standards to be met by species of plant material when marketed and prescribe conditions to be satisfied by suppliers of plant material.

The Phytosanitary Conditions Regulation establishes uniform conditions for the implementation of the Plant Health Regulation. This includes an update to the phytosanitary status of pests found in the Marketing Directives following a review of pests carried out by the European and Mediterranean Plant

Protection Organisation ("EPPO"). Certain pests, some of which are listed in the Marketing Directives, fulfil the conditions provided for in the Plant Health Regulation to be included in the list of RNQPs.

The Phytosanitary Conditions Regulation lists the RNQPs relating to specific plants for planting, categories and thresholds. It also provides the measures to be taken to prevent the presence of RNQPs on those specific plants for planting.

The 2020 Directive makes consequential amendments to the Marketing Directives to take account of the updated pest status of the pests listed in those directives and updates the measures to determine the presence of pests. It also introduces pests that were quarantine pests but are now assessed, following the review carried out by EPPO, as RNQPs or new pests for regulation as an RNQP. The amendments align with the directly applicable Phytosanitary Conditions Regulation.

These Regulations adapt or remove provisions concerning pest and disease standards regulated in the marketing regulations listed above which have been re-classified as RNQPs. These Regulations transpose the requirement for the crop and seed produced by the crop to comply with the conditions of the Phytosanitary Conditions Regulation as a condition of certification in the 2012 Regulations.

Council Directives 2008/72/EC and 2008/90/EC contain provisions for reporting the presence of pests on vegetable propagating and planting material and fruit plant propagating material and fruit plants intended for fruit production. These Regulations transpose those requirements in full and make clear that a reporting requirement exists for all pests, including the reclassified RNQPs.

These Regulations also correct a formatting error in the potato disease tolerance tables in Schedule 3 to the 2016 Regulations. The formatting error relates to incorrect linear box markings in the disease tolerance tables in parts 2 and 3 of Schedule 3 to the 2016 Regulations which confuse the interpretation of group tolerances.

The amendments made by these Regulations do not amount to changes in policy and will not have a substantive impact on current practices, because the underlying processes are unchanged.

**5. Consultation**

The Welsh Government has not undertaken a full public consultation on these Regulations, but has carried out a targeted consultation with organisations including the British Society of Plant Breeders, the Agricultural Industries Confederation, the Agriculture and Horticulture Development Board, the National Association of Agricultural Contractors, Horticulture Wales and the National Farmers Union Cymru and Farmers Union of Wales. These industry organisations represent the businesses directly affected by the amendments

across Great Britain and Wales and have raised no concerns with the Welsh Government’s approach.

### 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

These Regulations make technical amendments which are consequential to the already directly applicable Phytosanitary Conditions Regulations and no major policy impact is anticipated. The Regulations are not expected to have a significant impact on businesses, charities or the public sector in Wales.

As such, no RIA has been prepared. This is in line with the Welsh Ministers’ RIA Code.

# SL(5)596 – Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau o dan y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Mae Rheoliadau 2003 yn nodi'r nifer leiaf o sesiynau hanner diwrnod y mae'n rhaid i ysgolion a gynhelir eu cynnal o fewn blwyddyn ysgol. Y nifer leiaf yw 380 o sesiynau (190 o ddiwrnodau).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd.

1) Caniatáu i ysgolion yng Nghonwy, Sir Benfro a Phowys, a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019-2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 yn lle o leiaf 380 o sesiynau

2) Caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio er mwyn galluogi ysgolion i fod ar agor i bob dysgwr yn dilyn gostyngiad mewn gweithrediadau o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws. Byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ystod pythefnos cyntaf blwyddyn ysgol 2020-2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ag "*awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*". Anfonwyd llythyr at gyfarwyddwyr awdurdodau lleol ar 29 Gorffennaf 2020 yn nodi'r bwriad, a "*gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb gan nodi unrhyw bryderon.*" Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro a wnaeth awdurdodau lleol ymateb ag unrhyw bryderon ai peidio.

Daeth Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("Rheoliadau 2019") i rym ar 1 Medi 2019, gan ganiatáu un diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol i ysgolion ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros wyth wythnos ar y dull polisi, a chafwyd 899 o ymatebion. Yn y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth

Cymru mewn perthynas â Rheoliadau 2019, nodwyd bod cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad *"gan gynnwys penaethiaid, ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon, awdurdodau lleol ac Estyn. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol."*

O ystyried nifer yr ymatebion a'r ystod o randdeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â hwy mewn perthynas â Rheoliadau 2019, ceisir eglurhad ynghylch pam na ymgynghorwyd ag ystod ehangach o randdeiliaid mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Byddai'n ddefnyddiol dysgu a wnaeth y rhai yr ymgynghorwyd â hwy leisio unrhyw bryderon ai peidio, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol lle bydd ysgolion ar gau am wythnos ychwanegol, lle y bydd angen i deuluoedd roi trefniadau gofal plant ar waith am wythnos y tu allan i'r cyfnod gwyliau ysgol arferol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu ymhellach y cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a ganfu y gallai "*egwyl hanner tymor estynedig a dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r tymor effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny.*"

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (2011/1064)? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i liniaru'r effaith ar y grwpiau a'r teuluoedd a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhai y byddai egwyl hanner tymor estynedig yn effeithio'n andwyol arnynt?

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 848 (Cy. 187)

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn gymwys i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig pa un a'u cynhelir felly ai peidio. Maent yn gwneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer diwrnod ysgol sydd fel arfer i'w rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl yn y canol, ac i ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) gyfarfod am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd:

(1) Er mwyn caniatáu i ysgolion a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019-2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 yn lle o leiaf 380 o sesiynau.

(2) Er mwyn caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu'r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio gan athrawon yn dilyn gostyngiad mewn gweithrediadau o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws yn ystod y flwyddyn ysgol 2019-2020. Cynhelir y sesiynau hyn yn ystod dwy wythnos gyntaf tymor cyntaf y flwyddyn ysgol 2020-2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gangen Llywodraethiant, Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion, Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 848 (Cy. 187)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Awst 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 a deuant i rym ar 1 Medi 2020.

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 551(1A) gan baragraff 39 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), a diwygiwyd adran 551(2) gan baragraff 166 o Atodlen 30 ac Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Am ystyr "regulations" a "prescribed *gweler* adran 579(1).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn rheoliad 4(2), ar y dechrau mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (2A),".

**4.** Ar ôl rheoliad 4(2) mewnosoder—

"(2A) Rhaid cynnal o leiaf 370 o sesiynau mewn ysgol a restrir ym mharagraff (2B) yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 ond er hynny nid oes dim yn y paragraff hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddosbarth meithrin yn yr ysgolion hynny gyfarfod am y nifer hwnnw o sesiynau.

(2B) Yr holl ysgolion a gynhelir yn yr ardaloedd awdurdod lleol a ganlyn—

(i) Conwy;

(ii) Sir Benfro ac eithrio Ysgol y Preseli, Crymych, Sir Benfro, SA41 3QH;

(iii) Powys."

**5.** Ar ôl rheoliad 5 mewnosoder—

"**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw sesiwn ysgol sy'n dod o fewn y flwyddyn ysgol 2020-2021 sydd wedi ei neilltuo (yn llwyr neu'n bennaf) i baratoi ysgolion a chynllunio gan athrawon yn dilyn y gostyngiad mewn gweithrediadau oherwydd amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

(2) Mae paragraff (1) i gael effaith mewn perthynas â dim mwy na phedair sesiwn ysgol yn nwy wythnos gyntaf tymor cyntaf y flwyddyn ysgol honno.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, mae'r sesiwn honno i'w hystyried at ddibenion rheoliad 4 fel sesiwn pan gyfarfu'r ysgol."

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
10 Awst 2020

(**1**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1262 (Cy. 119), O.S. 2008/1739 (Cy. 171), O.S. 2011/149 (Cy. 33), O.S. 2012/248 (Cy. 41) ac O.S. 2019/1131 (Cy. 196).

# Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
11 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwnaed Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 o dan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 a daethant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

Mae rheoliad 4(1) yn darparu bod pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod yn cael ei rannu yn ddwy sesiwn a wahenir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol. Mae rheoliad 4(2) yn darparu bod rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol. Mae hyn yn gymwys i bawb ond ysgolion meithrin.

Mae rheoliad 4(3) yn caniatáu ar gyfer ymdrin ag ysgol a rwystrwyd rhag cyfarfod  am sesiynau fel y bwriadwyd iddi gyfarfod, fel pe bai wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer nifer y diwrnodau hyfforddiant mewn ysgolion, ac mae'r nifer yn cael ei newid o dro i dro er mwyn ystyried  y diwygiadau i'r system addysg, megis darparu hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Bu ysgolion mewn tri awdurdod lleol – Conwy, Sir Benfro a Phowys – ar agor am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf. Yn lle'r wythnos ychwanegol honno, bydd yr ysgolion hynny'n cau am wythnos ychwanegol yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref. Heb y Rheoliadau hyn, ni fydd yr ysgolion hynny'n gallu bodloni'r nifer gofynnol o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21.

Ar 9 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg gynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol ym mis Medi. Disgwylir y bydd ysgolion yn croesawu dysgwyr yn ôl i'r ystafell ddosbarth o 1 Medi 2020 ymlaen.

Mae llawer o ysgolion yn cynnal diwrnodau cynllunio a pharatoi yn ystod yr wythnos gyntaf tymor newydd yr hydref. Mae'r rhain yn ychwanegol at ddiwrnodiau HMS sydd wedi eu cynllunio. At hynny, heb y Rheoliadau hyn, ni fydd ysgolion yn gallu bodloni'r nifer gofynnol o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21.

Felly, mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd:

i. Er mwyn caniatáu i ysgolion a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019-2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-2021 yn lle o leiaf 380 o sesiynau.
ii. Er mwyn caniatáu i hyd at bedair sesiwn gyfrif fel sesiynau pan gyfarfu’r ysgol os oeddent wedi eu neilltuo i baratoi ysgolion a chynllunio er mwyn galluogi ysgolion i fod ar agor i bob dysgwr, yn dilyn gostyngiad mewn gweithrediadau o ganlyniad i fynychder a throsglwyddiad y coronafeirws. Byddai’r sesiynau hynny’n cael eu cynnal yn ystod pythefnos gyntaf blwyddyn ysgol 2020-2021.

Mae’r gofynion sy’n weddill fel y’u nodir yn Rheoliadau 2003 yn parhau’r un fath.

**5. Ymgynghori**

Yn ystod y cyfnod cyn gosod y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd, rydym wedi trafod ag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hefyd, anfonwyd llythyr gan y Cyfarwyddwr Addysg at Gyfarwyddwyr yr awdurdodau lleol ar 29 Gorffennaf 2020. Roedd y llythyr hwnnw’n nodi’r amcanion, a gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb gan nodi unrhyw bryderon.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig wrth wneud Rheoliadau Diwygio 2020. Byddwn yn cadw’r Asesiad Effaith a’r Rheoliadau dan sylw tra byddant mewn grym.

Nid oes unrhyw gostau nac arbedion yn deillio o'r gwelliant hwn, felli ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau. Ni ragwelir unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol, a dim ond ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 y mae Rheoliadau Diwygio 2020 yn cael effaith.

Mae'r effaith ar y sector cyhoeddus yn ymwneud â sector yr ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i'r graddau bod y cyrff hynny’n gyfrifol am ddarparu sesiynau ysgol. O ganlyniad i'r rheoliadau diwygio hyn, ni fydd ysgolion a agorodd am wythnos ychwanegol yn nhymor haf 2019/20 yn cael eu cosbi am gymryd gwyliau hanner tymor estynedig yn nhymor yr hydref 2020/21. Yn ogystal, bydd ysgolion yn cael yr hyblygrwydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd i gynnal hyd at ddau ddiwrnod cynllunio a pharatoi i helpu i baratoi ar gyfer croesawu pob dysgwr yn ôl i'r ysgol.

**Y Gymraeg**

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol sy'n benodol i'r Gymraeg.

**Hawliau Plant**

Rydym wedi cynnal Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.

Mae gan blant a phobl ifanc hawl i addysg (erthygl 28 o'r CCUHP). Gellid dadlau y gallai colli wythnos arall o ddysgu o ganlyniad i doriad hanner tymor hirach i rai ysgolion gael effaith niweidiol ar ddysgwyr. Mae hynny wedi’i liniaru i raddau gan yr wythnos ychwanegol y byddai’r ysgolion wedi bod ar agor ddiwedd tymor yr haf eleni, a gall gael ei leihau ymhellach gan y rhaglen ddysgu carlam, sef ‘Recriwtio, Adfer, Codi Safonau’

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Rydym wedi cynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

Gallai egwyl hanner tymor estynedig a dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r tymor effeithio'n andwyol ar grwpiau difreintiedig a’r rhai sy’n agored i niwed. Gall teuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu'r rheini y mae eu hincwm yn ddibynnol ar yr oriau gwirioneddol a weithiwyd ei chael hi'n anodd darparu gofal plant am y dyddiau ychwanegol hynny.

**Preifatrwydd**

Nid yw'r darpariaethau yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 yn cael eu heffeithio gan estyn y gwelliant i'r Rheoliadau hyn.

**Asesiad o’r Effaith ar Gyfiawnder**

Er na chynhaliwyd Asesiad ffurfiol o’r Effaith ar Gyfiawnder, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.

# SL(5)591 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth i atal, diogelu yn erbyn, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau fel a ganlyn—

(a) caniatáu i fwytai, caffis, bariau a thafarndai agor o dan do (er bod rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre);

(a) caniatáu i neuaddau bingo, alïau bowlio a thai arwerthiant agor (ond unwaith eto rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws);

(c) llacio'r cyfyngiad ar gynulliadau, fel y caniateir cynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 30 o bobl (pa un a yw'n ymwneud â gweithgareddau yn yr awyr agored sydd wedi eu trefnu ai peidio).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi na chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod y coronafeirws yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol, a bod angen ymateb brys er lles iechyd y cyhoedd. At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 9 Gorffennaf, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 31 Gorffennaf."

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro hefyd na fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys i er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, nodir:

"Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai'r cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau."

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2020 Rhif 820 (Cy. 180)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiadau—

(a) yn caniatáu i fwytai, caffis, bariau a thafarndai agor o dan do (er bod rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre);

(b) yn caniatáu i neuaddau bingo, alïau bowlio a thai arwerthiant agor (ond unwaith eto rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) yn llacio'r cyfyngiad ar gynulliadau, fel y caniateir cynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 30 o bobl (pa un a yw'n ymwneud â gweithgareddau yn yr awyr agored sydd wedi eu trefnu ai peidio).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2020 Rhif 820 (Cy. 180)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

*Gwnaed am 12.00 p.m. ar 31 Gorffennaf 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru*

*am 4.00 p.m. ar 31 Gorffennaf 2020*

*Yn dod i rym* *3 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 a deuant i rym ar 3 Awst 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 6.

(3) Yn rheoliad 7—

(a) yn y pennawd, yn lle "eraill" rhodder "penodol";

(b) ym mharagraff (2)(a), hepgorer "4,".

(4) Yn rheoliad 9, hepgorer "6(1) neu" yn y ddau le y mae'n digwydd.

(5) Yn rheoliad 12—

(a) ym mharagraff (2)(a)(ii), yn y testun Cymraeg, ar ôl "gynnal" mewnosoder "rhyngddynt";

(b) ym mharagraff (3), hepgorer is-baragraff (d).

(6) Yn rheoliad 14—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer is-baragraff (a);

(b) yn lle'r pennawd rhodder—

"**Cyfyngiadau ar gynulliadau o dan do**".

(7) Ar ôl rheoliad 14 mewnosoder—

"**Cyfyngiad ar gynulliadau yn yr awyr agored**

**14A.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad yn yr awyr agored sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl.

---

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—

(a) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(b) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;

(c) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol;

(d) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;

(e) cael gafael ar ofal plant neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan oruchwyliaeth i blant."

(8) Hepgorer rheoliad 15.

(9) Yn rheoliad 17(2), hepgorer "6(1),".

(10) Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "6(1),";

(b) ym mharagraffau (4) a (6), ar ôl "14(1)" mewnosoder "neu 14A(1)".

(11) Yn rheoliad 20(1)—

(a) yn is-baragraff (a), hepgorer "6(1),";

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl "14(1)" mewnosoder "neu 14A(1)".

(12) Yn rheoliad 20(11), yn y testun Cymraeg, yn lle "gronfeydd y" rhodder "asedau'r".

(13) Hepgorer Atodlen 1.

(14) Yn Atodlen 2—

(a) yn lle paragraff 3 rhodder—

"**3.** Lleoliadau lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

**3A.** Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(**1**)).";

(b) hepgorer paragraff 4;

(c) ym mharagraff 13 hepgorer "Alïau bowlio a";

(d) hepgorer paragraff 18.

(15) Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 35 mewnosoder—

"**36.** Bwytai a chaffis (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

**37.** Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).

(**1**) 1982 p. 30. Mewnosodwyd paragraff 2A o Atodlen 3 gan adran 27(3) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**38.** Tafarndai.

**39.** Neuaddau bingo.

**40.** Alïau bowlio.

**41**. Tai arwerthiant."

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.00 p.m. ar 31 Gorffennaf 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) (Diwygio) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
31 Gorffennaf 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, maent o'r farn dylid llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio'r cyfyngiadau a wnaed drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwneir y Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Bydd y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn dod i rym ar ddechrau 3 Awst a byddant

- yn caniatáu cynulliadau o hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored

  Mae cynulliadau awyr agored wedi'u gwahardd yng Nghymru, heblaw pan fo gan berson esgus rhesymol, ers i'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) gwreiddiol gael eu gwneud ym mis Mawrth. Mae'r amgylchiadau wedi datblygu dros amser, ac yn union cyn y newidiadau hyn caniatawyd cynulliadau o'r fath rhwng aelodau o aelwyd (neu aelwyd estynedig) ac aelodau o un aelwyd arall neu aelwyd estynedig. Gwnaed darpariaeth benodol hefyd i ganiatáu gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu i hyd at 30 o bobl.

  Yn sgil y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn, bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu disodli gan ddarpariaeth sy'n caniatáu cynulliadau o hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored (gydag eithriadau cyfyngedig iawn lle y gallai fod yn rhesymol i fwy o bobl ymgynnull). Mae hyn yn golygu nad oes angen i gynulliadau o 30 neu lai o bobl gael eu trefnu ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i aelodau o aelwydydd penodol, ac nad oes angen ychwaith iddynt fod ar gyfer unrhyw ddibenion penodol. Bydd y canllawiau'n parhau i bwysleisio'r argymhelliad cryf y dylai pobl dros 11 oed gadw pellter cymdeithasol oddi wrth unrhyw un heblaw aelodau eu haelwyd neu eu haelwyd estynedig.

- ailagor lletygarwch o dan do sy'n cael ei ddarparu mewn tafarndai, bariau, caffis a bwytai.

  Ers 13 Gorffennaf mae tafarnau, bariau, caffis a bwytai wedi cael yr hawl i agor yn yr awyr agored. Mae'r amgylchiadau wedi datblygu'n ddigonol dros amser, yn enwedig o ran ailagor gwasanaethau awyr agored, i alluogi i'r gofynion gael eu llacio ymhellach a chaniatáu lletygarwch o dan do (ac eithrio dawnsio). Bydd lleoliadau lle chwaraeir cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio ar gyfer dawnsio, a lleoliadau diddanwch rhywiol, yn parhau ynghau.

- ailagor alïau bowlio, neuaddau bingo a thai arwerthiant

  Unwaith eto, mae'r gwaith sydd wedi'i wneud gyda chyrff sy'n cynrychioli'r sector ac eraill ar arferion agor diogel a chanllawiau newydd, yn cynorthwyo'r gwaith o lacio'r gofynion ymhellach a chaniatáu i'r busnesau hyn ailagor.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fe gafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Reoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 9 Gorffennaf, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 31 Gorffennaf.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi[1]. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai'r cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau.

[1] Bydd ar gael yn https://llyw.cymru/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

31 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Awst 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 26 Awst.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **31 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau a symudiadau gan bobl, ac ar weithrediad busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 diwrnod. Cafodd yr adolygiad diweddaraf – y chweched o'i fath – ei gynnal yr wythnos hon.

Mae'r cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos, yn gyffredinol, fod lefelau trosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru yn isel. Rydym yn monitro'n agos achos o'r feirws yn Wrecsam, â'i ganolbwynt yn Ysbyty Maelor, ac ymddengys bod yr achos hwn o dan reolaeth.

Mae Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y DU (SAGE) a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru wedi dweud bod pob newid a wneir i lacio mesurau'r cyfyngiadau – y rheoliadau coronafeirws – yn cael effaith gronnol. Rydym felly yn mynd ati fesul cam i ddatgloi'r mesurau hyn, gan fonitro effaith pob newid, a dysgu o'r newidiadau a wnawn a pharhau yn ein blaenau mewn modd hynod ofalus.

Yn ystod y cylch adolygu tair wythnos diwethaf, gwnaethom nifer o newidiadau i agor ein sectorau hamdden, manwerthu, twristiaeth a lletygarwch. Ar ôl monitro effaith y newidiadau hyn ac adolygu'r dystiolaeth ehangach a'r dangosyddion mewn perthynas â throsglwyddiad y feirws yng Nghymru ac o amgylch y byd, rydym wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o le i wneud newidiadau pellach dros y cylch tair wythnos sydd i ddod.

Caiff y newidiadau hyn hefyd eu cyflwyno'n raddol dros y tair wythnos a byddant yn canolbwyntio ar ailagor rhannau o'r economi dan do, sydd wedi bod ar gau hyd yma ac ar ddarparu mwy o gyfleoedd i deuluoedd a ffrindiau gyfarfod â'i gilydd yn yr awyr agored.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r cylch hwn i ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael i alluogi pobl i gyfarfod o dan do, os bydd yr amodau yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Yn ystod yr wythnos gyntaf, o 3 Awst ymlaen, bydd tafarndai, bariau, bwytai a chaffis yn gallu ailagor o dan do, a bydd hyn yn wir ar gyfer llwybrau bowlio, arwerthiannau a neuaddau bingo dan do hefyd.

Byddwn yn llacio'r cyfyngiadau ar gyfarfod yn yr awyr agored i alluogi hyd at 30 o unigolion i gyfarfod yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'n hynod bwysig bod pobl yn parhau i lynu at fesurau cadw pellter cymdeithasol bob amser.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn bydd mangreoedd sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer cynnal priodasau a seremonïau partneriaethau sifil yn gallu ailagor. Bydd derbyniadau bach, lle cydymffurfir â rheolau cadw pellter cymdeithasol, yn cael eu caniatáu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, hyd nes y caiff y rheolau ar gynulliadau dan do eu hailystyried, ni chaniateir cynnal derbyniadau o dan do ar hyn o bryd.

Gan fod y dystiolaeth wyddonol yn dangos bod y perygl o drosglwyddo'r feirws yn is ymhlith plant, byddwn yn diweddaru'r canllawiau i egluro nad oes raid i blant o dan 11 oed gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd na rhyngddynt hwy ac oedolion. Mae'n hynod bwysig bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol gan fod y dystiolaeth o'r perygl yn wahanol ar gyfer y grwpiau oedran hyn.

Yn ystod yr ail wythnos, os bydd yr amodau yn caniatáu, o 10 Awst ymlaen, bydd pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd dan do, campfeydd, sbas a chanolfannau hamdden ac ardaloedd chwarae i blant dan do yn gallu ailagor.

Ar gyfer y drydedd wythnos, rydym yn ystyried a allwn newid y rheolau ynglŷn â chyfarfod ag eraill o dan do. O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae hwn yn un o'r meysydd mwyaf anodd i fynd i'r afael ag ef oherwydd bod y perygl o drosglwyddo'r feirws yn uwch. Rydym wedi gweld bod ton newydd o'r feirws yn codi mewn mannau o amgylch y byd. Mae cysylltiad rhwng yr ail don honno ag ailagor lleoliadau dan do a chynulliadau o bobl o dan do – yn ninas Melbourne ac yn nhaleithiau deheuol yr Unol Daleithiau, er enghraifft.

Bydd y rheolau presennol ar gynulliadau dan do yn parhau yn weithredol am y tro. Os bydd y dystiolaeth wyddonol a'r cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru o blaid llacio'r rheolau, ein nod fydd dod â'r newidiadau i rym ar 15 Awst. Os byddwn

yn gallu newid y rheolau ar gynulliadau o dan do, bydd hyn yn cynnwys opsiynau i ganiatáu i ddigwyddiadau cymdeithasol bach gael eu cynnal, fel derbyniadau priodas.

Yn unol â’r rheolau presennol, dim ond gydag unigolion o’r un aelwyd â hwy neu o’u haelwyd estynedig y caiff unigolion gyfarfod. Golyga hyn, o ddydd Llun ymlaen, dim ond gydag aelodau o’u haelwyd eu hunain neu eu haelwyd estynedig y gall unigolion ymweld ag ardaloedd dan do mewn bwytai a thafarndai, er enghraifft.

Rydym yn symud i’r cyfnod gwyrdd o dan ein system goleuadau traffig. Wrth inni wneud hynny, mae’n fwyfwy pwysig bod canllawiau i’w cael sy’n egluro’r holl fesurau a’r camau sydd angen inni eu cymryd i’n diogelu rhag y coronafeirws.

Mae’n hanfodol bwysig ein bod yn dilyn yr holl ddulliau newydd o weithio hyn, a’n bod yn mabwysiadu’r ymddygiadau newydd, a bod unigolion a busnesau yn cydymffurfio â’r canllawiau hyn i helpu i leihau lledaeniad y feirws a diogelu pobl, gan sicrhau ein bod yn gallu parhau i godi’r cyfyngiadau yn y dyfodol.

Yn achos y lleiafrif bach nad ydynt yn dilyn y canllawiau, byddwn yn cymryd camau ac yn defnyddio’r pwerau cyfreithiol sydd gennym ni, ac sydd gan eraill.

Byddwn yn cryfhau pwerau i ymyrryd ac yn rheoli gorfodaeth pan fo angen gwneud hynny a byddwn yn gweithredu ar sail yr wybodaeth a adroddir i TUC Cymru a’i undebau cysylltiedig.

Nid yw’r coronafeirws wedi diflannu – rydym ni i gyd yn rhannu’r cyfrifoldeb parhaus i gadw Cymru’n ddiogel.

# SL(5)595 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r diwygiadau diweddaraf i'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau:

- yn caniatáu i ganolfannau cymunedol, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd, campfeydd, sbaon, canolfannau hamdden a mannau chwarae o dan do agor; ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.

- yn rhoi pwerau newydd i swyddogion gorfodaeth awdurdodau lleol i sicrhau y cymerir mesurau er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd eraill sydd ar agor. Caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad gwella mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre gymryd mesurau penodedig, ac os na chymerir y mesurau hynny, caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad cau mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gau. Pan fo'n angenrheidiol, caiff swyddog hefyd ddyroddi hysbysiad cau mangre heb fod wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre cyn hynny. Mae darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau, ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau, ac i dorri telerau'r naill math o hysbysiad neu'r llall fod yn drosedd.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(i) – ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires**

Mae'r Rheoliadau'n creu troseddau newydd sy'n ymwneud â hysbysiadau cau mangre, y gellir eu cosbi â hyd at 6 mis o garchar neu ddirwy. Fodd bynnag, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn darparu na ellir cosbi troseddau o'r fath trwy garcharu.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi sylw i hyn yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, trwy ei gwneud yn glir mai dim ond drwy ddirwy y gellir cosbi troseddau o'r fath.

Roedd y ddarpariaeth yn ymwneud â charcharu mewn grym rhwng 10 Awst 2020 a 17 Awst 2020. Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau na chafodd y ddarpariaeth unrhyw effaith ymarferol yn ystod y cyfnod hwnnw.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad newydd 18(7A) yn nodi y caiff swyddog gorfodi:

(a) ei wneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae'r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer;

(b) ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny neu gymryd copïau ohonynt.

Mae rheoliad newydd 18(9B) yn nodi na chaniateir defnyddio unrhyw wybodaeth nac ateb a roddir o dan reoliad 18(7A)(a) fel tystiolaeth yn erbyn yr unigolyn hwnnw (neu briod neu bartner sifil yr unigolyn) mewn achos o dan unrhyw ddeddfiad heblaw'r Rheoliadau hyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau:

(i) y rheswm pam mae rheoliad 18(7A)(a) wedi'i gyfyngu'n benodol i wybodaeth ac atebion y mae'r swyddog gorfodi yn eu hystyried yn berthnasol i arfer y pŵer gorfodi, tra nad yw rheoliad 18(7A)(b) wedi'i gyfyngu yn yr un modd,

(ii) a ellir defnyddio gwybodaeth neu atebion a ddarperir gan berson o dan reoliad 18(7A)(a) yn erbyn person mewn unrhyw achos nad yw'n cael ei ddwyn o dan ddeddfiad,

(iii) a ellir defnyddio dogfennau neu gofnodion electronig y cyfeirir atynt yn rheoliad 18(7A)(b) yn erbyn person mewn unrhyw achos (hynny yw, pam mae rheoliad 18(9B) yn cyfeirio at reoliad 18(7A)(a) yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r amgylchiadau o ran pandemig y coronafeirws yn newid yn gyson. Un o ganlyniadau hyn yw bod y ddeddfwriaeth sy'n amlinellu'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i unigolion a busnesau yng Nghymru bellach wedi'i gwneud/diwygio 17 o weithiau i adlewyrchu'r amgylchiadau newidiol hynny. Mae hyn yn amlwg yn ei gwneud yn anodd i unigolion a busnesau ddilyn y newidiadau a'r hyn y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud. Yn ei dro, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut mae'r cyfyngiadau wedi'u gorfodi.

O ran gorfodi'r cyfyngiadau coronafeirws yng Nghymru, a allai Llywodraeth Cymru:

(i) nodi'n fras sut y mae'n gweithio gyda'r amryw asiantaethau gorfodi yng Nghymru,

(ii) cadarnhau a yw cyflymder y broses o newid y cyfyngiadau yn cael unrhyw effaith ar y dull o orfodi (er enghraifft, a yw'n addas ar gyfer cyfundrefn sy'n canolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol o dorri'r rheolau yn unig, a faint o faich ychwanegol a roddir ar yr amryw asiantaethau gorfodi).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau gorfodi i sicrhau bod gweithleoedd a mangreoedd eraill yn cydymffurfio â'r gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Rhoddir y pwerau gorfodi i swyddogion awdurdodau lleol.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at unrhyw drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â'r pwerau gorfodi newydd hyn.

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pa drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y pwerau gorfodi newydd, yn benodol ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i arfer y pwerau gorfodi. Er enghraifft, os yw busnes yn cael hysbysiad cau mangre ac yn mynd i'r afael â'r problemau ar unwaith, pa mor hir y gallai fod cyn i swyddog gorfodi ddychwelyd i'r adeilad i ddiddymu'r hysbysiad cau mangre a chaniatáu i'r busnes ailagor?

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Awst 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 843 (Cy. 186)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau yn caniatáu i ganolfannau cymunedol, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd, campfeydd, sbaon, canolfannau hamdden a mannau chwarae o dan do agor; ond rhaid cymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi pwerau newydd i swyddogion gorfodaeth awdurdodau lleol i sicrhau y cymerir mesurau (yn unol â rheoliad 12 o'r prif Reoliadau) er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn gweithleoedd a mangreoedd eraill sydd ar agor. Caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad gwella mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre gymryd mesurau penodedig, ac os na chymerir y mesurau hynny, caiff swyddog ddyroddi "hysbysiad cau mangre" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gau. Pan fo'n angenrheidiol, caiff swyddog hefyd ddyroddi hysbysiad cau mangre heb fod wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre cyn hynny. Mae darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau, ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau, ac i dorri telerau'r naill math o hysbysiad neu'r llall fod yn drosedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2020 Rhif 843 (Cy. 186)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

*Gwnaed* *am 12.30 p.m. ar 7 Awst 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 6.00 p.m. ar 7 Awst 2020*

*Yn dod i rym* *10 Awst 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984([1]).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 a deuant i rym ar 10 Awst 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2)(a), yn lle ", 6 neu 12" rhodder "neu 6".

(3) Hepgorer rheoliad 10.

(4) Yn rheoliad 12—

(a) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Mae mesurau y caniateir eu cymryd o dan baragraff (2) at ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre hefyd yn cynnwys—

(a) peidio â gwneud gweithgareddau penodol;

(b) cau rhan o'r fangre."

(b) ym mharagraff (3)(h), hepgorer "y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(4)".

(5) Yn rheoliad 14(2), ar ôl is-baragraff (o) mewnosoder—

"(p) gwneud ymarfer corff gydag eraill, mewn cynulliad o ddim mwy na 30 o bobl, mewn stiwdio ffitrwydd, campfa, pwll nofio, canolfan neu gyfleuster hamdden arall o dan do neu unrhyw fangre agored arall."

(6) Yn rheoliad 17—

(a) o flaen paragraff (1) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/752 (Cy. 169)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/803 (Cy. 176)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/820 (Cy. 180)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(A1) Yn rheoliad 17A ac Atodlen 5, ystyr "swyddog gorfodaeth" yw person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn.";

(b) ym mharagraff (1)(c), yn lle "rheoliadau 18 i 21" rhodder "y Rheoliadau hyn";

(c) ym mharagraff (2), yn lle "10(4), 11(4) neu 12(2)" rhodder "11(4) neu 12(2) neu Atodlen 5".

(7) Ar ôl rheoliad 17 mewnosoder—

"**Gorfodi rheoliad 12(2)**

**17A.** Mae Atodlenni 5 a 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi swyddogaethau, ac mewn cysylltiad â rhoi swyddogaethau, i swyddogion gorfodaeth at ddibenion rheoliad 12(2)."

(8) Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer ", 10(4), 12(2)";

(b) ar ôl paragraff (7) mewnosoder—

"(7A) Caiff swyddog gorfodaeth, er mwyn hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan Atodlen 5—

(a) ei wneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae'r swyddog yn ystyried ei bod neu ei fod yn berthnasol i arfer y pŵer;

(b) ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny neu gymryd copïau ohonynt.";

(c) ym mharagraff (8), yn lle "neu reoliad 19" rhodder ", rheoliad 19 neu Atodlen 5";

(d) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—.

"(9A) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan baragraff (7A) i berson ddarparu dogfen, cofnod neu wybodaeth arall y gellid maentumio hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hi neu ag ef mewn achos cyfreithiol.

(9B) Nid yw unrhyw wybodaeth neu ateb a roddir gan berson mewn ymateb i ofyniad a osodir o dan baragraff (7A)(a) yn dderbyniadwy mewn tystiolaeth yn erbyn y person hwnnw, neu briod neu bartner sifil y person, mewn achos o dan unrhyw ddeddfiad ac eithrio'r Rheoliadau hyn. "

(9) Yn rheoliad 19(1)(a), ar ôl "a osodir gan" mewnosoder "neu o dan".

(10) Yn rheoliad 20—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ym mharagraff (1)(a), hepgorer "10(4)," a "neu 12(2)";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Mae person sydd—

(a) heb esgus rhesymol, yn torri paragraff 3(1) o Atodlen 5,

(b) yn torri paragraff 3(2) o'r Atodlen honno, neu

(c) heb esgus rhesymol, yn tynnu, yn cuddio neu'n difrodi hysbysiad neu arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan baragraff 7(2) o'r Atodlen honno,

yn cyflawni trosedd.";

(c) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(3A) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan baragraff (2A)(a) yn agored ar euogfarn ddiannod i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na 6 mis, i ddirwy, neu i'r ddau.";

(d) ym mharagraff (4), yn lle "trosedd" rhodder "unrhyw drosedd arall".

(11) Yn rheoliad 21(1)(a), yn lle "dan y Rheoliadau hyn" rhodder "o dan y Rheoliadau hyn (ac eithrio trosedd o dan reoliad 20(2A)(a))".

(12) Yn rheoliad 22(1), ar y diwedd mewnosoder ", ac eithrio y caniateir dwyn achos am drosedd o dan reoliad 20(2A) gan awdurdod lleol hefyd".

(13) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 3, ar ôl "Lleoliadau" mewnosoder "sydd wedi eu hawdurdodi i'w defnyddio i gyflenwi alcohol gan drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb (o fewn yr ystyr a roddir i "premises licence" a "club premises certificate", yn eu tro, yn Neddf Trwyddedu 2003(**1**))";

(b) hepgorer paragraffau 11 i 13.

(14) Yn Atodlen 4, ar ôl paragraff 41 mewnosoder—

"**42.** Pyllau nofio.

**43.** Stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, sbaon a chanolfannau a chyfleusterau hamdden eraill o dan do.

**44.** Mannau chwarae o dan do."

(15) Ar ôl Atodlen 4 mewnosoder yr Atodlenni 5 a 6 a nodir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau hyn.

---

(**1**) 2003 p.17.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 20 ac 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau hynny wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 12.30 p.m. ar 7 Awst 2020

# ATODLEN 1 Rheoliad 2

## Atodlen 5 newydd i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

# "ATODLEN 5 Rheoliad 17A

## Gorfodi rheoliad 12(2)

**Hysbysiad gwella mangre**

**1.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwella mangre") i berson sy'n gyfrifol am fangre y cyfeirir ati yn rheoliad 12(1) os yw'r swyddog yn ystyried—

(a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 12(2), a

(b) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella mangre—

(a) pennu'r fangre y mae'n ymwneud â hi;

(b) pennu'r mesurau y mae'n ei gwneud yn ofynnol eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 12(2);

(c) pennu terfyn amser y mae rhaid cymryd y mesurau oddi mewn iddo na chaniateir iddo fod yn llai nag 48 awr

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad);

(d) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

**Hysbysiad cau mangre**

**2.**—(1) Os yw naill ai amod 1 neu amod 2 wedi ei fodloni, caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad cau mangre") i berson sy'n gyfrifol am fangre y cyfeirir ati yn rheoliad 12(1) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre, neu ran o'r fangre, gael ei chau.

(2) Amod 1 yw—

(a) bod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi i'r person,

(b) bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried bod y person wedi methu â chymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, ac

(c) bod y swyddog yn ystyried bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Amod 2 yw bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried—

(a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 12(2), a

(b) bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, (heb fod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi) yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(4) Rhaid i hysbysiad cau mangre—

(a) cynnwys disgrifiad o'r fangre sydd i'w chau,

(b) pan fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r mesurau y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried—

(i) nad ydynt wedi eu cymryd, a

(ii) y mae rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person cyfrifol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 12(2),

(c) pan na fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried nad yw'r person yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 12(2),

(d) yn y naill achos neu'r llall, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried bod cau'r fangre yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws,

(e) pennu'r cyfnod y mae'r hysbysiad yn cael effaith amdano, ac

(f) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(5) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (4)(e) fod yn hwy na 336 o oriau (14 o ddiwrnodau) sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad.

(6) Mae hysbysiad cau mangre yn cael effaith o'r amser y'i dyroddir neu o amser diweddarach a bennir yn yr hysbysiad.

(7) Ni chaniateir dyroddi hysbysiad cau mangre mewn perthynas â mangre sy'n rhan o seilwaith hollbwysig (er enghraifft, mangre a ddefnyddir i gynhyrchu trydan neu gyflenwi dŵr) neu a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

**Effaith hysbysiad cau mangre**

**3.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad cau mangre gymryd effaith, rhaid i'r person y'i dyroddir iddo sicrhau—

(a) bod y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi yn cael ei chau, a

(b) na chynhelir unrhyw fusnes neu na ddarperir unrhyw wasanaeth yn y fangre neu ohoni.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd i'r fangre, neu fod yn y fangre, sydd wedi ei chau o dan is-baragraff (1) heb esgus rhesymol.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae'r amgylchiadau pan fo gan berson esgus rhesymol yn cynnwys—

(a) pan fo'r person yn byw yn y fangre;

(b) pan fo'r person yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio hanfodol;

(c) pan fo'r person yn gwneud pethau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 12(2) pan ganiateir i'r fangre fod ar agor;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) pan fo'r person yn swyddog gorfodaeth neu berson sy'n cynorthwyo swyddog gorfodaeth;

(e) pan fo'n angenrheidiol i'r person fod yn y fangre er mwyn osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

**Terfynu hysbysiad gwella neu gau mangre**

**4.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad sy'n terfynu hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre os yw wedi ei fodloni—

(a) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre (os dyroddwyd un) wedi eu cymryd, neu

(b) bod mesurau eraill wedi eu cymryd i sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 12(2) yn y fangre o dan sylw.

(2) Mae hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre yn peidio â chael effaith ar yr amser y dyroddir hysbysiad o'r terfyniad.

**Apelau**

**5.**—(1) Caiff person y dyroddir hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl gael ei gwneud—

(a) drwy gŵyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**1**), a

(b) o fewn 7 niwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei ddyroddi.

(3) Ond caiff llys ynadon ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio y tu allan i amser).

(4) Caiff llys ynadon atal dros dro effaith hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre wrth aros am y penderfyniad ar yr apêl.

(5) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre, caiff llys ynadon—

(a) cadarnhau'r penderfyniad i ddyroddi'r hysbysiad;

(b) cyfarwyddo bod yr hysbysiad i beidio â chael effaith;

(c) addasu'r hysbysiad;

(**1**) 1980 p. 43.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) gwneud unrhyw orchymyn arall y mae'r llys yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Os yw'r llys ynadon yn cyfarwyddo bod hysbysiad i beidio â chael effaith neu'n addasu hysbysiad, caiff orchymyn i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre o dan sylw ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre am golled a ddioddefir o ganlyniad i ddyroddi'r hysbysiad.

(7) Caiff y naill parti neu'r llall ddwyn apêl yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon i Lys y Goron.

(8) Ar apêl i Lys y Goron, caiff y Llys—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon;

(b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

**Dyroddi hysbysiadau gwella a chau mangreoedd a therfyniadau**

**6.**—(1) Caiff hysbysiad gwella mangre, hysbysiad cau mangre neu derfyniad o'r naill neu'r llall o'r mathau hynny o hysbysiad ei ddyroddi i berson drwy roi copi ohono yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(2) Ond pan na fo'r person sy'n gyfrifol am y fangre y mae'r hysbysiad neu'r terfyniad yn ymwneud â hi yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddyroddi i'r person hwnnw—

(a) os rhoddir copi ohono i unrhyw berson arall yn y fangre yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am unrhyw fusnes neu wasanaeth a gynhelir yn y fangre, neu

(b) os nad oes unrhyw berson o'r fath yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, os gosodir copi o'r hysbysiad mewn lle amlwg yn y fangre.

**Rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau gwella a chau mangreoedd**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog gorfodaeth wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyroddi'r hysbysiad, rhaid i'r swyddog gorfodaeth—

(a) arddangos copi o'r hysbysiad, ac arwydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 6,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mewn man amlwg yn agos i bob mynedfa i'r fangre;

(b) trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre.

(3) Rhaid i hysbysiad neu arwydd a arddangosir o dan is-baragraff (2)(a) fod o faint A4 o leiaf.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei arddangos a'i gyhoeddi o dan is-baragraff (2) barhau i gael ei arddangos a'i gyhoeddi, a rhaid i arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan yr is-baragraff hwnnw barhau i gael ei arddangos, am gyhyd ag y mae'r hysbysiad yn cael effaith."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## ATODLEN 2 Rheoliad 2

## Atodlen 6 newydd i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## "ATODLEN 6 Rheoliad 17A


## Y ffurf ar arwydd i fynd gyda hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Yr arwydd i'w arddangos gyda hysbysiad gwella mangre*

**1.**—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad gwella mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 5 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du ac ambr C0 M60 Y100 K0 yn yr arwydd.




Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Yr arwydd i'w arddangos gyda hysbysiad cau mangre*

**2.**—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad cau mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 5 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du a choch C15 M100 Y100 K0 yn yr arwydd.



**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

7 Awst 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, maent o’r farn y dylid llacio’r cyfyngiadau a geir yn y prif reoliadau cyn gynted ag y bernir nad yw bellach yn angenrheidiol nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny’n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o’r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio’r cyfyngiadau a wnaed drwy’r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae’r darpariaethau hyn yn cydbwyso’r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â’r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae’r darpariaethau newydd sy’n caniatáu i swyddogion gorfodi roi hysbysiadau gwella mangre a hysbysiadau cau mangre, gan gadw at Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf, i’r graddau y maent yn gyfystyr ag ymyrraeth ag eiddo, wedi’u cyfiawnhau gan mai eu nod yw diogelu iechyd y cyhoedd. Maent yn cydbwyso’r hawl i gynnal busnesau â’r bygythiad i iechyd y cyhoedd os nad yw’r busnesau hynny’n cymryd

mesurau rhesymol digonol neu ddim mesurau o gwbl i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Os yw'r rhai sy'n gyfrifol am fangre yn agor y fangre, ond nad ydynt yn cydymffurfio â'r dyletswyddau i gymryd mesurau rhesymol, mae'r angen i allu rhoi hysbysiadau gwella yn gam pwysig tuag at ddiogelu'r rhai sy'n mynd i'r fangre. Pan na chymerir y mesurau a nodir yn yr hysbysiad, neu pan na chydymffurfir â'r dyletswyddau o dan reoliad 12, mae'r gallu i roi hysbysiad cau yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Yn ogystal, er mwyn rhoi hysbysiad cau mangre, rhaid i'r swyddog ystyried bod ei chau yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws. Rhaid i unrhyw hysbysiad gwella ganiatáu o leiaf 48 awr i fesurau gael eu cymryd, ac ni chaiff hysbysiad cau gael effaith am fwy na 336 awr (neu 14 diwrnod) o'r amser y rhoddwyd yr hysbysiad. Mae hawl i apelio i lys ynadon mewn perthynas â hysbysiadau gwella a chau, gan alluogi hawliau sifil a rhwymedigaethau person i gael eu pennu yn unol ag Erthygl 6 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Ymhellach, os bydd llys yn dyfarnu y dylai'r hysbysiad beidio â chael effaith neu gael ei addasu, caiff orchymyn i iawndal gael ei dalu am unrhyw golled a gafwyd o ganlyniad i roi'r hysbysiad.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwneir y Rheoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Bydd y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn dod i rym ar ddechrau 10 Awst a byddant:

a) yn caniatáu ailagor pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd, sbas (i'r graddau nad ydynt eisoes ar agor), canolfannau hamdden a mannau chwarae o dan do.

   Mae gwaith wedi'i gynnal gyda'r sector ar baratoadau i alluogi cyfleusterau ymarfer corff a ffitrwydd o dan do i ailagor yn llawn. Gwnaeth rhai rhannau o'r sector, yn benodol sbas, ailagor yn rhannol ar 27 Gorffennaf pan gafodd busnesau sy'n darparu gwasanaethau cysylltiad agos (triniaethau harddwch ac ati) ganiatâd i ailddechrau. Serch hynny, pan oedd busnesau o'r fath ar agor, nid oeddent yn cael ailagor cyfleusterau ymarfer corff (gan gynnwys nofio).

   Mae ymgynnull o dan do (mewn grŵp o 30 o bobl neu lai) er mwyn ymarfer corff nawr yn cael ei ganiatáu o dan y Rheoliadau. Mae hyn yn cydnabod y manteision corfforol a meddyliol a geir drwy ymarfer corff. Rhaid i gyfleusterau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn gymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws.

   Meysydd chwarae o dan do sydd wedi'u cynllunio'n benodol i blant chwarae ynddynt yw mannau a chanolfannau chwarae o dan do. Yn ogystal â chanolfannau penodol sydd wedi'u creu ar gyfer chwarae o dan do, mae cyfleusterau o'r fath yn aml wedi'u lleoli mewn casgliad o adeiladau a gwasanaethau a ddefnyddir gan rieni gan gynnwys tafarndai, canolfannau siopa a rhai atyniadau mawr i dwristiaid. Mae'r lleoliadau hynny eisoes wedi ailagor, ond hyd yma roedd rhaid i unrhyw fan chwarae o dan do aros ar gau.

   Mae chwarae ac ymarfer corff ar gyfer plant yn cynnig manteision iddynt o ran lles, gwydnwch a datblygiad, ac mae canolfannau chwarae o dan do nawr yn cael ailagor gan gynnig rhagor o gyfleoedd i blant gael at y manteision hyn.

b) yn caniatáu ailagor canolfannau cymunedol, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus (ar wahân i wasanaethau y gofynnodd awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru iddynt eu darparu) a gweithgareddau eraill yn eu mangre i'r graddau y mae'r Rheoliadau yn caniatáu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddosbarthiadau ymarfer corff a ffitrwydd.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn rhoi pwerau newydd i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol. Er bod sawl cyfundrefn orfodi eisoes yn bodoli y gallai awdurdodau eu defnyddio i gau mangre sy'n peri risg i iechyd, nid ydynt yn darparu cyfundrefn orfodi bwrpasol i gefnogi cydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Rheoliadau, yn enwedig rheoliad 12. Sef y rhwymedigaeth i gymryd pob mesur rhesymol i gadw pellter o 2m rhwng pobl yn y fangre a phobl sy'n aros i fynd iddi ac i gymryd mesurau rhesymol eraill i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Caiff swyddogion gorfodi awdurdodau lleol roi "hysbysiad gwella mangre" a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre neu'r busnes gymryd mesurau unioni penodedig o fewn cyfnod amser penodedig (nad yw'n llai na 48 awr). Os na chymerir y mesurau gwella, caiff swyddog roi "hysbysiad cau mangre". Gall hysbysiad o'r fath wneud mwy na dim ond cau mangre, gellir ei ddefnyddio i wahardd

gweithgareddau, i'r graddau y maent yn cael eu cynnal yn unrhyw ran o'r fangre sydd wedi'i chau'n benodol. Byddai hysbysiad yn cael effaith ar unwaith ac ni ellid ond ei ddefnyddio os ystyrir ei fod yn gymesur ac yn angenrheidiol i atal neu reoli mynychder y coronafeirws neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd iddo. Os bydd y swyddog gorfodi yn ystyried na chydymffurfiwyd â'r gofynion o dan reoliad 12, caiff roi hysbysiad cau mangre heb roi hysbysiad gwella mangre yn gyntaf. Er mwyn rhoi hysbysiad cau, rhaid i swyddog gorfodi ystyried ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre. Mae gan bersonau cyfrifol yr hawl i apelio i lys ynadon.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn pennu arwyddion y bydd rhaid eu gosod gyda hysbysiad gwella neu hysbysiad cau, i'w harddangos mewn man amlwg yn agos i bob mynedfa i'r fangre. Bydd hyn yn galluogi pobl i ddeall a yw busnesau wedi cymryd mesurau rhesymol ai peidio i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws. Felly, bydd y cyhoedd yn gallu gwneud penderfyniad cadarn o ran pa fangreoedd yr hoffent fynd iddynt ac yn gallu penderfynu lefel y risgiau maent yn fodlon ei derbyn.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod llacio'r cyfyngiadau drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fe gafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau yn y Rheoliadau gwreiddiol drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

Mae'r Prif Weinidog, ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Nododd y Prif Weinidog, yn ei gynhadledd i'r wasg ar 31 Gorffennaf, y bwriad i wneud y newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau a wneir heddiw, os byddai'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Cafodd y newidiadau arfaethedig hyn gyhoeddusrwydd eang wedyn. Cadarnhaodd y Prif Weinidog y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud yn ei gynhadledd i'r wasg ar 7 Awst.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi[1]. Yn gryno, dylai'r Rheoliadau hyn gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb o ystyried bod cau nifer o'r sectorau a asesir wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd dan anfantais. Mae'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith hefyd wedi ystyried y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau, fel pobl BAME neu bobl sy'n agored i niwed, a dylai asesiadau risg ystyried y ffactorau hyn. Dylai'r cynlluniau i ailagor hefyd ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o gleientiaid, megis hygyrchedd ac argaeledd cyfleusterau.

[1] Bydd ar gael yn https://llyw.cymru/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7 Awst 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Awst 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 11 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn sesiwn adalw'r Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 26 Awst.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad Interim o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **7 Awst 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar gynulliadau a symudiadau gan bobl, ac ar weithredoedd busnesau, gan gynnwys eu cau. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd ar agor gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Eu nod yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau yn y rheoliadau, a pha mor gymesur ydynt, bob 21 o ddiwrnodau. Cynhaliwyd yr adolygiad llawn diwethaf, sef y chweched adolygiad, ar 30 Gorffennaf. Nodwyd ynddo ddull gweithredu graddol ar gyfer y gylchred dair wythnos nesaf.

Mae'r cyngor gwyddonol a meddygol yn dangos, ar y cyfan, bod y lefelau o drosglwyddo'r coronafeirws yn isel yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod yr achosion yn Wrecsam, yn Ysbyty Maelor yn benodol, yn awr o dan reolaeth. Rydym felly wedi dod i'r casgliad bod hyblygrwydd i ailagor rhannau eraill o'r gymdeithas a'r economi.

O 10 Awst ymlaen, byddwn yn ailagor pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd dan do, sbâu, campfeydd a chanolfannau hamdden, yn ogystal ag ardaloedd chwarae dan do i blant.

Wrth inni symud i gam gwyrdd ein system golau traffig, gyda mwyfwy o fangreoedd, gweithleoedd a lleoliadau yn awr ar agor, rhaid inni sicrhau bod pobl a busnesau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn dilyn y canllawiau ar weithredu'n ddiogel yng ngoleuni COVID-19.

Er bod y rhan fwyaf yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, nid pawb sy'n gwneud hynny. O ganlyniad, rydym yr wythnos hon yn cryfhau'r darpariaethau ar orfodi'r Rheoliadau.

Byddai hyn yn galluogi swyddogion gorfodaeth mewn awdurdodau lleol i nodi achosion o beidio â chydymffurfio. Byddant yn ceisio gwella'r sefyllfa ac yna, os yw'n angenrheidiol, byddant yn dyroddi hysbysiad gwella mangre. Bydd yr hysbysiadau hyn yn tynnu sylw at achosion o dorri'r Rheoliadau ac yn pennu'r camau sydd i'w cymryd er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Os na chydymffurfir â Hysbysiad Gwella Mangre, neu os bydd achos o beidio â chydymffurfio yn ddigon difrifol, gellir cau mangreoedd drwy ddyroddi Hysbysiad Cau Mangre. Pan fydd yr hysbysiadau yn cael eu dyroddi, bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn amlwg i roi gwybod i'r cyhoedd bod angen gwella'r fangre neu fod y fangre wedi gorfod cau.

Rydym yn parhau i edrych a allwn wneud newidiadau i'r rheolau ynghylch pobl yn ymgynnull dan do a byddwn yn darparu rhagor o fanylion ynghylch hyn yr wythnos nesaf. O ystyried ein bod wedi gweld tonnau newydd o'r feirws mewn ardaloedd eraill yn y DU ac ar draws y byd, a bod y risg o drosglwyddo'r feirws yn uwch wrth ymgynnull dan do, rydym yn parhau i ymateb yn ofalus. Os bydd yr amodau yng Nghymru yn gwaethygu, efallai y bydd rhaid inni wrthdroi'r camau hyn, neu gamau eraill, sydd wedi'u cymryd i lacio'r cyfyngiadau.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae pob un ohonom yn rhannu dyletswydd barhaus i ddiogelu Cymru.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

# SL(5)573 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020

## Cefndir a Diben

Y Rheoliadau hyn yw'r diwygiadau diweddaraf gan Weinidogion Cymru i'r cyfyngiadau coronafeirws sy'n gymwys yng Nghymru.

Y diwygiadau:

- galluogi aelodau o aelwyd i gytuno ag un aelwyd arall i ffurfio aelwyd estynedig,
- dirymu'r gofyniad i beidio â gadael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae person yn byw oni bai bod gennych esgus rhesymol;
- egluro ei bod yn ofynnol cau atyniadau o dan do i ymwelwyr,
- egluro ei bod yn esgus rhesymol ymgynnull gydag eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu trefnu mewn atyniadau awyr agored i ymwelwyr, ond dim ond yn unol â'r gofynion cadw pellter corfforol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Hawliau dynol

Er bod y cyfyngiadau coronafeirws wedi parhau i gael eu llacio, mae cyfyngiadau mewn grym o hyd sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol pobl yng Nghymru. Pan fo'r cyfyngiadau hynny'n ymyrryd â hawliau dynol, mae angen cyfiawnhau'r ymyrraeth.

O ran cyfiawnhad, nodwn y dull a gymerwyd gan y llysoedd ynghylch adolygiad barnwrol o'r rheoliadau coronafeirws yn Lloegr. Er bod rheoliadau coronafeirws Lloegr yn wahanol i reoliadau coronafeirws Cymru, mae'r egwyddorion sylfaenol yr un peth i raddau helaeth.

Yn ***Dolan v Ysgrifennydd Gwladol* [2020] EWHC 1786 (Gweinyddiaeth)**, penderfynodd yr Uchel Lys **nad oedd** cyfyngiadau Lloegr yn torri'r erthyglau Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) a ganlyn: Erthygl 5 (yr hawl i ryddid a diogelwch), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu), Erthygl 1 Protocol 1 (amddiffyn eiddo).

Wrth ddod i'w benderfyniad:

- cyfeiriodd y llys at y pandemig coronafeirws fel 'sefyllfa gwbl eithriadol',
- dywedodd fod nod dilys a chlir i'r cyfyngiadau, sef lleihau nifer yr achosion a lledaeniad y coronafeirws,
- pwysleisiodd ei bod yn bwysig o ran y cyfyngiadau: (i) eu bod â therfyn amser o 6 mis, (ii) bod yn rhaid eu hadolygu'n rheolaidd, a (iii) bod yn rhaid iddynt ddod i ben cyn gynted ag y gwelir nad oes eu hangen mwyach i fynd i'r afael â'r bygythiad i iechyd y cyhoedd,
- penderfynodd fod unrhyw ymyrraeth â hawliau dynol yn gymesur.

Fel y nodwyd uchod, mae'r egwyddorion sylfaenol hyn hefyd yn gymwys yn gyffredinol i gyfyngiadau Cymru. Serch hynny, rydym yn codi'r cwestiynau a ganlyn:

(1) O ran Erthygl 5, ymddengys i ni fod y llys o'r farn nad oedd achos o amddifadu rhyddid ac felly nad oedd angen ystyried yr eithriadau i Erthygl 5.

Dywed y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau fod y prif Reoliadau'n cyffwrdd ag Erthygl 5. A all Llywodraeth Cymru nodi pa gyfyngiadau sy'n cyffwrdd ag Erthygl 5?

(2) Aeth y llys i'r afael yn unigol â phob hawl ddynol a oedd dan sylw, gan ddefnyddio penawdau ar wahân i drafod pob hawl ddynol a, lle bo hynny'n berthnasol, nodi'r amrywiol ystyriaethau cystadleuol a oedd yn codi. Gweler, er enghraifft, baragraffau 76 i 78 o'r dyfarniad, sy'n trafod Erthygl 8.

A yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai mantais mewn mabwysiadu dull tebyg mewn Memoranda Esboniadol, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth sy'n cael effaith sylweddol ar hawliau dynol, megis y cyfyngiadau coronafeirws?

(3) Ni ddaeth y llys i gasgliad a oedd cyfyngiadau Lloegr yn torri Erthygl 9 o'r Confensiwn (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd). Gohiriodd y llys ei ystyriaeth o Erthygl 9, ond serch hynny, nododd y gallai cyfyngiadau Lloegr fod yn cyffwrdd ag Erthygl 9.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn rhestru amrywiol hawliau dynol y mae cyfyngiadau Cymru yn cyffwrdd â hwy, ond nid yw'n cynnwys Erthygl 9. O ystyried bod y cyfyngiadau yn dal i fod yn gymwys, er enghraifft, i weddïo sy'n rhan o addoliad cymunedol yng Nghymru, a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y cyffyrddir ag Erthygl 9?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Cydraddoldeb

Mewn gweminar a drefnwyd gan Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe ar 18 Mehefin 2020, dywedodd Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol fod Covid yn 'gwaethygu'r anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli yn ein cymdeithas'[1] ac, o ran y mesurau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd mewn ymateb i'r pandemig, y bydd Llywodraeth Cymru bob amser yn 'gwerthuso'r camau posibl drwy lens cydraddoldeb'.[2]

Mae cyfyngiadau Cymru bellach wedi'u gwneud / diwygio saith gwaith, ond ni allwn ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad at gydraddoldeb yn unrhyw un o'r saith Memorandwm Esboniadol a osodwyd gerbron y Senedd.

Mae gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ddyletswydd o dan reoliad 8 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu a monitro effaith eu polisïau ar gydraddoldeb. Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru wneud unrhyw drefniadau sy'n briodol yn eu barn hwy i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau effaith cydraddoldeb y maent wedi'u cynnal.

O ran gwneud a diwygio cyfyngiadau Cymru, a all Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn rheoliad 8 o Reoliadau 2011, yn enwedig y ddyletswydd i gyhoeddi adroddiadau o dan reoliad 8(1)(d)?

Rydym yn codi'r pwynt hwn ar adeg pan fo cydraddoldeb yn bwysicach nag erioed – o faterion byd-eang Mae Bywydau Du o Bwys i faterion lleol a godwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ei hadroddiad Cipolwg ar fywyd yng nghartrefi gofal Cymru yn ystod Covid-19.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Materion trawsffiniol

Yn ôl dogfen Llywodraeth Cymru Canllawiau ar aelwydydd estynedig: coronafeirws:

> "Gall aelwydydd estynedig fod yn rhai trawsffiniol – er enghraifft, gall aelwyd yng Nghymru uno ag aelwyd yn Lloegr – ond bydd rhaid i'r trefniadau gydymffurfio â'r rheolau yn y ddwy wlad."

Fel y nodir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae cyfyngiadau Cymru yn gymwys 'o ran Cymru', ac mae cyfyngiadau Lloegr yn gymwys 'o ran Lloegr'.

Nid yw cyfyngiadau Cymru yn cyfeirio'n benodol at faterion trawsffiniol. A all Llywodraeth Cymru egluro sut y gall cyfyngiadau Cymru sy'n ymwneud ag aelwydydd estynedig fod yn gymwys i aelwydydd yn Lloegr? I bob pwrpas, mae hwn yn alwad am eglurder ynghylch ystyr 'o ran Cymru'.

---

[1] Am 1:20:45
[2] Am 1:21:25

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Canllawiau Llywodraeth Cymru

Ar 8 Mehefin 2020, rhoddodd Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dystiolaeth inni ar gyfyngiadau Cymru. Dywedodd: "We actually want to have something that helps the public to understand how they can follow the rules, and that's why the guidance is really important as well".

Fodd bynnag, nodwn (ar yr adeg yr ysgrifennwyd hwn, 9 Gorffennaf 2020) fod canllawiau Llywodraeth Cymru "**Coronafeirws: beth y mae'r gyfraith yng Nghymru yn ei ddweud?**" yn cyfeirio at gyfraith nad yw bellach mewn grym. Er enghraifft, dywed y canllawiau ei bod yn ofynnol i bobl aros gartref o hyd. Ond nid yw hyn wedi bod yn ofyniad cyfreithiol ers 1 Mehefin 2020.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pedwar pwynt rhinweddau sy'n codi yn yr adroddiad hwn.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor i'r offeryn gael ei ddirymu gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 7) 2020**

1. Dyma ymateb gan y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 9 Gorffennaf 2020.

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi bod Gweinidogion Cymru, yn dilyn adroddiad y Pwyllgor, wedi dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020[1].

**Pwyntiau craffu technegol:**

3. Dim materion yn codi.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Hawliau dynol*

4. Mae'r Adroddiad drafft hwn yn codi tri phwynt sy'n ymwneud â hawliau dynol –

    a. Pa gyfyngiadau yn y Rheoliadau sy'n cyffwrdd ag Erthygl 5;

    b. A ddylai Memoranda Esboniadol i Offerynnau Statudol sy'n cyffwrdd â hawliau dynol nodi pob hawl y cyffyrddir â hi ar wahân ynghyd â'r wybodaeth berthnasol (mewn dull tebyg i'r Uchel Lys yn ei ddyfarniad ar *Dolan v Secretary of State*[2])

    c. A yw'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 9.

5. Mae'r Llywodraeth yn ystyried

    a. Bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 ("y Rheoliadau diwygio") yn llacio cyfyngiadau a oedd yn golygu, wrth eu cymryd gyda'i gilydd, fod potensial i gyffwrdd â nifer o Hawliau'r Confensiwn, gan gynnwys Erthygl 5. Roedd y prif Reoliadau[3] yn cyfyngu ar allu pobl i fyw eu bywydau bob dydd ac i deithio, a allai olygu rhyw fath o fod o dan gadwad er mwyn atal clefydau heintus rhag lledaenu. Dros amser mae'r cyfyngiadau hyn wedi eu llacio. Roedd y llacio o dan y Rheoliadau diwygio yn galluogi pobl i adael yr ardal leol lle'r oeddent yn byw heb esgus rhesymol. Roedd hyn yn golygu bod pobl mewn sefyllfa well i deithio i ble bynnag yr oeddent yn mynnu, a allai ddarparu mwy o ryddid ynddo'i hun.

    b. Fel y'i nodir uchod, fod y Rheoliadau diwygio wedi arwain at lacio'r cyfyngiadau a osodwyd gan y prif Reoliadau. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y Rheoliadau

[1] Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020
[2] [2020] EWHC 1786 Admin
[3] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

yn arwain at fwy o ryddid mewn cysylltiad â'r Erthyglau a ganlyn (er y bydd union natur y cyffwrdd â'r Erthyglau yn dibynnu ar amgylchiadau unigol):

i. Ffurfio aelwydydd estynedig – Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol);

ii. Galluogi pobl i adael yr ardal leol lle'r oeddent yn byw heb esgus rhesymol – Erthyglau 5 (yr hawl i ryddid), 8 ac 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu);

iii. Cau atyniadau o dan do i ymwelwyr yn barhaus – Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (yr hawl i fwynhau meddiannau yn heddychlon);

iv. Galluogi cynulliadau awyr agored wedi eu trefnu – Erthyglau 8 ac 11.

c. Y dull a ddefnyddiwyd gan y llys yn *Dolan* oedd ymateb i faterion penodol a godwyd gan yr hawlydd. Roedd yn ofynnol i'r llys ymateb i bob un o'r materion hynny yn unigol. O dan y pwerau galluogi a nodir yn Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddileu cyfyngiadau neu ofynion pan ystyriant nad ydynt yn gymesur mwyach â'r hyn y ceisir ei gyflawni fel ymateb iechyd y cyhoedd i bandemig y coronafeirws. Mae hyn, mewn llawer o ffyrdd, yn gorgyffwrdd ag ystyriaethau Hawliau'r Confensiwn. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio gwneud hyn mewn modd amserol ac yn ystyried bod y ffordd y mae'r cyfyngiadau wedi eu llacio wedi cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn. Er bod y Llywodraeth wedi ystyried darpariaethau ar sail unigol, mae hefyd yn ystyriol o'r cysylltiad ehangach rhwng y cyfyngiadau a'r gofynion amrywiol a'r ffordd y cyffyrddir â hawliau'r Confensiwn yn unigol ac ar y cyd.

d. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried potensial cyfyngiadau i gyffwrdd â hawliau unigolion o dan Erthygl 9 (rhyddid cydwybod a chrefydd). Mae hyn wedi sicrhau (yn rhannol) fod angladdau wedi gallu parhau yn ystod y pandemig (ond yn ddarostyngedig i sicrhau bod mesurau diogelu sy'n gysylltiedig ag iechyd yn eu lle). Ar ôl gwneud y Rheoliadau diwygio, mae'r Llywodraeth wedi llacio'r cyfyngiad mwy cyffredinol i gau mannau addoli. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ystyried nad oedd y darpariaethau a wnaed yn benodol gan y Rheoliadau diwygio ar eu pennau eu hunain yn cyffwrdd ag Erthygl 9, ond mae'n derbyn yn ehangach fod cyfnod y cyfyngiadau wedi cyffwrdd ag Erthygl 9 ac mae wedi ystyried hyn fel rhan o'i hymateb i lacio cyfyngiadau dros amser.

*Cydraddoldeb*

6. Gofynnir i Lywodraeth Cymru amlinellu'r camau a gymerwyd i gydymffurfio â dyletswyddau yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (rheoliad 8(1)(d) yn benodol).

7. Mae'r Llywodraeth wedi cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac mae'r rhain wedi eu cyhoeddi ar wefan LLYW.cymru – gweler **https://llyw.cymru/asesiadau-or-effaith-ar-gydraddoldeb-coronafeirws**

*Materion trawsffiniol ac aelwydydd estynedig*

8. Mae'r adroddiad drafft yn cyfeirio at Ganllawiau[4] ac yn ceisio eglurhad ar ystyr "o ran Cymru" yng nghyd-destun y Rheoliadau diwygio.

9. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau "as respects Wales" o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn bŵer i wneud rheoliadau a chanddynt gymhwysiad tiriogaethol i Gymru. Mae natur y pwerau a roddir gan y Rhan honno (adrannau 45B a 45C yn bennaf) a'r geiriau egluro yn adran 45T(6)(b) yn ategu'r dehongliad hwnnw.

10. Mae'r hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol yn dibynnu ar natur y darpariaethau yn y Rheoliadau. Mae'r cymhwysiad tiriogaethol yn golygu bod rhaid gosod y cyfyngiad o dan sylw yng Nghymru ond gall y ffordd y mae'n gweithredu gael effaith y tu hwnt i Gymru.

11. Felly, nid oes dim byd yn y Rheoliadau i rwystro dwy aelwyd sy'n byw unrhyw le yn y byd rhag ymuno yn aelwyd estynedig at ddibenion y Rheoliadau. Byddai gwneud hynny yn golygu y byddai personau o'r ddwy aelwyd hynny, pryd bynnag y byddent yn gorfforol yng Nghymru, yn cael eu trin fel un aelwyd at ddibenion y Rheoliadau.

12. Er enghraifft, gallai aelwyd o Gaerdydd ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd sy'n byw ym Mryste. Pan fyddent yng Nghymru, byddent yn cael eu trin fel aelwyd estynedig o dan y Rheoliadau. Felly, pan fo'r Rheoliadau yn darparu na chewch gwrdd o dan do ag unrhyw un ac eithrio aelod o'ch aelwyd neu eich aelwyd estynedig, mae hynny yn golygu o dan do yng Nghymru ond nid oes gwahaniaeth a yw'r bobl o'r aelwyd estynedig yn dod o'r tu allan i Gymru. Byddai'r gyfraith sy'n gymwys lle y byddent yn berthnasol y tu allan i Gymru.

13. Ar y llaw arall, pan oedd y Rheoliadau yn darparu bod rhaid i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru aros yn lleol i'r man lle y mae'n byw, roedd hyn yn dal i fod yn gymwys y tu allan i Gymru (gan nad oedd yn lleol i'r man lle y mae'n byw). Nid oedd y gyfraith lai caeth a oedd yn gymwys yn Lloegr yn gwneud gwahaniaeth.

*Canllawiau Llywodraeth Cymru*

14. Mae'r Adroddiad drafft yn cyfeirio at dudalen ar wefan y Llywodraeth o'r enw "Coronafeirws: beth y mae'r gyfraith yng Nghymru yn ei ddweud?" gan nodi ei bod, ar adeg ei hysgrifennu (9 Gorffennaf), yn cyfeirio at gyfraith nad oedd mewn grym mwyach.

15. Mae'r Llywodraeth yn nodi sylw'r Pwyllgor, ac yn cadarnhau bod y dudalen hon wedi ei dileu.

[4] Yn benodol **Canllawiau ar aelwydydd estynedig: coronafeirws**

# SL(5)579 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Cymru) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Rhif 2) 2020 (“y Rheoliadau”) o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu “coronafeirws”.

Mae'r Rheoliadau'n dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a'r holl reoliadau sydd wedi'u diwygio (gyda’i gilydd, y “Rheoliadau Gwreiddiol”).

Mae’r Rheoliadau:

- yn ailddatgan rhai o ddarpariaethau'r Rheoliadau Gwreiddiol, megis y gofyniad i gadw rhai busnesau, mangreoedd, cyfleusterau, llwybrau cerdded a thir ar gau, er nad yw'r rhestr o leoedd y mae'n rhaid iddynt aros ar gau mor helaeth â’r hyn sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Gwreiddiol. Mae’r lleoedd y caniateir iddynt agor yn awr yn cynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd i'w fwyta ar fangre awyr agored y busnes, salonau trin gwallt a barbwyr, llety hunangynhwysol; addoldai a sinemâu awyr agored;
- yn ei gwneud yn ofynnol i’r busnesau y caniateir iddynt agor gymryd rhai camau penodol i leihau’r risg o drosglwyddo'r coronafeirws. Mae'r camau hyn yn cynnwys parhau â'r gofynion i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o ddau fetr rhwng personau yn y fangre, a phan fo’n ofynnol i bersonau aros i fynd i’r fangre, fod pellter o ddau fetr yn cael ei gynnal. Mae’r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno ystod o fesurau rhesymol eraill sy’n ofynnol, sydd â'r nod o leihau cysylltiad pobl â'r feirws, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac sy’n cynnal hylendid. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws y mae'n rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am gymryd mesurau rhesymol o dan y Rheoliadau roi sylw iddynt; ac
- yn cyfyngu ar gynulliadau, ond gyda newidiadau i rai o'r cyfyngiadau a nodwyd yn y Rheoliadau Gwreiddiol. Mae'r Rheoliadau hyn bellach yn darparu y caiff unigolion, gan gynnwys aelodau o aelwyd (estynedig neu fel arall), ymgynnull gydag unigolion eraill os ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgaredd awyr agored wedi'i drefnu, ar yr amod na fydd mwy na 30 o unigolion yn cymryd rhan yn y gweithgaredd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai’r effaith y bwriedir i’r ddarpariaeth hon ei chael yw y caiff pobl ymuno â’i gilydd yn yr awyr agored i gymryd rhan mewn gweithgaredd, er enghraifft chwaraeon neu daith o amgylch atyniad awyr agored, lle bydd trefnydd y digwyddiad wedi cynnal yr asesiadau risg priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol yn ystod y gweithgaredd i leihau'r risg y daw’r cyfranogwyr i gysylltiad â’r coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau'n destun adolygiad ar 30 Gorffennaf 2020 neu chyn hynny ac o leiaf bob 21 diwrnod ar ôl hynny. Daw'r Rheoliadau i ben ar 8 Ionawr 2021.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu, neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'u gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(iv): ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

Nodir y daw'r Rheoliadau i rym yn unol â rheoliadau 1(3) ac 1(4). Mae rheoliad 1(3) yn nodi rhestr o Reoliadau unigol a ddaeth i rym, yn ôl rheoliad 1(3), ar 11 Gorffennaf 2020. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- Rheoliad 2, sy'n nodi ystyr rhai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau;
- Rheoliad 3, sy'n dirymu'r Rheoliadau Gwreiddiol, ond dim ond i'r graddau y mae'n dirymu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chau rhai busnesau, mangreoedd a llety gwyliau a thorri'r darpariaethau hynny;
- Rheoliad 8, sy'n ei gwneud yn ofynnol cau llety gwyliau ac eithrio llety hunangynhwysol, lleiniau i garafannau a rhai busnesau eraill;
- Rheoliad 9, sy'n ymwneud â busnesau sy'n ffurfio rhan o fusnesau eraill, ond dim ond i'r graddau y mae'n berthnasol i Reoliad 8;
- Rheoliad 12 (mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws) a rheoliad 13 (canllawiau ar leihau dod i gysylltiad â'r coronafeirws), i'r graddau y maent yn berthnasol i bobl sy'n gyfrifol am lety gwyliau; a
- Rheoliadau 17 i 22, sy'n ymdrin â gorfodi cyfyngiadau a gofynion, ond dim ond i'r graddau y maent yn berthnasol i Reoliad 8.

Mae rheoliad 1(4) yn nodi y daeth gweddill y Rheoliadau nad ydynt wedi'u rhestru yn rheoliad 1(3) i rym ar 13 Gorffennaf 2020 at bob pwrpas arall.

Nid yw'r rhestr o Reoliadau y mae rheoliad 1(3) yn nodi y byddant yn dod i rym ar 11 Gorffennaf 2020 yn cynnwys rheoliad 1 ei hun. Felly, yn unol â rheoliad 1(4), daeth rheoliad 1 yn ei gyfanrwydd i rym ar 13 Gorffennaf 2020.

Yr effaith yn sgil hynny yw, pan ddaeth rheoliad 1 i rym ar 13 Gorffennaf 2020, fe ddaeth â'r holl Reoliadau a restrir yn rheoliad 1(3) i rym yn ôl-weithredol o 11 Gorffennaf 2020. Nid yw adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn rhoi awdurdod penodol i'r Rheoliadau gael effaith ôl-weithredol.

Yn ogystal â hynny, o dan reoliadau 17 i 22, a ddaeth i rym yn ôl-weithredol i'r graddau y maent yn gymwys i reoliad 8, mae unrhyw fethiant i gydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Mae Erthygl 7 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na chaiff unrhyw un ei farnu'n euog o unrhyw drosedd oherwydd unrhyw weithred neu anweithred nad oedd yn drosedd o dan

gyfraith genedlaethol ar adeg ei gyflawni. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu na ddylai cyfraith trosedd ddod i rym yn ôl-weithredol.

Mae angen esboniad gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godir yn y pwynt hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi): ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Nodir y daw'r Rheoliadau i rym yn unol â rheoliadau 1(3) ac 1(4). Mae rheoliad 1(3) yn nodi rhestr o Reoliadau unigol a ddaeth i rym, yn ôl rheoliad 1(3), ar 11 Gorffennaf 2020. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys rheoliad 1 ei hun. Mae rheoliad 1(4) yn nodi y daeth gweddill y Rheoliadau , gan gynnwys rheoliad 1 ei hun, i rym at bob diben arall ar 13 Gorffennaf 2020. Felly, er bod rheoliad 1(3) yn nodi y daw rhai o'r Rheoliadau i rym ar 11 Gorffennaf 2020, ni ddaeth rheoliad 1(3) ei hun i rym tan ar ôl y dyddiad hwnnw ar 13 Gorffennaf 2020. Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru yn egluro'n llawn yr afreoleidd-dra hwn yn y gwaith drafftio.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

a) Mae rhai gwallau teipograffyddol yn y nodyn esboniadol ar ddechrau'r Rheoliadau. Mae'r pumed paragraff yn defnyddio 'pebaent' yn lle 'pe baent', ac mae'r gair 'fynd' wedi ei sillafu yn anghywir yn y chweched paragraff (y gair olaf ond un). Fodd bynnag wedi dweud hynny, o ran geiriau olaf y chweched paragraff, ystyriwn fod y testun Cymraeg "a thir sy'n hygyrch i'r cyhoedd" (fel y'i defnyddiwyd yn OS 2020/353 (Cy. 80)) yn well adlewyrchiad o ystyr "and land accessible by the public", yn hytrach nag "a thir y gall y cyhoedd fynd iddynt".

b) Yn y testun sydd wedi'i italeiddio cyn y Rhagymadrodd yn y testun Cymraeg, mae'r dyddiad y gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd Cymru yn anghyflawn.

c) Mae gwallau teipograffyddol hefyd yng nghorff y Rheoliadau – dylai rheoliad 8(4)(a)(iii) ddweud 'wedi' yn lle 'wed'; ymddengys bod 'y' diangen lle nodir "neu y 8(1)" yn rheoliad 9; a dylai rheoliad 12(3)(d) ddweud 'iddi' yn lle 'iddit'.

d) Mae nifer o groesgyfeiriadau ar goll yn y testun Cymraeg lle nodir yn lle hynny "Error! Reference source not found." Mae hyn yn digwydd yn rheoliadau 9, 12(3)(g), 12(3)(h) ac 20(1)(a).

e) Yn rheoliad 11(2)(a) nid yw'r testun Cymraeg yn adlewyrchu ystyr "to be liable to large numbers of people congregating", yn ein barn ni. Mae'r testun Cymraeg yn nodi "eu bod yn debygol o ddenu niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull" sy'n cyfieithu fel "likely to attract large numbers of people congregating". Byddai'r ystyr yn cael ei adlewyrchu'n well, yn ein barn ni, drwy ddweud, "sydd â thuedd i niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull arnynt" (sef yr hyn a ddywedwyd yn OS 2020/334 (Cy. 76)).

f) Mae'r testun Saesneg ar gyfer rheoliad 12(2)(a)(ii) yn cyfeirio at bersonau sy'n aros i fynd i fangre ac yn dweud, "a distance of 2 metres is maintained **between them**" (ein pwyslais ni) tra bod y testun Cymraeg yn nodi "fod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal".

g) Mae'r testun Cymraeg yn rheoliad 20(6) yn cyfeirio at baragraff 20(1) tra bod y testun Saesneg yn cyfeirio at baragraff (1).

h) Mae'r testun Saesneg ar gyfer rheoliad 20(11) yn sôn am "Partnership **assets**", tra bod rheoliad 20(12) yn cyfeirio at "**funds**" sy'n eiddo i gymdeithas anghorfforedig (ein pwyslais ni). Mae'r testun Cymraeg yn defnyddio 'cronfeydd' ar gyfer 'assets' a 'funds', ond byddai 'asedau' yn well adlewyrchiad o'r gair Saesneg 'assets' yn ein barn ni.

i) Mae'n ymddangos bod yr eglurhad o ystyr 'hysbysiad cosb benodedig' yn y testun Cymraeg yn rheoliad 21(2) wedi'i ysgrifennu yn y drefn anghywir. Mae'r Gymraeg yn nodi "Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo…" tra bod llif y testun Saesneg yn gwneud mwy o synnwyr, "A fixed penalty notice is a notice offering the person to whom it is issued…" (h.y. Hysbysiad cosb benodedig yw hysbysiad sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo…').

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Hawliau dynol

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at effaith y Rheoliadau ar hawliau dynol. Nodir bod y Rheoliadau yn cynnwys hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i restru'r hawliau y mae'r Rheoliadau'n cyffwrdd â hwy, fel Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo). Mae'r rhain i gyd yn gyfeiriadau at Erthyglau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") ac ni chyfeirir ymhellach at Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu sut y cyffyrddir â phob un o'r hawliau y soniwyd amdanynt o dan y Confensiwn, ond nodir:

"Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i lacio'r cyfyngiadau drwy'r Rheoliadau gwreiddiol yn ymateb cymesur. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

Croesewir esboniad o sut y mae'r hawliau hyn yn hawliau amodol a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth mewn perthynas ag Erthyglau 5, 8, 9 ac 11. Fodd bynnag, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa o ran hawliau dynol, gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu:

a) dadansoddiad mwy penodol o sut y mae'r Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthyglau 5, 8, 9 ac 11 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn;

b) manylion unrhyw gyfiawnhad am ymyrraeth â diogelu eiddo o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, gan fod y cyfiawnhad am ymyrryd mewn perthynas â'r hawl hon yn wahanol i'r lleill a

nodir yn y Memorandwm Esboniadol – ni chaniateir ymyrraeth o'r fath oni bai ei bod er budd y cyhoedd ac yn unol ag egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol; ac

c) rhagor o wybodaeth am ba hawliau o dan Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yr ystyrir bod y Rheoliadau'n cyffwrdd â hwy, ac ym mha ffordd, a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawliau hynny.

Yn ogystal, cyfeiriwn ymhellach at y mater o ran rhoi effaith i gyfraith trosedd yn ôl-weithredol, fel y cyfeirir ato ym mhwynt adrodd technegol 1. O dan reoliadau 17 i 22, a ddaeth i rym yn ôl-weithredol i'r graddau y maent yn gymwys i reoliad 8, mae unrhyw fethiant i gydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Mae Erthygl 7 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi na chaiff unrhyw un ei farnu'n euog o unrhyw drosedd oherwydd unrhyw weithred neu anweithred nad oedd yn drosedd o dan gyfraith genedlaethol ar adeg ei gyflawni. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu na ddylai cyfraith trosedd ddod i rym yn ôl-weithredol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'n ystyried bod y materion drafftio a nodwyd ynghylch rheoliad 1 yn cyffwrdd ag Erthygl 7 o'r Confensiwn, ac os felly, sut y mae'n bwriadu cywiro hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Materion trawsffiniol

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at barhau â'r cysyniad o 'aelwydydd estynedig' yn y Rheoliadau, lle caniateir i ddwy aelwyd ffurfio un aelwyd fel y gallant gwrdd dan do a chael cyswllt corfforol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Efallai nad yw'r ddwy aelwyd yn byw yng Nghymru o anghenraid ond yn y sefyllfa honno cânt eu trin fel aelwyd unigol cyn belled ag y mae'r Rheoliadau hyn yn y cwestiwn a phe bai un o'r aelwydydd yn ceisio ffurfio aelwyd estynedig gyda thrydydd aelwyd y tu allan i Gymru na fyddai'n cael ei chaniatáu o dan y Rheoliadau hyn, hyd yn oed pe bai'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith sy'n gymwys yn y diriogaeth arall lle roedd y trydydd aelwyd yn byw." (ein pwyslais ni)

Gan fod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn nodi bod cyfyngiadau Cymru yn gymwys o ran Cymru, a wnaiff Llywodraeth Cymru roi esboniad ymarferol o sut y mae hyn yn gweithio yng nghyd-destun y geiriau sydd wedi'u tanlinellu yn y paragraff uchod?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 8 yn caniatáu i lety hunangynhwysol agor, cyhyd â'i fod yn cael ei osod i aelodau o'r un aelwyd yn unig (ymhlith gofynion eraill). Mae rheoliad 2(4) yn cadarnhau, at ddibenion y Rheoliadau, fod unrhyw gyfeiriad at "aelwyd" yn cynnwys yr aelwydydd estynedig y caniateir eu creu. Mae methu â chydymffurfio â rheoliad 8 yn drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy. Fodd bynnag, nid yw'n glir yn y Rheoliadau beth sy'n rhaid i berchennog unrhyw lety hunangynhwysol ei wneud i fodloni ei hun ei fod wir yn gosod yr eiddo i aelodau o'r un aelwyd, p'un a yw'n aelwyd estynedig ai peidio. Er enghraifft, a fydd yn ddigon gofyn i berson ar adeg archebu'r llety a yw'n ei archebu ar gyfer aelodau o'r un aelwyd, neu a fydd angen i'r perchennog ofyn am ryw fath o dystiolaeth er mwyn diogelu ei hun rhag dirwy pe bai'n dod amlwg nad yw'r person(au) sy'n rhentu'r eiddo yn gwneud hynny ar gyfer aelodau o'r un aelwyd? Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n rhagweld y bydd y gofyniad i osod llety i

aelodau o'r un aelwyd, boed yn aelwyd estynedig ai peidio, yn cael ei gymhwyso'n ymarferol gan berchnogion llety hunangynhwysol fel y gallant ddiogelu eu hunain rhag dirwy bosibl.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Anghysondeb rhwng y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol

Mae rheoliad 5(1) yn nodi y daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021. Nodir ar dudalen 5 o'r Memorandwm Esboniadol y daw'r Rheoliadau i ben ar 9 Ionawr 2021. Er y gallai hyn fod yn wall teipograffyddol, o ystyried difrifoldeb a graddau pellgyrhaeddol y Rheoliadau hyn, mae'r dyddiad dod i ben yn debygol o fod yn bwynt pwysig i lawer o bobl yng Nghymru a rhaid gofalu y caiff ei adlewyrchu'n gywir, yn enwedig mewn dogfennau esboniadol y bwriedir iddynt gynorthwyo pobl i ddeall y Rheoliadau.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Tynnwyd sylw at y pwyntiau hyn mewn nodyn a baratowyd ar gyfer Aelodau o'r Senedd dyddiedig 15 Ebrill 2020 ynglŷn â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i faterion eraill a godwyd yn y nodyn hwnnw ar 28 Ebrill 2020 ond ni ofynnwyd iddi ymateb yn benodol i'r pwyntiau hyn ac felly ni wnaeth hynny. Ni chyfeiriwyd at y pwyntiau dan sylw yn y Rheoliadau hyn ychwaith. Felly, dyma dynnu sylw atynt unwaith eto yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn.

Pŵer mynediad

Mae'n ofynnol i berson sy'n arfer pŵer mynediad o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau hyn ddarparu tystiolaeth yn dangos pwy ydyw ac amlinellu at ba ddiben y mae'r pŵer yn cael ei arfer. Er y gall hyn awgrymu bod yn rhaid i'r person ddarparu tystiolaeth o'i awdurdod i arfer y pŵer mynediad (yn enwedig pan fydd yn berson a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru, awdurdod lleol, awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru), nid yw'n glir bod y dystiolaeth sy'n dangos pwy ydyw yn cynnwys tystiolaeth o awdurdod i arfer y pŵer yn benodol. Mae gofyniad i ddarparu tystiolaeth o awdurdod yn gyffredin wrth arfer pwerau o'r math hwn.

At hynny, er y gall nodi at ba ddiben yr arferir y pŵer hefyd ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu'r seiliau rhesymol dros dybio bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael ei dorri, wedi ei dorri neu ar fin cael ei dorri ar y fangre, byddai'n rhesymol nodi gofyniad yn benodol i ddarparu'r wybodaeth honno.

Er nad yw hepgor geiriad penodol yn cael effaith andwyol sylweddol ar y Rheoliadau hyn, byddai cynnwys geiriad penodol priodol yn darparu mesurau diogelu ychwanegol, a mwy o eglurder, i'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r pŵer mynediad.

Hysbysiad Cosb Benodedig

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwyntiau a ganlyn mewn perthynas â hysbysiadau cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn:

- mae'n rhaid i hysbysiad nodi'r awdurdod lleol, neu'r person a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid talu cosb benodedig iddo, ond mewn perthynas â thorri rheoliad 11(4) o'r Rheoliadau hyn mewn parc cenedlaethol, nid yw'n glir a fyddai cosb benodedig yn cael ei thalu i'r

awdurdod parc cenedlaethol neu'r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol y mae'r parc cenedlaethol hwnnw ynddo;

- mae rheoliad 21(9) o'r Rheoliadau hyn yn rhoi disgresiwn i bob awdurdod gynnig gostyngiad ar gyfer taliad cynnar o dan hysbysiad cosb benodedig – gallai hyn greu anghydraddoldeb rhwng ardaloedd yng Nghymru pan fo rhai awdurdodau’n mabwysiadu'r gostyngiad, ond nid eraill;
- nid yw'n eglur a fydd yn bosibl nodi a yw person eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig o dan y Rheoliadau hyn at ddibenion gosod cosb benodedig uwch o dan reoliad 21(10) o'r Rheoliadau hyn – gan ei bod yn bosibl i o leiaf 30 o sefydliadau fod yn gweinyddu hysbysiadau cosb benodedig, mae’n bosibl y bydd anghydraddoldeb yn y modd y caiff troseddwyr eu trin ar draws Cymru; ac
- yr unig ddull o dalu hysbysiad cosb benodedig sy'n ofynnol yn benodol o dan y Rheoliadau yw taliad drwy'r post wedi'i gyfeirio i’r awdurdod lleol dan sylw, er bod gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru nifer gyfyngedig o staff yn gweithio yn eu swyddfeydd – er y gall awdurdodau gynnig talu dros y ffôn neu ar-lein, ac y gwnânt hynny yn ôl pob tebyg, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio'n benodol at yr opsiynau hynny yn y Rheoliadau hyn.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Cydraddoldeb

Mae'r Pwyllgor yn nodi’r ffaith y rhoddwyd ystyriaeth i’w sylwadau blaenorol ynglŷn â’r methiant i fynd i'r afael â chydraddoldeb yn unrhyw un o'r Memoranda Esboniadol i’r Rheoliadau Gwreiddiol. Croesewir y ffaith bod y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn cynnwys crynodeb o'r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob pwynt ac eithrio’r pwynt olaf o ran rhinweddau (rhif 6).

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 27 Gorffennaf 2020.

**Pwyntiau craffu technegol:**

*Pwyntiau 1 a 2: Ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol a bod afreolaidd-dra yn y gwaith drafftio*

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi na ddaeth rheoliad 1(3) i rym tan 13 Gorffennaf 2020, ond i ddarpariaethau eraill o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 2)" ddod i rym, yn ôl y rheoliad hwnnw, ar 11 Gorffennaf 2020, sy'n golygu bod effaith ôl-weithredol i reoliad 1(3) pan ddaeth i rym.

3. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod gwall wedi ei wneud yn y drefn y daeth darpariaethau i rym o dan reoliad 1. Yn rheoliad 1(3), dylai'r rhestr o ddarpariaethau a ddaeth i rym ar 11 Gorffennaf 2020 fod wedi cynnwys rheoliad 1 ei hun. Mae'r gwaith drafftio yn awgrymu na ddaeth y ddarpariaeth, a oedd yn dod â rhannau o'r offeryn i rym ar 11 Gorffennaf 2020, i rym tan 13 Gorffennaf 2020.

4. Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod yr effaith a fwriedir gan reoliad 1 yn amlwg ac y dylai gael ei ddarllen mewn ffordd sy'n osgoi'r gwall. Mewn geiriau eraill, dylai rheoliad 1(3) gael ei ddarllen fel pe bai wedi dod i rym ar 11 Gorffennaf 2020 fel y'i bwriadwyd yn glir. Mae sylwadau'r Pwyllgor ynghylch y materion cyfreithiol a fyddai'n codi oherwydd darpariaethau ôl-weithredol yn darparu rhesymau pellach dros ddarllen Rheoliadau Rhif 2 yn y ffordd hon.

5. Hyd yn oed pe na bai'n bosibl darllen Rheoliadau Rhif 2 yn y ffordd hon, nid yw'r Llywodraeth yn cytuno â'r awgrym y gallai effaith ôl-weithredol ymddangosiadol rheoliad 1(3) arwain at dorri Erthygl 7 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

6. Y darpariaethau o Reoliadau Rhif 2 a ddaeth i rym ar 11 Gorffennaf 2020 oedd rheoliad 8 a darpariaethau a oedd yn ofynnol i sicrhau bod rheoliad 8 yn gweithio. Eu heffaith oedd dileu gwaharddiad presennol ar agor gwestai a llety gwyliau mewn achosion penodol. Roedd rheoliad 4(4) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 26 Mawrth 2020, wedi ei gwneud yn ofynnol i'r mangreoedd hynny gael eu cau (ac roedd rheoliad 12 wedi gwneud torri'r gofyniad hwnnw heb esgus rhesymol yn drosedd). Ailosododd rheoliad 8 o'r Rheoliadau (Rhif 2) newydd y gofyniad ond gydag eithriadau a oedd yn caniatáu darparu llety hunangynhwysol. Ei effaith ymarferol felly oedd peidio â gwneud gweithredoedd neu anweithredoedd yn droseddau, ond awdurdodi gweithgareddau a oedd wedi ffurfio trosedd o'r blaen.

7. Mae'r dyddiadau a bennir yn rheoliad 1(3) a (4) wedi mynd heibio bellach, a dirymwyd rheoliad 8 a'r darpariaethau a oedd yn cyfeirio ato yn nes ymlaen gan reoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2)

2020 ar 25 Gorffennaf 2020. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach, ond bydd yn cymryd gofal i osgoi ailadrodd y mater a nodir gan y Pwyllgor.

*Pwynt 3: Anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg*

8. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi gwallau teipograffyddol posibl yn Nodyn Esboniadol testun Cymraeg Rheoliadau Rhif 2. Byddwn yn ceisio unioni hyn drwy drafodaethau â'r Archifau Gwladol.

9. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi bod y dyddiad gosod yn anghyflawn yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Rhif 2. Mae'r Llywodraeth yn cytuno, a bydd yn ceisio ychwanegu'r dyddiad drwy'r broses slip cywiro.

10. O ran y gwallau teipograffyddol a nodir yn nhestun Cymraeg rheoliad 8, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd gan fod y ddarpariaeth hon wedi ei dirymu yn ddiweddarach. Byddwn yn ceisio slip cywiro mewn cysylltiad â rheoliad 12(3)(d).

11. Mae'r Adroddiad drafft hefyd yn nodi nifer o wallau croesgyfeirio ymddangosiadol yn y testun Cymraeg. Nid yw fersiwn Argraffydd y Frenhines o'r Offeryn Statudol yn cynnwys y rhain ac felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

12. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi nifer o fannau lle y mae'r Pwyllgor yn ystyried bod gwahaniaethau yn ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

    a. Mewn cysylltiad â rheoliad 11(2)(a), mae'r Llywodraeth yn nodi barn y Pwyllgor ond yn ystyried bod y geiriad yn y testun Cymraeg yn foddhaol ac ni fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach.

    b. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Adroddiad drafft ynghylch rheoliad 12(2)(a)(ii). Mae'r testun Saesneg yn adlewyrchu'r ystyr a fwriadwyd yn well, felly mae'r Llywodraeth wedi diwygio'r testun Cymraeg i ychwanegu'r gair "rhyngddynt" (sy'n cyfateb i "between them" yn Saesneg)[1].

    c. O ran y pwynt ynghylch testun Cymraeg rheoliad 20(6), bydd y Llywodraeth yn ceisio cywiro hyn drwy slip cywiro.

    d. Yn rheoliad 20(11), mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y cyfeiriad at "partnership assets" yn y testun Saesneg yn adlewyrchu'r ystyr a fwriadwyd yn well, ac wedi diwygio[2] y testun Cymraeg i gyfeirio at "asedau'r bartneriaeth".

---

[1] Gweler rheoliad 2(5)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

[2] Gweler rheoliad 2(12) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

e. O ran ystyr “hysbysiad cosb benodedig” yn rheoliad 21(2), mae’r Llywodraeth yn ystyried bod y geiriad yn y testun Cymraeg yn foddhaol ac ni fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Hawliau dynol*

13. Mae’r Adroddiad drafft hwn yn ceisio’r canlynol:

    a. dadansoddiad penodol o ran sut y mae’r Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthyglau 5, 8, 9 ac 11 ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf;

    b. manylion unrhyw gyfiawnhad dros ymyrraeth â diogelu eiddo o dan Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf;

    c. rhagor o wybodaeth am ba hawliau o dan Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop y mae’r Rheoliadau yn cyffwrdd â hwy, ac ym mha ffordd, a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth â’r hawliau hynny;

    d. cadarnhad o ran a yw’r Rheoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 7, a sut y gellid cywiro hyn.

14. I’r graddau y mae Rheoliadau Rhif 2 yn dirymu ac yn ail-wneud darpariaethau a nodir yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (fel y’u diwygiwyd), roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ei bodloni bod y darpariaethau hynny yn cydymffurfio â Hawliau’r Confensiwn. Diben dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau oedd sicrhau bod y gyfraith yn eglur ac yn hygyrch gan fod y Rheoliadau gwreiddiol wedi cael eu diwygio saith gwaith. Gwnaeth Rheoliadau Rhif 2 ddarpariaeth newydd a oedd yn caniatáu i hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored pan oedd hynny wedi ei drefnu gan “person cyfrifol”, ailagor nifer o fusnesau, gan gynnwys salonau trin gwallt a barbwyr, ac addoldai. Hefyd, gosodwyd dyletswyddau newydd ar y rheini sy’n gyfrifol am fangreoedd i gymryd mesurau rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws (yn ogystal â’r ddyletswydd barhaus i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau mewn mangreoedd).

15. Mae’r holl reoliadau a wnaed a oedd yn gosod cyfyngiadau mewn ymateb i’r coronafeirws yn cyffwrdd, neu y mae ganddynt y potensial i gyffwrdd, â nifer o Erthyglau o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nodwyd y rhain fel Erthyglau 5, 8, 9 ac 11 ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf. Mae Rheoliadau Rhif 2 yn parhau i osod cyfyngiadau ar fwy na dwy aelwyd yn ymgynnull yn yr awyr agored ac ar ymgynnull o dan do heb esgus rhesymol. Fodd bynnag, ystyrir bod y ddarpariaethau a wnaed yn angenrheidiol ac yn gymesur â’r hyn y ceisir ei gyflawni drwy eu gosod fel ymateb iechyd y cyhoedd i bandemig y coronafeirws. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y coronafeirws yn parhau i fod yn fygythiad difrifol i iechyd a bywydau pobl yng Nghymru a phe bai cyfraddau trosglwyddo yn cynyddu, fel y’i gwelwyd mewn mannau eraill, gallem weld y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cael ei orlwytho gan achosion fel na fyddai’n gallu

ymateb. Yn wir, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol hefyd o Erthygl 2 (yr hawl i fywyd) wrth gymryd camau i sicrhau iechyd a diogelwch pobl. Mae'r Llywodraeth wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng hawliau unigolion a busnesau a'r angen i sicrhau ymateb priodol i'r pandemig. Mae nifer o gyfyngiadau wedi eu llacio, er bod rhai eraill wedi eu cadw yn Rheoliadau Rhif 2.

16. O ran y cyfyngiadau ar gynulliadau, mae'r Llywodraeth wedi ei bodloni bod y cyfyngiadau parhaus yn gymesur yng ngoleuni'r dystiolaeth wyddonol gyfredol, eu bod wedi eu gwneud yn unol â'r gyfraith a'u bod yn angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd. Mae'r ystyriaeth hon yn gymwys i'r graddau y mae'r Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau o dan Erthyglau 8, 9 ac 11. Gwelwyd darpariaeth yn Rheoliadau Rhif 2 a oedd yn caniatáu i hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored os oedd hynny wedi ei drefnu. Roedd y Llywodraeth yn ystyried bod hyn yn ymateb cymesur wrth ei gydbwyso â gofynion i berson fod yn gyfrifol am y cynulliad, ac i'r person hwnnw gynnal asesiad risg a chymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Parhaodd y Rheoliadau i ganiatáu ar gyfer teithio y tu hwnt i ardal y man yr oedd person yn byw ynddo sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o gyffwrdd ag Erthygl 5; ond i'r graddau y gall unrhyw un honni bod cyfyngiadau parhaus yn parhau i ymyrryd â'i ryddid, mae'r Llywodraeth yn ystyried y gellir cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus.

17. Mewn cysylltiad â busnesau sy'n parhau i fod ar gau fel y'u nodir yn Atodlen 2, maent i gyd yn cael eu hystyried yn rhai categori risg uwch lle y mae'r posibilrwydd y gallai'r feirws gael ei drosglwyddo yn fwy. Mae hyn oherwydd eu bod yn fathau o fangreoedd lle y mae gweithgareddau yn digwydd sy'n fwy tebygol o achosi ymdrech, oherwydd hyd yr amser y bydd pobl yn ei dreulio gyda'i gilydd, oherwydd yr agosrwydd wyneb yn wyneb a chorfforol y mae pobl yn eu cael eu hunain ynddo neu oherwydd natur ac amgylchedd y fangre. O ganlyniad, gellir cyfiawnhau o dan Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf eu bod yn parhau i fod ar gau ar y sail bod y darpariaethau yn cyflawni nod dilys er budd y cyhoedd (iechyd y cyhoedd) ac yn gymesur. Fel y'i nodir, mae'r Llywodraeth wedi ystyried busnesau yn ôl sectorau, er enghraifft, gan agor lletygarwch yn yr awyr agored ond gan gadw busnesau lletygarwch o dan do ar gau o dan reoliad 6. Fodd bynnag, mae llacio pellach o ran y mathau o fusnesau y caniatawyd iddynt agor i'w gydbwyso â hyn, er bod dyletswyddau newydd arnynt i gymryd mesurau i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hyn yn cydbwyso'r hawliau i fwynhau meddiannau â'r angen i weithredu mewn modd diogel ac yn ymateb cymesur i'r argyfwng iechyd y cyhoedd.

18. Yn ogystal â'r darpariaethau o fewn y pwerau galluogi yn Neddf 1984, mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau, a'u cymesuredd, bob 21 o ddiwrnodau, ac roedd yr adolygiad cyntaf i fod i ddigwydd ar 30 Gorffennaf.

*Materion trawsffiniol*

19. Mae'r Adroddiad drafft yn cyfeirio at y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Rhif 2, yng nghyd-destun aelwydydd estynedig, ac yn ceisio esboniad ymarferol o effaith "o ran Cymru" yng nghyd-destun y Rheoliadau.

20. Cyfeirir y Pwyllgor at ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad drafft ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020.

*Perchnogion llety gwyliau hunangynhwysol*

21. Mae'r Adroddiad drafft yn ceisio eglurhad ar sut y mae'r gofyniad i osod eiddo i aelodau o'r un aelwyd (pa un a yw'n estynedig ai peidio) i'w gymhwyso'n ymarferol gan berchnogion llety hunangynhwysol.

22. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â rheoliad 8 o Reoliadau Rhif 2, sydd wedi ei ddirymu bellach. Fel y'i nodwyd yn yr adroddiad drafft, byddai torri rheoliad 8 wedi bod yn drosedd yn absenoldeb esgus rhesymol dros y toriad. Felly, byddai rhaid i'r person cyfrifol ddangos bod y camau a gymerodd i osgoi'r toriad yn rhesymol yn wrthrychol o dan yr amgylchiadau penodol.

*Anghysondeb rhwng y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol*

23. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi y daw Rheoliadau Rhif 2 i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Ionawr 2021, ond bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y Rheoliadau yn dod i ben ar 9 Ionawr 2021. Yn dechnegol, mae'r ddau yn gywir gan fod diwedd y dydd ar 8 Ionawr yn golygu'r un peth ag "ar 9 Ionawr" oherwydd y byddai hynny'n cael ei gymryd i olygu ar gychwyn cyntaf y diwrnod hwnnw. Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod yr anghysondeb o ran y mynegiant yn annefnyddiol a byddwn yn ofalus mewn adroddiadau yn y dyfodol i osgoi hyn.

*Pŵer mynediad a Hysbysiad Cosb Benodedig*

24. Mae'r Adroddiad drafft yn codi dwy agwedd ar Reoliadau Rhif 2 a nododd yn flaenorol, ond nad oedd yn ofynnol iddo gael ymateb yn eu cylch, mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Mae'r Pwyllgor bellach yn ceisio sylwadau ar y materion hyn.

25. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi'r achos dros bennu mewn mwy o fanylder fod rhaid i berson sy'n arfer y pŵer mynediad, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o'i awdurdod i arfer y pŵer ac esbonio'r seiliau dros arfer y pŵer. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod hyn o reidrwydd yn ymhlyg gan reoliad 19(3)(a). Mae'n eglur bod y gofyniad i'r swyddog ddangos tystiolaeth o bwy ydyw yn gyfeiriad at y swyddog yn gweithredu yn y rhinwedd honno. Yn yr un modd, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried y gallai swyddog sy'n gweithredu'n rhesymol ac yn gymesur esbonio'r diben y mae'r pŵer mynediad yn cael ei arfer ato heb esbonio'r seiliau sydd gan y swyddog dros amau bod gofyniad wedi ei dorri, neu ar fin cael ei dorri.

26. O ran hysbysiadau cosb benodedig, gan ymdrin â'r pwyntiau yn yr Adroddiad drafft yn eu tro—

a. Mae cosb benodedig a ddyroddir mewn perthynas â thorri rheoliad 11(4) mewn ardal Parc Cenedlaethol i'w thalu i'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol y digwyddodd y toriad yn ei ardal (h.y. ardal y cyngor y mae'r rhan o'r Parc Cenedlaethol lle y digwyddodd y toriad wedi ei lleoli ynddi) yn unol â rheoliad 21(2)(a) a (5) – ond caiff Gweinidogion Cymru, fel dewis arall, ddynodi awdurdod Parc Cenedlaethol i gael taliadau o dan reoliad 21(2)(b). Hyd yn hyn, nid yw dynodiad o'r fath wedi ei wneud.

b. Mae awdurdodau gorfodi yn ddarostyngedig i'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus o ran rhesymoldeb a chymesuredd – o ganlyniad, byddai angen cyfiawnhau'n wrthrychol unrhyw wyro wrth arfer y pŵer yn rheoliad 21(9) o dan yr amgylchiadau.

c. Mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda'r heddluoedd a sefydliadau eraill yng Nghymru a chanddynt bwerau i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig, i'w galluogi i ddeall gofynion y Rheoliadau. Mae Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru yn lluoedd "NICHE" ac felly byddai'r holl droseddwyr honedig wedi eu cysylltu â digwyddiad unigol drwy Niche RMS. Mae hyn yn golygu y gallant adnabod ad-droseddwyr ac yn wir, y rheini sydd wedi cael cyswllt blaenorol â'r heddlu ac y darparwyd cyngor priodol iddynt. Roedd hyn yn galluogi timau plismona lleol i adnabod mannau problemus a throseddwyr mynych, ac i annog ymgysylltu â'r celloedd cydlynu perthnasol mewn awdurdodau lleol a rhannu gwybodaeth â hwy. Yn ogystal, cynhaliodd ACRO gofnodion hefyd i gynorthwyo'r holl heddluoedd i adnabod ad-droseddwyr fel y gallent weinyddu'r hysbysiad cosb benodedig cywir yn unol â'r tariff dirwyon cynyddol sy'n gysylltiedig â throseddau a ailadroddir.

d. O dan reoliad 21(7)(e) mae gan yr awdurdod gorfodi ddisgresiwn i bennu dulliau talu a rhaid iddo eu nodi ar wyneb yr hysbysiad cosb benodedig. Nid yw rheoliad 21(12) ond yn sicrhau nad yw person y mae'n ofynnol iddo dalu'r gosb yn gyfyngedig i dalu drwy ddulliau penodol nad oes ganddo mynediad atynt o bosibl, ac felly y gofyniad i ganiatáu talu drwy anfon arian parod neu ryw ffurf arall ar dalu drwy'r post. O ystyried bod rhaid i'r hysbysiad ei hun nodi'r dulliau talu, ni fyddai unrhyw fudd i'w gael drwy eu rhestru'n benodol yn y Rheoliadau a chyfyngu ymhellach ar ddisgresiwn yr awdurdod gorfodi.

# SL(5)584 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2) yng Nghymru, sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn:

- caniatáu ailagor ffeiriau, meysydd chwarae a champfeydd awyr agored (fodd bynnag, rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am y lleoliadau hyn gymryd pob cam rhesymol o dan reoliad 12 o'r prif Reoliadau i leihau'r risg o ledaenu'r coronafeirws); a
- nodi'n glir fod gan bobl sy'n mynd i fan addoli esgus resymol i ymgynnull (yn unol â gofynion y prif Reoliadau).

## Gweithdrefn

'Gwnaed' cadarnhaol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gwneud er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Cafodd y pwyntiau a ganlyn eu nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

1. Mae'r troednodyn i reoliad 2(1) yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ond ymddengys iddo nodi'r rhif SI anghywir. Rydym yn cymryd y dylai gyfeirio at "S.I. 2020/725 (*W.162*)" [*ein pwyslais ni*], yn lle "S.I. 2020/725 (W.163)".

Rydym yn derbyn nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben cynnwys y troednodyn yw cynorthwyo'r darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r cyfeiriad gael ei ddiweddaru i gyfeirio at y rheoliadau cywir.

2. Ymddengys bod geiriau ar goll ar ddechrau paragraff cyntaf fersiwn Saesneg y Nodyn Esboniadol, oherwydd ar hyn o bryd mae'r paragraff yn dechrau fel a ganlyn: "sAct 1984". Rydym yn cymryd y dylai'r paragraff ddechrau fel a ganlyn: "Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984..." (fel ag y mae yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau hyn).

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys pedwar cyfeiriad at "y Rheoliadau gwreiddiol". Ni ddiffinnir y term hwn, ond ymddengys ei fod yn cyfeirio at Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

O gofio bod y term 'y Rheoliadau gwreiddiol" yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn y Memorandwm Esboniadol i'r Prif Reoliadau, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd os byddai'r un diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) (DIWYGIO) 2020**

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Troednodyn*

1. Mae’r Adroddiad drafft hwn yn nodi bod y troednodyn i reoliad 2(1) yn cyfeirio at O.S. 2020/725 (Cy. 162) yn hytrach na (Cy. 163). Er bod y Llywodraeth yn cytuno y dylai’r cyfeiriad llawn fod at “(Cy. 163)” mae’n ystyried bod defnyddio enw’r OS a’i rif adnabod unigryw fel rhan o Gyfres OSau y DU yn sicrhau y gallai’r defnyddiwr ddod o hyd i’r Rheoliadau o dan sylw, ac mae hefyd yn cytuno â sylw’r Adroddiad nad yw’r troednodyn yn ffurfio rhan o’r gyfraith.

*Y Nodyn Esboniadol*

2. Mae’r Llywodraeth yn cytuno â sylw’r Adroddiad drafft fod geiriau ar goll o baragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol i destun Saesneg y Rheoliadau. Byddwn yn ceisio cywiro hyn drwy drafodaethau â’r Archifau Gwladol.

*Y Memorandwm Esboniadol*

3. Mae’r Adroddiad drafft yn nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn defnyddio’r term “Rheoliadau gwreiddiol” heb ddiffinio’r term hwn. Mae’r Llywodraeth yn cytuno y dylai’r term fod wedi cael ei ddiffinio.

# SL(5)585 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dros dro – o dri mis i chwe mis – y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant o dan adran 8(4A) neu (4B) o Ddeddf Tai 1998 ("Deddf 1998") (hysbysiad achos i geisio meddiant: tenantiaethau sicr) , ac o dan adran 21(1) neu (4) o Ddeddf 1998 (adennill meddiant ar ddiwedd tenantiaeth byrddaliadaol sicr). Roedd y cyfnodau hysbysu hyn eisoes wedi'u hymestyn i dri mis gan Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 23 Gorffennaf 2020:

> *Mae angen dybryd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid dan fygythiad o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at fodloni'r angen dybryd hwnnw, ac felly byddant yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y byddant yn cael eu gwneud.*

Er ein bod yn cydnabod bod yn rhaid rhoi nifer o fesurau ar waith ar frys yn ystod pandemig y Coronafeirws, nid yw'n glir i ni pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau hyn yn benodol ddod i rym ar gymaint o frys fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod, pan fod Gweinidogion Cymru wedi meddu ar y pŵer i wneud rheoliadau o'r fath ers 25 Mawrth 2020 (pan basiwyd Deddf y Coronafeirws 2020).

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd â hawliau landlord o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Yn ôl A1P1:

*Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.*

*The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.*

Mae'r Rheoliadau'n cynyddu mewn rhai achosion y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant, o dri mis i chwe mis. Effaith y gwelliannau felly yw cyfyngu ar ddefnydd a mwynhad landlord o'i eiddo am dri mis ychwanegol. Mae A1P1 yn hawl gymwysedig ac felly caniateir rheoli defnydd y landlord o'i eiddo, os pennir bod hynny'n angenrheidiol er budd cyffredinol.

Wrth ystyried a oes modd cyfiawnhau ymyrraeth, rhaid i'r Wladwriaeth ddangos bod gan y rheoliadau nod cyfreithlon sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngu hawliau landlordiaid, bod y rheoliadau wedi'u cysylltu'n rhesymol â'r nod hwnnw, na ellir bod wedi defnyddio mesur llai ymwthiol, a bod perthynas resymol o gymesuredd rhwng y modd a ddefnyddir i gyflawni'r nod dan sylw, a'r nod y ceisir ei gyflawni.

Mae'n destun pryder nad oes dadansoddiad yn y Memorandwm Esboniadol o hawliau A1P1 landlordiaid, a sut y gellir cyfiawnhau ymyrraeth â'r hawliau hyn. Yn absenoldeb cyfiawnhad o'r fath, mae'r Rheoliadau hyn yn peri risg wirioneddol o dorri hawliau A1P1. Mae'r amseriad ar gyfer cyflwyno'r Rheoliadau hyn, ynghyd â'r ffaith bod cyfyngiadau'n cael eu llacio mewn rhannau eraill o'r sector tai, yn peri pryder gwirioneddol. Er y gellir canfod nodau'r Rheoliadau hyn yn y Memorandwm Esboniadol (rheoli ac arafu'r feirws, ysgafnhau'r baich ar staff y rheng flaen a chefnogi pobl), gofynnir i Lywodraeth Cymru gyfiawnhau sut y mae'r Rheoliadau hyn yn gymesur â chyflawni'r nodau hynny.

Yn benodol, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfiawnhau ymyrryd â hawliau A1P1 landlordiaid pan fo'r canlynol yn berthnasol:

1. mae wedi cael y pŵer i roi'r mesurau hyn ar waith ers 25 Mawrth 2020, ond ni wnaeth hynny pan oedd nifer yr achosion, a lledaeniad y Coronafeirws yn llawer uwch;
2. mae cyfyngiadau eraill a roddwyd ar waith i ymdrin â phandemig y Coronafeirws yn cael eu llacio; ac
3. mae cyfyngiadau yn cael eu codi yn y farchnad dai sy'n caniatáu i asiantau tai agor ac i bobl fynd i weld tai ac i dai gael eu gwerthu, sy'n ymddangos yn groes i'r polisi a ddilynir yn y Rheoliadau hyn?

## 3. Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cynnal asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i feintioli, mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi asesiad o effeithiau ansoddol tebygol y Rheoliadau. Fodd bynnag, cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod yn hwyr ar 23 Gorffennaf 2020, a daethant i rym ar 24 Gorffennaf 2020, gan roi ychydig oriau'n unig o rybudd i landlordiaid am y newid o sylwedd hwn i'r gyfraith a'u hawliau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y diffyg ymgynghori, ac absenoldeb asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i feintioli, yn tanseilio unrhyw gyfiawnhad bod y Rheoliadau hyn yn cynrychioli ymateb cymesur gan Lywodraeth Cymru.

### Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt.

### Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r tri phwynt rhinweddau a godir.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

## Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Er i Weinidogion Cymru fod â'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn ers tro, cymharol ychydig fyddai yna i'w ennill o wneud hynny tra bo'r gohiriad presennol ar achosion meddiant yn ei le. Dim ond wrth i'r gohiriad ddod i ben ar 23 Awst (penderfyniad nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer drosto) y daeth y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol. Er mwyn cael llai o achosion meddiant yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ar ôl codi'r gohiriad, daeth Gweinidogion Cymru i'r casgliad ei bod yn hanfodol eu bod yn gweithredu'n ddi-oed i estyn cyfnodau hysbysu. Bydd gwneud cyfnodau hysbysu o chwe mis yn ofynnol yn helpu i lefelu unrhyw don o ran troi pobl allan o'u cartrefi ac yn rhoi mwy o amser i osgoi hynny, naill ai wrth i landlordiaid a thenantiaid gytuno ar ffordd arall o ddatrys y mater, neu wrth i denantiaid ddod o hyd i gartref addas arall.

Pe bai Gweinidogion Cymru wedi penderfynu aros 21 o ddiwrnodau cyn i'r Rheoliadau ddod i rym, byddai wedi caniatáu cyfnod ychwanegol sylweddol pan fyddai modd dyroddi hysbysiadau ar gyfer cyfnodau hysbysu o dri mis yn unig. Yn wir, gallai rhoi rhybudd sylweddol ymlaen llaw am y newid i gyfnodau hysbysu fod wedi peri cynnydd yn nifer yr hysbysiadau a ddyroddwyd yn union cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Mae'n bosibl y byddai hyn wedi tanseilio diben gwneud y Rheoliadau yn sylweddol.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym o'r farn fod y darpariaethau yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii): ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Rheoliadau yn cynrychioli ymateb cymharol fyrdymor i broblemau sylweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr wythnosau diweddar. Dim ond ar ôl iddi ddod yn glir nad yw'r gohiriad ar achosion llys yn debyg o gael ei estyn ymhellach y daeth hi'n amlwg ei bod yn bwysig lleihau ton bosibl o hawliadau meddiant, unwaith y daw'r gohiriad presennol ar achosion i ben. Roedd rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Nid oedd hyn yn gadael digon o amser i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol nac ymgynghori â rhanddeiliaid. Yn wir, mae'n bosibl y byddai ymgynghori â landlordiaid a'r cyrff sy'n eu cynrychioli wedi arwain at gynnydd mewn cyflwyno hysbysiadau cyn unrhyw newid. Fel y nodwyd uchod, roedd angen i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym er mwyn sicrhau na châi diben y Rheoliadau ei danseilio.

# SL(5)587 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (“y prif reoliadau”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1), (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”) mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 25 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy’n caniatáu i atyniadau tanddaearol i ymwelwyr agor (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n dileu’r gofyniad i gau llety gwyliau nad yw’n hunangynhwysol (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n dileu’r gofyniad a osodwyd ar unigolion i weithio gartref pan fo’n rhesymol ymarferol; ac
- sy’n egluro y caniateir i esgus rhesymol dros ymgynnull â phersonau eraill gynnwys cael gafael ar unrhyw wasanaethau cyhoeddus a gofal plant, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden o dan oruchwyliaeth i blant.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn (a ddaeth i rym ar 27 Gorffennaf 2020) yn cynnwys darpariaeth–

- sy’n caniatáu agor amlosgfeydd (yn llawn), sinemâu dan do, salonau ewinedd a harddwch, parlyrau tylino, sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau lliw haul, tyllu’r corff, tatŵio, electrolysis neu aciwbigo, arcedau diddanu, amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau (bydd yn ofynnol i’r personau sy’n gyfrifol am y mangreoedd gymryd pob mesur rhesymol i leihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws yn y mangreoedd);
- sy’n ei gwneud yn ofynnol i deithwyr sy’n teithio ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb (yn ddarostyngedig i rai eithriadau); ac
- sy’n llacio’r cyfyngiad ar gynulliadau i ganiatáu ystod ehangach o weithgareddau sy’n ymwneud â gwerthu a gosod eiddo preswyl, megis gweld eiddo sydd wedi ei feddiannu.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd

wedi'i diddymu neu yn ystod y toriad am fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y'i gwnaed iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

1. Mae rheoliad 3(12)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 20(1)(a) o'r prif Reoliadau fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:

> "(a) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 6(1), 7(1), 10(4), 11(4) *neu* 12(2) *neu* 12A(1)," *[pwyslais wedi'i ychwanegu]*

Mae'r diwygiad yn creu polysyndeton (ailadroddir y cysylltiad yn ddiangen). Er nad yw hyn yn arwain at ddrafftio diffygiol, rydym o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r darllenydd pe bai strwythurau brawddegau anarferol yn cael eu hosgoi cyn belled ag y bo modd.

2. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro bod hyn oherwydd yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys, i ymdrin â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd rhinweddau cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Awst 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2020**

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Lluosgyswllt*

1. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r sylwadau yn yr adroddiad drafft ynghylch lluosgyswllt ("polysyndeton").

**Ymateb deddfwriaethol Gweinidogion Cymru i bandemig y coronafeirws**

**Cefndir**

Pasiwyd Deddf y Coronafeirws 2020 ('Deddf 2020') gan Senedd y DU yn gynharach eleni gan roi pwerau ychwanegol i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r mesurau yn Neddf 2020 yn bennaf yn disgyn i bum categori:

1. **Cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael** – er enghraifft, drwy ganiatáu i staff priodol y GIG a gweithwyr cymdeithasol gael eu cofrestru dros dro, caniatáu i staff sydd wedi ymddeol sy'n meddu ar y sgiliau cywir ddychwelyd i'r GIG heb effaith negyddol ar eu pensiwn a darparu cytundeb indemniad ychwanegol i weithwyr allweddol yn ôl yr angen.

2. **Lleddfu ac ymateb i'r baich ar staff rheng flaen** – er enghraifft, drwy leihau nifer y tasgau gweinyddol y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni, gan alluogi awdurdodau lleol i flaenoriaethu gofal ar gyfer pobl â'r anghenion mwyaf taer, gan alluogi gweithwyr allweddol i gyflawni mwy o dasgau o bell a gyda llai o waith papur.

3. **Cyfyngu ac arafu'r feirws -** drwy roi pwerau i swyddogion Iechyd y Cyhoedd helpu i reoli lledaeniad coronafeirws yn y DU a phwerau mewn perthynas â chyfyngu ar ddigwyddiadau a chyfarfodydd.

4. **Rheoli'r ymadawedig gyda pharch ac urddas** – drwy alluogi'r system rheoli marwolaethau i ddelio â'r galw cynyddol posibl am ei gwasanaethau.

5. **Cefnogi pobl** – er enghraifft, drwy ganiatáu i unigolion gael Tâl Salwch Statudol, a chefnogi busnesau, er enghraifft drwy ddarparu pwerau a fydd yn sicrhau bod Llywodraethau'r DU yn gallu cefnogi'r diwydiant bwyd i gynnal cyflenwadau.

Roedd y darpariaethau yn Neddf 2020 y DU yn deillio o waith sylweddol a chydweithredol rhwng y pedair gwlad, ac yn cwmpasu ystod o faterion gan gynnwys pwerau penodol i Gymru i'w harfer gan Weinidogion Cymru. Er nad oes rhwymedigaeth statudol ar Weinidogion Cymru i adrodd ar y defnydd o'r pwerau hyn, gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Senedd wneud hynny.

Ynghyd â'r pwerau yn Neddf 2020, gwnaed ystod eang o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r coronafeirws gan ddefnyddio pwerau a oedd eisoes yn bodoli.

Mae datganiadau ysgrifenedig wedi'u cyhoeddi i roi gwybod i'r Aelodau am ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud â coronafeirws, er enghraifft gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, a'u diwygio wedyn.

Er mwyn helpu i wella hygyrchedd cyfraith Cymru sy'n ymwneud â’r coronafeirws, mae is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i'r pandemig wedi'i gyhoeddi ar un dudalen[1] ar wefan llyw.Cymru ac mae offerynnau statudol yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk.

**Deddfwriaeth yn ymwneud â’r coronafeirws**

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 04/02/2020 a 10/08/2020 ac mae'n cynnwys yr holl is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â’r coronafeirws a wnaed gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, nid deddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf 2020 yn unig.

Mae'r tabl isod yn amlinellu:

- defnyddio pwerau o dan Ddeddf 2020 (neu gadarnhau nad oes dim wedi'i ddefnyddio);
- y prif Reoliadau sy'n ymwneud â chyfyngiadau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â theithio, a wnaed o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984;
- pob is-ddeddfwriaeth berthnasol arall a wnaed.

[1] https://llyw.cymru/deddfwriaeth-chanllawiau-coronafeirws-ar-y-gyfraith

## Pwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2020

| Darpariaeth Deddf 2020 | Math o bŵer | Disgrifiad o'r ddarpariaeth | Gweithredu'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Adrodd | Statws ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd |
|---|---|---|---|---|
| Adran 3 Atodlen 2 | Rheoliad | Pŵer i ddiwygio Atodlen 2 mewn cysylltiad â'r trefniadau brys sy'n ymwneud ag ymarferwyr meddygol yng Nghymru. | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 15 Atodlen 12 | Canllawiau | Pŵer i Weinidogion Cymru (paragraff 35) gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i flaenoriaethu gwasanaethau o fewn y cyfnod brys, a'r pŵer i gyfarwyddo rhai neu bob un o'r awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r canllawiau. | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 33 | Hysbysiadau | Pŵer i ddyroddi hysbysiadau i addasu gofynion mewn perthynas â gwiriadau DBS ar gyfer gwaith mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a reoleiddir; | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 37 a Rhan 1 o Atodlen 16 | Cyfarwyddyd<br><br>Canllawiau | Pŵer i roi cyfarwyddyd "cau dros dro" i gyrff cyfrifol gan gynnwys perchenogion a chyrff llywodraethu sefydliadau, mewn perthynas ag ysgolion, darparwyr gofal plant cofrestredig a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru neu Loegr. Hefyd yn cynnwys pŵer i gyhoeddi canllawiau. | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 38 a Pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 17 | Cyfarwyddyd<br><br>Hysbysiad<br><br>Canllawiau | Pŵer i wneud cyfarwyddiadau mewn cysylltiad â rhedeg y systemau addysg, hyfforddiant a gofal plant cofrestredig yng Nghymru ("cyfarwyddyd parhad dros dro"). Hefyd yn cynnwys pŵer i ddyroddi hysbysiadau a chanllawiau. | 23/06/20: Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020 | Hysbysiadau yn parhau mewn grym |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 25/06/2020: Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amseroedd Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2020<br><br>25/06/20: Hysbysiad Addasu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2020<br><br>25/06/20: Hysbysiad Addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020 | |
| Adran 51 ac Atodlen 21 | Datganiad<br><br>Dynodi swyddogion iechyd y cyhoedd<br><br>Canllawiau i swyddogion iechyd y cyhoedd | Y pŵer i wneud datganiadau o fygythiad difrifol ac agos mewn perthynas â Chymru ac i ddynodi swyddogion iechyd y cyhoedd i arfer pwerau yng Nghymru. | Datganiad a wnaed ar 17 Mawrth 2020 [https://www.thegazette.co.uk/notice/3546514](https://www.thegazette.co.uk/notice/3546514)<br><br>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw swyddogion iechyd y cyhoedd wedi'u dynodi<br><br>Dim canllawiau | Datganiad yn parhau mewn grym |
| Adran 52 ac Atodlen 22 | Cyfarwyddyd | Pwerau i roi cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau, cynulliadau a mangreoedd | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 58 ac Atodlen 28 | Cyfarwyddyd | Pŵer i roi cyfarwyddiadau i fynd i'r afael â diffyg capasiti mewn perthynas â chludo, storio a gwaredu cyrff marw. | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adrannau 65 i 68 | Rheoliad | y pŵer i ohirio etholiadau awdurdodau lleol yng Nghymru ac i wneud darpariaeth atodol etc; | Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 | OS yn parhau mewn grym |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adran 78 | Rheoliad | pŵer mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol penodedig | Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020/442 (Cy. 100).<br><br>Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 O.S. 2020/653 (Cy. 150) | OS yn parhau mewn grym |
| Adran 81 ac Atodlen 29 | Rheoliad | pŵer i ddiwygio Atodlen 29 ac unrhyw ddeddfiad ar gyfer darpariaeth atodol etc. sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag troi allan | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adran 82 | Rheoliad | pŵer i newid y cyfnod perthnasol at ddiben amddiffyn tenantiaethau busnes rhag darpariaeth fforffedu o dan y Ddeddf. | Nid oes angen | Nid oes angen |
| Adrannau 87 i 93 | Rheoliad | pwerau mewn perthynas â chychwyn, pwerau i atal dros dro neu i adfywio darpariaethau, pwerau i newid y dyddiad y daw'r darpariaethau i ben a phwerau eraill i wneud diwygiadau canlyniadol. | Deddf Coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. 1) (Cymru) 2020<br>Gwnaed: 26 Mawrth 2020<br>Mewn grym:<br>Adran 10, Rhan 1 o Atodlen 8, paragraffau 11, 12 a 13 o Atodlen 8 ac Adran 15 a Rhan 2 o Atodlen 12 i Gymru | OS yn parhau mewn grym |

**Statws Deddf y Coronafeirws**

Mae'r tabl hwn yn nodi statws y darpariaethau yn Neddf Coronafeirws 2020.

Gellir dod o hyd i esboniadau pellach am ddiben ac effaith Deddf 2020 ar y rhan berthnasol o wefan Senedd y DU – https://services.parliament.uk/bills/2019-21/coronavirus.html.

Mae Deddf 2020 hefyd yn gwneud darpariaeth, yn Rhan 2, ar gyfer galluogi "diffodd" darpariaethau Rhan 1 pan nad oes eu hangen. Un mecanwaith o'r fath yw'r cyfleuster i ddarpariaethau sydd mewn grym gael eu hatal ac yna eu hadfywio wedyn, pan ganiateir hynny neu pan fydd yn ofynnol. Pan fydd Rheoliadau, neu Orchmynion, yn cael eu gwneud o dan y pŵer hwn byddant ar gael ar wefan http://www.legislation.gov.uk/ a byddant hefyd yn cael eu cynnwys ar wefan llyw.Cymru[2].

Bydd cynnwys a fformat y tabl yn cael eu hadolygu a'u diweddaru wrth i newidiadau ddigwydd.

| **Adran** (Pob un o Ran 1) Ac Atodlen | **Y mesur** | **Mewn grym? (Y/N) Os ydy, rhowch y dyddiad** | **Wedi'i atal? (Y/N Neu Amh) Os ydy, rhowch y dyddiad** | **Adfywio? (Y/N Neu Amh) Os ydy, rhowch y dyddiad** |
|---|---|---|---|---|
| ***Dehongliad*** | | | | |
| 1 | Ystyr 'coronafeirws' a therminoleg gysylltiedig | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | Amh. | Amh. |
| ***Cofrestru gweithwyr iechyd proffesiynol mewn argyfwng*** | | | | |

[2] https://llyw.cymru/deddfwriaeth-chanllawiau-coronafeirws-ar-y-gyfraith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2<br>Atodlen 1 | Cofrestru nyrsys a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill mewn argyfwng | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 3<br>Atodlen 2 | Trefniadau brys yn ymwneud ag ymarferwyr meddygol: Cymru | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Cofrestru gweithwyr cymdeithasol dros dro*** | | | | |
| 6<br>Atodlen 5 | Cofrestru gweithwyr cymdeithasol mewn argyfwng: Cymru a Lloegr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Gwirfoddolwyr brys*** | | | | |
| 8<br>Atodlen 7 | Absenoldeb gwirfoddoli mewn argyfwng | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 9 | Iawndal ar gyfer gwirfoddolwyr brys | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Iechyd meddwl a galluedd meddyliol*** | | | | |
| 10<br>Atodlen 8-11 | Addasu dros dro ddeddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol | **Daeth adran 10 (1) i rym ar 27 Mawrth 2020 mewn perthynas â Chymru yn unig**[3]<br><br>**Atodlen 8 (paragraffau 1-2 sy'n ymwneud â dod i rym ar 27 Mawrth 2020 mewn perthynas â Chymru yn unig**[4]<br><br>**Daeth Atodlen 8 (paragraff 11-13 yn unig) sy'n ymwneud â Thribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru i rym ar 27 Mawrth 2020**[5] | **Nac ydy** | **AMH.** |

[3] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 1(2020
[4] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 1(2020
[5] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 1(2020

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Atodlen 8 (paragraffau 3-10 a 14 -16) nid yw eto mewn grym** | | |
| ***Indemnio y Gwasanaeth Iechyd*** | | | | |
| 11 | Indemniad ar gyfer gweithgaredd y gwasanaeth iechyd: Cymru a Lloegr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| ***Gofal a chymorth gan y GIG a'r awdurdod lleol*** | | | | |
| 15 Atodlen 12 | Gofal a chymorth Awdurdodau Lleol | Daeth Adran 15 (mewn perthynas â Chymru) a Rhan 2 o Atodlen 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru) **i rym ar 1 Ebrill 2020**[6] | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Cofrestru Marwolaethau a Marw-enedigaethau etc*** | | | | |
| 18 Atodlen 13 | Cofrestru marwolaethau a marw-enedigaethau etc | **Daeth i rym ar 26 Mawrth 2020**[7] | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 19 | Nid oes angen y dystysgrif feddygol gadarnhau ar gyfer amlosgiadau: Cymru a Lloegr | **Daeth i rym ar 26 Mawrth 2020**[8] | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Pwerau ymchwilio*** | | | | |
| 22 | Penodi Comisiynwyr Barnwrol dros dro | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 23 | Terfynau amser mewn perthynas â gwarantau brys etc o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |

[6] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 1(2020

[7] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. 1) Rheoliadau 2020/361

[8] Deddf coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif. 1) Rheoliadau 2020/361

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Olion bysedd a phroffiliau DNA*** | | | | |
| 24 | Ymestyn y terfynau amser ar gyfer cadw olion bysedd a phroffiliau DNA | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Cyflenwad bwyd*** | | | | |
| 25 | Pŵer i fynnu gwybodaeth sy'n ymwneud â chadwyni cyflenwi bwyd | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 26 | Awdurdodau a all fod angen gwybodaeth | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 27 | Cyfyngiadau ar ddefnyddio a datgelu gwybodaeth | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 28 Atodlen 15 | Gorfodi gofyniad i ddarparu gwybodaeth | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 29 | Ystyr 'cadwyn cyflenwi bwyd' ac ymadroddion cysylltiedig | **Heb fod mewn grym eto** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Cwestau*** | | | | |
| 30 | Atal y gofyniad i gynnal cwest gyda rheithgor: Cymru a Lloegr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Datgelu: Cymru*** | | | | |
| 33 | Datgymhwyso etc darpariaethau DBS gan Weinidogion Cymru | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Ysgolion, darparwyr gofal plant etc*** | | | | |
| 37 Atodlen 16 | Cau sefydliadau addysgol ac adeiladau gofal plant dros dro | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 38 Atodlen 17 | Parhad dros dro: addysg, hyfforddiant a gofal plant | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Tâl salwch statudol*** | | | | |
| 39 | Tâl salwch statudol: ariannu rhwymedigaethau cyflogwyr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 40 | Tâl salwch statudol: pŵer i ddatgymhwyso cyfyngiad cyfnod aros | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 41 | Tâl salwch statudol: addasu pwerau gwneud rheoliadau | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| | | ***Pensiynau*** | | |
| 45 | Cynlluniau pensiwn y GIG: atal cyfyngiadau ar ddychwelyd i'r gwaith: Cymru a Lloegr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | | ***Pŵer i atal gweithrediadau'r porthladd*** | | |
| 50 Atodlen 20 | Pŵer i atal gweithrediadau porthladdoedd | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | | ***Pwerau yn ymwneud ag unigolion heintus posibl*** | | |
| 51 Atodlen 21 | Pwerau yn ymwneud ag unigolion heintus posibl | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | | ***Pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau, cynulliadau a mangreoedd*** | | |
| 52 Atodlen 22 | Pwerau i ddyroddi cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â digwyddiadau, crynoadau a mangreoedd | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | | ***Llysoedd a Thribiwnlysoedd: defnyddio technoleg fideo a sain*** | | |
| 53 Atodlen 23 | Ehangu argaeledd cysylltiadau byw mewn achosion troseddol | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 54 Atodlen 24 | Ehangu argaeledd cysylltiadau byw mewn gwrandawiadau troseddol eraill | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 55 Atodlen 25 | Cyfranogiad y cyhoedd mewn achosion a gynhelir gan fideo neu sain | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 56 Atodlen 26 | Cysylltiadau byw mewn apeliadau llys ynadon yn erbyn gofynion neu | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyfyngiadau a osodir ar berson a allai fod yn heintus | | | |
| | ***Pwerau mewn perthynas â chyrff*** | | | |
| 58 Atodlen 28 | Pwerau mewn perthynas â chludo, storio a gwaredu cyrff marw etc | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| | ***Gohirio etholiadau: Cymru*** | | | |
| 65 | Etholiadau i'w cynnal yng Nghymru yn y cyfnod ar ôl 15 Mawrth 2020 | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 66 | Gohirio etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer swyddi yn yr etholaethau | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 67 | Pŵer i ohirio etholiadau awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer swyddi gwag achlysurol | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 68 | Y pŵer i wneud darpariaeth atodol etc | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | ***Gofynion gweinyddol eraill*** | | | |
| 71 | Llofnodion Comisiynwyr y Trysorlys | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| | ***Cyfraniadau Yswiriant Gwladol*** | | | |
| 72 | Pŵer o dan adran 143 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 73 | Pŵer o dan adran 145 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| 74 | Pŵer o dan adran 5 o Ddeddf Cyfraniadau Yswiriant Gwladol 2014 | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |
| | ***Cymorth ariannol i ddiwydiant*** | | | |
| 75 | Datgymhwyso'r cyfyngiad o dan adran 8 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982 | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **AMH.** | **AMH.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Swyddogaethau CThEM*** | | | | |
| 76 | Swyddogaethau CThEM | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Uwchraddio'r credyd treth gwaith etc*** | | | | |
| 77 | Uwchraddio'r credyd treth gwaith ac ati | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol*** | | | | |
| 78 | Cyfarfodydd awdurdodau lleol | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Ardaloedd gwella busnes*** | | | | |
| 79 | Ymestyn trefniadau'r AGB: Lloegr | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 80 | Estyniadau i drefniadau AGB: Gogledd Iwerddon | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Tenantiaethau preswyl: amddiffyn rhag troi allan*** | | | | |
| 81 Atodlen 29 | Tenantiaethau preswyl yng Nghymru a Lloegr: amddiffyn rhag troi allan | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| ***Tenantiaethau busnes: diogelu rhag fforffediad etc*** | | | | |
| 82 | Tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: diogelu rhag fforffediad etc | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| 83 | Tenantiaethau busnes yng Ngogledd Iwerddon: diogelu rhag fforffediad etc | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| **Synod Cyffredinol Eglwys Loegr** | | | | |
| 84 | Gohirio etholiadau Synod Cyffredinol | **Daeth i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol** | **Nac ydy** | **AMH.** |
| | | | | *Gwybodaeth yn gywir ar 21 Gorffennaf 2020* |

**CRYNODEB O DDEDDFWRIAETH SY'N YMWNEUD Â CORONAFEIRWS A WNAED GAN WEINIDOGION CYMRU**

*Dyddiad adroddiad: 10 Awst 2020*

| ***Dyddiad gwnaed*** | | ***Math o ddeddfwriaeth*** | ***Teitl*** | ***Deddf(au) galluogi*** |
|---|---|---|---|---|
| 1. | 04/02/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 113 (Cy. 20) | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 2. | 06/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 232 (Cy. 54) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 3. | 17/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 308 (Cy. 68) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 4. | 21/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 326 (Cy. 74) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 5. | 23/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 334 (Cy. 76) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 6. | 24/03/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-14) | Cyfarwyddiadau i fyrddau Iechyd Lleol ar y Datganiad o Hawliau Ariannol (COVID 19 Atal Gwasanaethau Ychwanegol) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 7. | 26/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 353 (Cy. 80) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 8. | 26/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 366 (Cy. 81) (C.19) | Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |
| 9. | 27/03/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 367 (Cy. 82) | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| 10. | 29/03/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-15) | Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd coronafeirws | Deddf y Coronafeirws 2020 |

| | *Dyddiad gwnaed* | *Math o ddeddfwriaeth* | *Teitl* | *Deddf(au) galluogi* |
|---|---|---|---|---|
| 11. | 01/04/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif: WG20-21) | Deddf Erthylu 1967 – Cymeradwyo Man Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2020 [Saesneg yn unig] | Deddf Erthylu 1967 |
| 12. | 03/04/20 | Offeryn Statudol 2020 Rhif 399 (Cy.88) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 13. | 06/04/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif: WG20-17) | Cyfarwyddyd o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau (Cymru) 2015 | Deddf Cymwysterau Cymru 2015 |
| 14. | 08/04/20 | Offeryn Statudol 2020 Rhif 414 (Cy. 89) | Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020 | Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 |
| 15. | 08/04/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif: WG20-18) | Cyfarwyddydau gwasanaethau meddygol sylfaenol (darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol hanfodol dros benwythnos y pasg a Gwyliau Banc yn ystod y pandemig COVID 19) (gwasanaeth ychwanegol o dan gyfarwyddyd) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 16. | 09/04/20 | Offeryn Statudol 2020 Rhif 420 (Cy. 90) | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| 17. | 20/04/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif: WG20-20) | Cyfarwyddydau r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID 19) (Cymru) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 18. | 21/04/20 | Offeryn Statudol 2020 Rhif 442 (Cy. 100) | Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 and Local Government Act 2000 |
| 19. | 24/04/20 | Offeryn Statudol 2020 Rhif 452 (Cy. 102) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 20. | 24/04/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol (rhif: WG20-22) | Cyfarwyddyd o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau (Cymru) 2015 | Deddf Cymwysterau Cymru 2015 |

| ***Dyddiad gwnaed*** | | ***Math o ddeddfwriaeth*** | ***Teitl*** | ***Deddf(au) galluogi*** |
|---|---|---|---|---|
| 21. | 27/04/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 461 (Cy. 105) | Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |
| 22. | 29/04/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 473 (Cy.109) | Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 | Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 |
| 23. | 30/04/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 479 (Cy. 110) | Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 | Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 |
| 24. | 04/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 486 (Cy. 111) | Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| 25. | 06/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 493 (Cy. 116) | Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 26. | 11/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 497 (Cy. 118) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 27. | 12/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 507 (Cy. 120) | Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 |
| 28. | 15/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 514 (Cy. 121) | Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| 29. | 18/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 517 (Cy. 122) | Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020 | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 |
| 30. | 20/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 529 (Cy. 124) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 31. | 21/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 531 (Cy. 125) | Rheoliadau Taliadau i Ffermwyr (Rheolaethau a Gwiriadau) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 |

| ***Dyddiad gwnaed*** | | ***Math o ddeddfwriaeth*** | ***Teitl*** | ***Deddf(au) galluogi*** |
|---|---|---|---|---|
| 32. | 22/05/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-24) | Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 33. | 29/05/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 557 (Cy. 129) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 34. | 03/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-27) | Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - Costau Mangre) (Cymru) (Diwygio) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 35. | 04/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 570 (Cy. 131) | Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 | Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| 36. | 05/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 574 (Cy. 132) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 37. | 10/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 585 (Cy. 133) | Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Datgymhwyso Dros Dro Ddeiliadaeth Swydd) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 38. | 12/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 593 (Cy. 134) | Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 | Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 |
| 39. | 15/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 594 (Cy. 135) | Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020 | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 |
| 40. | 15/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 595 (Cy. 136) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 41. | 17/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 606 (Cy. 140) | Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |

| Dyddiad gwnaed | | Math o ddeddfwriaeth | Teitl | Deddf(au) galluogi |
|---|---|---|---|---|
| 42. | 17/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-26) | Cyfarwyddydau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (Cynllun Yswiriant Bywyd y Coronafeirws) (Cymru) 2020 | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 43. | 18/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-29) | Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol (Atal Gwasanaethau Ychwanegol Dros Dro Oherwydd COVID-19) 2020 [Saesneg yn unig] | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 44. | 19/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 619 (Cy. 141) | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 | Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| 45. | 19/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 622 (Cy. 142) | Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 | Deddf Addysg 2002 |
| 46. | 22/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 623 (Cy. 143) | Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 | Deddf Addysg (Cymru) 2014 |
| 47. | 22/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 624 (Cy. 144) | Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 | Ddeddf y Coronafeirws 2020 |
| 48. | 22/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-28) | Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch Cyfarwyddiadau'r Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 2) 2020 [Saesneg yn unig] | Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| 49. | 23/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 638 (Cy. 146) | Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020 | Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 |
| 50. | 23/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-35) | Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |

| ***Dyddiad gwnaed*** | | ***Math o ddeddfwriaeth*** | ***Teitl*** | ***Deddf(au) galluogi*** |
|---|---|---|---|---|
| 51. | 25/06/20 | Offeryn Statudol<br>2020 Rhif 640 (Cy. 147) | Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |
| 52. | 25/06/20 | Is-ddeddfwriaeth nad yw'n Offeryn Statudol<br>(rhif: WG20-27) | Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2020 | Deddf y Coronafeirws 2020 |
